

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol

Adroddiad ar Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru



COMISIWN FFINIAU I GYMRU
ADRODDIAD AR AROLWG 2018 O ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMRU

MEDI 2018

Cyflwynwyd i'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet yn unol ag Adran 3 Deddf Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd

© Hawlfraint y Goron 2018

Gallwch aildddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch neges e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at y Comisiwn yn comffin.cymru@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan hefyd yn www.comffin-cymru.gov.uk

Rhagair

Annwyl Gweinidog,

Rwy'n ysgrifennu ar ran y Comisiwn Ffiniau i Gymru i gyflwyno ei adroddiad yn unol ag adran 3 Deddf Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd. Mae'r adroddiad yn dangos yr etholaethau Seneddol y mae'r Comisiwn yn argymhell y dylid rhannu Cymru iddynt er mwyn gweithredu'r Rheolau a amlinellir yn Atodlen 2 y Ddeddf. Rydym hefyd yn argymhell yr enwau y dylid eu rhoi i bob etholaeth a ph'un a ddylai bob etholaeth fod yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol.

Ar 13 Medi 2016, cyhoeddodd y Comisiwn ei gynigion cychwynnol ar gyfer etholaethau Seneddol yng Nghymru. Bryd hynny, dechreuodd broses ymgynghori ar y cynigion hynny, Cafodd y Comisiwn gannoedd o gynrychiolaethau ysgrifenedig ar y cynigion cychwynnol. Cynhaliwyd gwrandawiadau cyhoeddus ledled Cymru i alluogi aelodau'r cyhoedd i fynegi eu barn ar y cynigion cychwynnol ac awgrymu sut y gellid eu diwygio a'u gwella. Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau hynny. Cyhoeddodd y Comisiwn gynigion diwygiedig yn cynnig newidiadau, yn aml newidiadau sylweddol, i 18 o'r 29 o etholaethau arfaethedig yng Nghymru, a newidiadau i enwau naw o'r etholaethau. Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori pellach pan roedd modd i aelodau'r cyhoedd wneud cynrychiolaethau ar y cynigion diwygiedig. Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a dderbyniwyd. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu argymhellion y Comisiwn ar gyfer etholaethau yng Nghymru. Mae'r argymhellion yn ganlyniad dadansoddi ac ymgynghori helaeth. Mae'r Comisiwn yn fodlon mai'r etholaethau argymelledig yw'r rhai sy'n gweithredu'r Rheolaeth yn Atodlen 2 y Ddeddf orau.

Yn gywir,
Syr Clive Lewis
Dirprwy Gadeirydd
Comisiwn Ffiniau i Gymru

Cynnwys

	Tudalen
Rhagair	
1 Cyflwyniad	3
2 Meini Prawf ar gyfer Arolygu Etholaethau Seneddol	4
Cymhwyso darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd)	4
Cydadwaith yr ystyriaethau	5
Ffactorau na wnaeth y Comisiwn eu hystyried	5
Enwi a dynodi etholaethau	6
3 Datblygu'r Argymhellion ar gyfer Etholaethau	8
Nifer yr etholwyr	8
Maint etholaethau	8
Patrwm yr etholaethau	8
Cynigion cychwynnol	9
Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol	9
Cynigion diwygiedig	10
Argymhellion	10
4 Crynodeb o'r Argymhellion	11
5 Yr Argymhellion yn fanwl	12
Esboniad o'r mapiau manwl a'r allwedd	12
1. Ynys Môn a Bangor (Anglesey and Bangor)	18
2. Gwynedd	23
3. Conwy and Colwyn (Conwy a Cholwyn)	29
4. Rhuddlan and Flint (Rhuddlan ac Y Fflint)	34
5. Alyn and Deeside (Alun a Glannau Dyfrdwy)	38
6. Wrexham (Wrecsam)	42
7. De Clwyd a Gogledd Maldwyn (South Clwyd and North Montgomeryshire)	47
8. Brecon, Radnor and Montgomery (Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn)	54
9. Monmouthshire (Sir Fynwy)	59
10. Newport (Casnewydd)	63
11. Torfaen	67
12. Blaenau Gwent	71
13. Merthyr Tydfil and Rhymney (Merthyr Tudful a Rhymni)	75
14. Caerphilly (Caerffili)	79
15. Cynon Valley and Pontypridd (Cwm Cynon a Phontypridd)	85
16. Rhondda and Llantrisant (Rhondda a Llantrisant)	89
17. Cardiff West (Gorllewin Caerdydd)	94
18. Cardiff North (Gogledd Caerdydd)	99
19. Cardiff South and East (De a Dwyrain Caerdydd)	104
20. Vale of Glamorgan East (Dwyrain Bro Morgannwg)	109
21. Bridgend and Vale of Glamorgan West (Pen-y-bont a Gorllewin Bro)	113

	Morgannwg)	
	22. Ogmore and Aberavon (Ogwr ac Aberafan)	118
	23. Neath (Castell-nedd)	124
	24. Swansea East (Dwyrain Abertawe)	129
	25. Gower and Swansea West (Gŵyr a Gorllewin Abertawe)	134
	26. Llanelli	139
	27. Caerfyrddin (Carmarthen)	143
	28. Mid and South Pembrokeshire (Canol a De Sir Benfro)	147
	29. Ceredigion a Gogledd Sir Benfro (Ceredigion and North Pembrokeshire)	152
Atodiad 1: Etholaethau Argymelledig		157
Atodiad 2: Mynegai Etholaethau Presennol		158

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ar 24 Mawrth 2016, cyhoeddodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru ("y Comisiwn") Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru, yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 ("y Ddeddf"), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011.
- 1.2 Cyhoeddodd y Comisiwn ei gynigion cychwynnol ar 13 Medi 2016. Datblygodd y cynigion ar sail y meini prawf statudol newydd. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, bod y cynigion yn rhai dros dro. Roedd lansio'r cynigion cychwynnol yn ddechrau ymgynghoriad 12 wythnos ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, gwahoddwyd y cyhoedd i gyflwyno'u cynrychiolaethau yn ysgrifenedig a/neu fynychu un o bum gwrandawriad cyhoeddus a gynhaliwyd ledled Cymru ac a gadeiriwyd gan Gomisiynwyr Cynorthwyol. Rhoddodd y Comisiwn bwys mawr ar y cyfle i gyflwyno cynrychiolaethau i'r Comisiwn yn Gymraeg neu Saesneg, p'un a oeddent o blaid y cynigion neu'n eu gwrthwynebu.
- 1.3 Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd y Comisiwn yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol o 12 wythnos. Roedd cyfnod statudol ychwanegol o bedair wythnos ar gael wedyn i unigolion a sefydliadau gynnig sylwadau ar y cynrychiolaethau a wnaed gan eraill. Adolygodd y Comisiynwyr Cynorthwyol yr holl gynrychiolaethau a dderbyniodd y Comisiwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol a'r ail gyfnod ymgynghori, a llunio Adroddiad i'r Comisiwn.
- 1.4 Adolygodd y Comisiwn y cynrychiolaethau ei hun ac ystyried adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol. Cyhoeddodd y Comisiwn ei gynigion diwygiedig ar 17 Hydref 2017 ar gyfer cyfnod ymgynghori o wyth wythnos a ddaeth i ben ar 11 Rhagfyr 2017. Rhoddodd y cynigion diwygiedig ystyriaeth ofalus i'r holl gynrychiolaethau a gyflwynwyd i'r Comisiwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r ail gyfnod ymgynghori, ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, wrth ystyried y ffordd orau i weithredu'r Rheolau yn Atodlen 2 i'r Ddeddf. Eto, rhoddodd y Comisiwn bwys mawr ar y cyfle i gyflwyno cynrychiolaethau i'r Comisiwn, p'un a oeddent o blaid y cynigion neu'n eu gwrthwynebu.
- 1.5 Nawr, mae'r Comisiwn yn cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet yn dangos yr etholaethau y mae'r Comisiwn yn argymhell y dylid rhannu Cymru iddynt er mwyn gweithredu'r Rheolau a amlinellir yn Atodlen 2 i'r Ddeddf. Mae'r argymhellion hyn yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r holl gynrychiolaethau a gyflwynwyd i'r Comisiwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r ail gyfnod ymgynghori, a'r ymgynghoriad ar y cynigion diwygiedig. Mae'r Comisiwn wedi argymhell etholaeth sydd, yn ei farn ef, yn gweithredu'r Rheolau yn Atodlen 2 i'r Ddeddf orau.

2. Meini prawf ar gyfer arolygu Etholaethau Seneddol

Cymhwyso darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd)

2.1 Mae'r Comisiwn wedi cymhwyso darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 fel y'i diwygiwyd (yn bennaf gan Ddeddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011).

2.2 Dyma'r meini prawf allweddol yn yr arolwg o etholaethau Seneddol:

- **Lleihau nifer yr etholaethau:** Bydd lleihau nifer yr etholaethau yn y DU o 650 i 600, ynghyd â chyflwyno cwota etholiadol y DU, yn golygu y bydd nifer yr etholaethau yng Nghymru yn lleihau o 40 i 29.
- **Amrediad etholwyr statudol:** Mae'r Ddeddf, fel y'i diwygiwyd, yn pennu nifer o Reolau yn Atodlen 2 sy'n berthnasol i ddatblygu cynigion ar gyfer etholaethau unigol yn fanwl. Mae Rheoli 2 yn amodi – ar wahân i bedwar eithriad penodol (ac nid yw'r un o'r rhain yn gymwys i Gymru) – bod rhaid i bob etholaeth gael cyfanswm o etholwyr (ar 'ddyddiad yr arolwg' a bennir yn y Ddeddf) nad yw'n llai na 95% ac nad yw'n uwch na 105% o 'gwota etholiadol y DU'. Cwota etholiadol y DU ar gyfer Arolwg 2018, i'r cyfanrif agosaf, yw 74,769¹. Yn unol â hynny, rhaid i bob etholaeth yng Nghymru fod â chyfanswm o etholwyr ar ddyddiad yr arolwg nad yw'n llai na 71,031 ac nad yw'n uwch na 78,507 (yr amrediad etholwyr statudol).
- **Ffactorau statudol eraill:** Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 ("Rheol 5") yn darparu ar gyfer nifer o ffactorau eraill y gall y Comisiwn eu hystyried wrth bennu map newydd o'r etholaethau ar gyfer Arolwg 2018, yn benodol:
 1. Ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys, yn benodol, maint, ffurf a hygyrchedd etholaeth;
 2. ffiniau llywodraeth leol, fel y diffinnir yn y Ddeddf, fel yr oeddent ar 7 Mai 2015;
 3. ffiniau etholaethau presennol; ac
 4. unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau.²

¹ Yn ôl Rheol 2(3) yn Atodlen 2 i Ddeddf 2011, cwota etholiadol y DU yw: 44,562,440 (cyfanswm yr etholwyr yn y DU ar ddyddiad yr arolwg) wedi'i rannu â 596.

² Mae ffactor pellach – 'yr anghyfleustra sydd ynghlwm wrth newidiadau tebyg' – wedi'i hepgor yn benodol ar gyfer Arolwg 2018, ond gellir ei ystyried ar gyfer arolygon dilynol.

Cydadwaith yr ystyriaethau

- 2.3 Polisi'r Comisiwn fu ystyried yr holl ffactorau a restrir yn Rheol 5, cyn belled ag y bo modd, yn amodol ar sicrhau bod pob etholaeth argymelledig yn disgyn o fewn yr amrediad etholwyr statudol dan Rheol 2. Ambell waith, mae graddfa lleihau nifer yr etholaethau yng Nghymru o 40 i 29 wedi ei gwneud yn arbennig o anodd i ni gyfleu'r ffactorau yn Rheol 5. Mae'r Comisiwn wedi ceisio argymell etholaethau sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol orau, yn gyffredinol.
- 2.4 Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn geisio cyflawni cyfanswm etholwyr mewn etholaethau sydd 'mor agos â phosibl' at gwota etholiadol y DU. Nid yw'r Comisiwn ychwaith yn ei hystyried yn briodol gosod amcan polisi ar y cynllun statudol o geisio lleihau gwyro oddi wrth gwota etholiadol y DU. Roedd y Comisiwn o'r farn y byddai amcan tebyg yn tanseilio gallu'r Comisiwn i roi ystyriaeth briodol i'r ffactorau a restrir yn Rheol 5 Atodlen 2 i'r Ddeddf. Felly, i ddangos hynny, gallai fod yn well gan y Comisiwn argymell etholaeth ag amrywiant o 4% o gwota etholiadol y DU, er enghraifft, ond sy'n parchu ffiniau llywodraeth leol neu etholaethau presennol, neu sy'n osgoi torri cysylltiadau lleol, yn hytrach na dewis arall a fyddai'n creu etholaeth ag amrywiant o 1% yn unig, ond a fyddai'n groes i'r ffactorau y cyfeirir atynt yn Rheol 5 neu'n llai cydsyniol â nhw.
- 2.5 Cyn belled ag y bo modd, mae'r Comisiwn wedi ceisio argymell etholaethau:
- o wardiau etholiadol sy'n gyfagos at ei gilydd;
 - o gymunedau cyfan; ac
 - nad ydynt yn cynnwys 'rhannau datgysylltiedig' h.y. lle byddai'r unig gysylltiad ffisegol rhwng un rhan o'r etholaeth a'r gweddill ohoni yn golygu teithio trwy etholaeth wahanol.

Ffactorau na wnaeth y Comisiwn eu hystyried

Effaith ar ganlyniadau etholiadau yn y dyfodol

- 2.6 Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol a diduedd. Mae'n pwysleisio'n gryf iawn nad yw patrymau pleidleisio presennol a ffawd pleidiau gwleidyddol yn y dyfodol yn rhan o'i ystyriaethau.

Ffiniau llywodraeth leol newydd

- 2.7 Caiff y ffiniau llywodraeth leol y gall y Comisiwn eu hystyried eu hamlygu yn y Ddeddf fel y ffiniau fel y maent ar ddiwrnod etholiad arferol diweddaraf y cyngor cyn dyddiad yr arolwg, sef y ffiniau a oedd yn bodoli ar 7 Mai 2015. O ganlyniad, nid yw'r Comisiwn wedi ystyried unrhyw ffiniau newydd a gafodd eu creu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Data etholiadol a newidiadau i nifer yr etholwyr ar ôl dyddiad yr arolwg

- 2.8 Mae'r etholaethau presennol yng Nghymru wedi'u seilio ar ddata etholiadol o 2001. Wrth argymell etholaethau, mae'n ofynnol i'r Comisiwn, o dan y Ddeddf, i weithio ar sail nifer yr etholwyr ar y cofrestrï etholiadol ar 'ddyddiad yr arolwg', fel y diffinnir yn y Ddeddf.

Enwi a dynodi etholaethau

- 2.9 Wrth wneud ei gynigion, mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn bennu enw a dynodiad ar gyfer pob etholaeth arfaethedig.

Enwi

- 2.10 Polisi'r Comisiwn ar enwi etholaethau yw, os yw'r etholaethau yn aros yn bur ddigyfnawid, y dylid cadw enw presennol yr etholaeth fel arfer. Yn yr achosion hyn, mae enwau etholaethau'n debygol o gael eu newid dim ond pan fydd rheswm da dros eu newid.
- 2.11 Ar gyfer etholaeth newydd, fel arfer dylai'r enw adlewyrchu enw'r prif gyngor neu brif gynghorau sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf o fewn yr etholaeth. Fodd bynnag, os oes enw arall addas sy'n debygol o fynnu mwy o gefnogaeth leol, mae'r Comisiwn wedi argymhell yr enw arall hwnnw.
- 2.12 Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol i bob etholaeth yng Nghymru fod ag enwau Cymraeg a Saesneg. Felly, mae'r Comisiwn wedi argymhell enwau amgen yn Gymraeg ar gyfer enwau'r etholaethau hynny yn Saesneg, ac i'r gwrthwyneb. Fel hyn, mae'r Comisiwn wedi ceisio trin y ddwy iaith yn gyfartal. Yn yr adroddiad hwn felly, caiff enwau amgen eu darparu yn Gymraeg lle mae prif enw'r etholaeth yn Saesneg, ac yn Saesneg lle mae prif enw'r etholaeth yn Gymraeg. Lle mae enw etholaeth yr un fath yn y ddwy iaith, er enghraifft Llanelli, ni argymhellwyd unrhyw enw amgen.
- 2.13 Mae'r Comisiwn yn mabwysiadu enwau pwyntiau'r cwrmpawd pan nad oes enw mwy addas. Yn Saesneg, bydd y cyfeiriad pwynt cwrmpawd a ddefnyddir yn ffurfio rhagddodiad yn gyffredinol mewn achosion lle mae enw etholaeth yn cyfeirio at brif ardal neu hen gyngor dosbarth, ond yn ffurfio ôl-ddodiad lle mae gweddill yr enw yn cyfeirio at ganolfan boblogaeth. Mae enghreifftiau o etholaethau presennol sy'n dangos yr egwyddor hon yn cynnwys *'Carmarthen West and South Pembrokeshire'* a *'Swansea West'*. Yn y Gymraeg, bydd y cyfeiriad pwynt cwrmpawd a ddefnyddir yn ffurfio rhagddodiad, yn unol â'r arfer yn y Gymraeg.
- 2.14 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas ag enwi etholaethau. Awgrymodd y Comisiynydd y dylid dod o hyd i enwau Cymraeg a fyddai'n addas i'w defnyddio yn Gymraeg a Saesneg er mwyn osgoi'r angen am ffurfiau deul. Nid yw'r Comisiwn wedi derbyn awgrym Comisiynydd y Gymraeg. Yn gyffredinol, mae enwau'r etholaethau arfaethedig yn adlewyrchu etholaethau presennol neu ardaloedd awdurdod lleol. Ym marn y Comisiwn, yr enwau etholaethau hynny sy'n debygol o fynnu mwy o gefnogaeth a bod yn haws i'w hadnabod gan y rheiny sy'n byw ynddynt nag etholaethau y rhoddir enwau wedi'u creu o'r newydd iddynt.
- 2.15 Yn eu hadroddiad, argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol ollwng y defnydd o gysyllteiriau mewn rhai achosion, fel yn yr enwau Ynys Môn Bangor a Rhondda Llantrisant. Roedd y Comisiwn o'r farn fod hyn yn amhriodol gan y dylai'r enw adlewyrchu'r ddwy ardal ar wahân o fewn yr etholaeth arfaethedig. Byddai mabwysiadu ymagwedd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn arwain at anghysondeb hefyd o ran enwi, gan y byddai rhai enwau etholaethau yn cynnwys cysylltair a rhai eraill heb fod yn cynnwys cysylltair. Roedd y

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Comisiwn o'r farn mai'r ymagwedd orau lle'r oedd etholaeth arfaethedig yn cynnwys dwy ardal adnabyddadwy oedd cynnwys y ddau enw wedi'u cysylltu gan gysylltair.

- 2.16 Hefyd, tynnodd y Comisiynwyr Cynorthwyol sylw at arfer yn y Gymraeg o enwi lleoedd daearyddol o'r gogledd i'r de ac o'r gorllewin i'r dwyrain. Mae'r Comisiwn wedi derbyn y cyngor hwn.
- 2.17 Mae gan y Comisiwn ddyletswydd i argymhell yr enw y dylid ei roi i etholaeth yn yr adroddiad y mae'n ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet. Mae Adran 3(5A) y Ddeddf yn amodi y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol (y mae ei swyddogaethau yn arferadwy yn gydredol â'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet) gyflwyno Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor gerbron y Senedd yn rhoi grym i argymhellion y Comisiwn. Ar ben hynny, mae Adran 25(2) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn amodi, lle mae Deddf Seneddol yn rhoi grym, i'w arfer gan offeryn statudol, i roi enw i unrhyw gorff, swydd, neu le, y bydd y grym yn cynnwys y grym i roi enwau amgen yn Saesneg ac yn Gymraeg. Mae'r Comisiwn o'r farn felly, os yw'n argymhell bod etholaethau yn cael enwau amgen, y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet wedi'i rymuso i roi grym i'r argymhellion hynny wrth gyflwyno Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor gerbron y Senedd.

Dynodi

- 2.18 Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob etholaeth gael ei dynodi naill ai'n 'etholaeth sirol' neu'n 'etholaeth fwrdeistrefol'. Mae'r Comisiwn o'r farn, fel egwyddor gyffredinol, lle mae etholaethau'n cynnwys mwy nag un elfen wledig fach, y dylid eu dynodi yn etholaethau sirol, fel arfer. Mewn achosion eraill, dylid eu dynodi yn etholaethau bwrdeistrefol. Caiff y dynodiad ei ôl-ddodi at enw'r etholaeth a chaiff ei dalfyrru fel arfer: **BC** am etholaeth fwrdeistrefol a **CC** am etholaeth sirol.
- 2.19 Crëwyd enwau a dynodiadau'r etholaethau presennol gan Orchymyn yn y Senedd mewn un iaith yn unig. Gwneir cyfeiriadau at yr etholaethau presennol hyn ar y sail honno. Fodd bynnag, bydd yr holl gyfeiriadau yn yr adroddiad hwn, ac yn y fersiwn Saeaneg, yn cynnwys y dynodiad priodol yn yr iaith briodol.

3. Datblygu'r Argymhellion ar gyfer Etholaethau

Nifer yr etholwyr

- 3.1 Ar hyn o bryd, mae 40 o etholaethau yng Nghymru. Mae nifer yr etholwyr yn yr etholaethau yn amrywio o 37,739 (Arfon CC) i 72,392 (Cardiff South and Penarth BC) a nifer gyfartalog yr etholwyr yn y 40 o etholaethau presennol yng Nghymru yw 54,546. Yn unol â'r diwygiadau i'r Ddeddf, byddai nifer yr etholaethau yng Nghymru yn lleihau o 40 i 29 a byddai'r amrediad etholwyr statudol rhwng 71,031 a 78,507. Felly, mae'r etholaethau argymelledig yn sylweddol wahanol i'r etholaethau presennol.
- 3.2 Un o effeithiau lleihau nifer gyffredinol yr etholaethau a ddyrannwyd i Gymru, a gofynion yr amrediad etholwyr statudol, yw y bu rhaid argymell newidiadau i'r un etholaeth bresennol yng Nghymru (Cardiff South and Penarth BC) sydd â nifer etholwyr sydd eisoes o fewn yr amrediad etholwyr statudol er mwyn gallu argymell etholaeth sydd, ar y cyfan, yn adlewyrchu'r meini prawf statudol orau.

Maint etholaethau

- 3.3 Mae maint (o ran arwynebedd) yr etholaethau presennol yn amrywio o 17km² (Cardiff Central BC) i 3,014km² (Brecon and Radnor CC). Y maint mwyaf a ganiateir ar gyfer etholaeth dan y ddeddfwriaeth newydd yw 13,000km². Byddai etholaeth o'r maint hwnnw yn gorchuddio tua 61% o Gymru. O ystyried y nifer gymharol fach o etholwyr mewn rhannau gwledig o Gymru, mae'n anochel, o dan y trefniadau newydd, bod rhai o'r etholaethau argymelledig yn fawr iawn o ran eu harwynebedd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw un o'r etholaethau arfaethedig yng Nghymru yn dod yn agos at y maint mwyaf ond, o ganlyniad i gwota etholiadol y DU, mae'n anochel bod rhai o'r etholaethau argymelledig yng Nghymru yn fwy na'r rhai sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Patrwm yr etholaethau

- 3.4 Derbyniodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau yn gofyn am ystyriaeth arbennig i Ynys Môn barhau'n etholaeth ynys. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn amodi ar gyfer pedair etholaeth benodol (dwy yn Lloegr a dwy yn Yr Alban) nad oes rhaid iddynt fodloni'r gofyniad i nifer yr etholwyr mewn etholaeth ddisgyn o fewn yr amrediad etholwyr a bennir yn Rheol 2 Atodlen 2 i'r Ddeddf. Nid yw'r Ddeddf yn darparu eithriad ar gyfer Ynys Môn (nac unrhyw etholaeth yng Nghymru) ac nid yw'n bosibl i'r Comisiwn argymell etholaeth ar wahân ar gyfer Ynys Môn, oherwydd ni fyddai gan yr etholaeth argymelledig honno nifer etholwyr a fyddai'n disgyn o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Ar ben hynny, o ystyried nifer yr etholwyr mewn rhai o gymoedd de Cymru, mae rhai o'r etholaethau argymelledig yn cynnwys mwy nag un cwm. Yn yr un modd, bu rhaid cynnwys wardiau etholiadol gwahanol mewn un ardal awdurdod lleol mewn mwy nag un etholaeth argymelledig.

Cynigion cychwynnol

- 3.5 Yn unol â darpariaethau'r Ddeddf, datblygodd y Comisiwn set o gynigion cychwynnol ar gyfer etholaethau arfaethedig i ddechrau. Roedd gan y Comisiwn y dasg o lunio cynigion ar gyfer y 29 etholaeth arfaethedig yn lle'r 40 etholaeth bresennol. Wrth wneud hynny, roedd rhaid iddo weithredu'r gofyniad bod rhaid i nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth arfaethedig ddisgyn o fewn yr amrediad etholwyr statudol. O ganlyniad, roedd gallu'r Comisiwn i ystyried y ffactorau a restrir yn Rheol 5 Atodlen 2 i'r Ddeddf wedi'i gyfyngu, ar adegau. Yn yr un modd, wrth ystyried rhinweddau cynlluniau amgen a luniwyd wrth ymateb i'r cynigion cychwynnol, canfuwyd nad oedd rhaid o'r newidiadau neu'r atebion a awgrymwyd yn ymarferol, mewn rhai achosion, oherwydd na allent fodloni'r gofynion o ran maint yr etholaeth neu oherwydd eu heffaith ôl-ddilynol ar etholaethau arfaethedig eraill. Fodd bynnag, ym mhob cam o'i ystyriaethau, mae'r Comisiwn wedi ceisio amlygu ac argymhell yr etholaethau sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol orau, ar y cyfan.
- 3.6 Roedd cynigion cychwynnol y Comisiwn, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2016, yn amlinellu 29 o etholaethau arfaethedig. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau helaeth, adeiladol a defnyddiol gan unigolion a sefydliadau mewn perthynas â'r cynigion cychwynnol, gan gynnwys nifer o gynrychiolaethau a oedd yn berthnasol i Gymru gyfan, neu rannau sylweddol ohoni. Derbyniwyd cyfanswm o 798 o gynrychiolaethau ysgrifenedig – naill ai trwy lythyr, e-bost, deisebau neu gyfraniadau drwy'r Porth Ymgynghori – a siaradodd 74 o unigolion mewn gwrandawladau cyhoeddus. Mae'r Comisiwn yn ddiolchgar iawn am y cynrychiolaethau sydd wedi dod i law.

Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol

- 3.7 Mae Atodlen 1 i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, ar gais y Comisiwn, benodi un neu fwy o Gomisiynwyr Cynorthwyol i gynorthwyo'r Comisiwn i gyflawni ei swyddogaethau. Penodwyd tri Chomisiynydd Cynorthwyol ar gyfer Arolwg 2018 yng Nghymru. Rôl y Comisiynwyr Cynorthwyol oedd cadeirio'r gwrandawladau cyhoeddus a rhoi adroddiad annibynnol a diduedd i'r Comisiwn ar sail y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn y gwrandawladau ac yn ysgrifenedig. Ymddiswyddodd y Comisiynydd Cynorthwyol Arweiniol ar ôl y gwrandawladau cyhoeddus, a phenodwyd un o'r Comisiynwyr Cynorthwyol arall yn Gomisiynydd Cynorthwyol Arweiniol.
- 3.8 Adolygodd y ddau Gomisiynydd Cynorthwyol yr holl gynrychiolaethau a dderbyniodd y Comisiwn, a lluniwyd adroddiad ar gyfer y Comisiwn. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r hyn yr ystyriai'r Comisiynwyr Cynorthwyol oedd y pwyntiau amlwg a godwyd gan y cynrychiolaethau, a gwnaeth argymhellion i'r Comisiwn ar ddiwygiadau y gellid eu gwneud i'r cynigion cychwynnol. Gellir gweld Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol ar wefan y Comisiwn.

Cynigion Diwygiedig

- 3.9 Roedd Adran 5(5) y Ddeddf yn rhagweld y gallai'r Comisiwn ddiwygio'i gynigion yn sgil y cynrychiolaethau a dderbyniwyd. Wrth ddatblygu cynigion diwygiedig, ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad a'r argymhellion a wnaed gan y Comisiynwyr Cynorthwyol.
- 3.10 Roedd cynigion diwygiedig y Comisiwn, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017, yn cyflwyno set ddiwygiedig o etholaethau Seneddol arfaethedig yng Nghymru â newidiadau daearyddol, sylweddol mewn rhai achosion, i 18 o'r etholaethau a gynigiwyd yn wreiddiol. Mae maint y newidiadau yn dangos yr ystyriaeth ofalus a roddodd y Comisiwn i'r cynrychiolaethau a wnaed mewn perthynas â'r cynigion cychwynnol. Cyflwynwyd 172 o gynrychiolaethau ysgrifenedig yn ymateb i'r cynigion diwygiedig. Roedd rhai ohonynt yn codi materion newydd. Roedd rhai ohonynt yn ail-ddadlau pwyntiau a wnaed yn ymateb i'r cynigion cychwynnol. Roedd rhai ohonynt yn mynegi cymeradwyaeth, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, i'r cynigion diwygiedig. Derbyniwyd 23 o gynrychiolaethau yn ymwneud ag enwau'r etholaethau arfaethedig.
- 3.11 O ystyried yr angen i sicrhau bod nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth yn bodloni gofyniadau Rheol 2 Atodlen 2 y Ddeddf, ni fu'n bosibl bodloni'r holl bryderon pellach a fynegwyd. Ar ben hynny, o ran yr etholaethau argymelledig sy'n ddaearyddol fwy, mae'r Comisiwn hefyd yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch y pwysau teithio ar aelodau etholedig a'u hetholwyr. Roedd 23 o'r cynrychiolaethau yn ymwneud â'r enwau argymelledig neu'r enwau amgen ar gyfer yr etholaethau argymelledig. Mae'r Comisiwn wedi gwneud newidiadau i dri o'r enwau i adlewyrchu'r cynrychiolaethau hyn. Ni dderbyniodd tystiolaeth gymhellol mewn perthynas â'r newidiadau eraill a gynigiwyd i'r enwau bod yr enwau a awgrymwyd yn adlewyrchu'r etholaethau argymelledig yn well na'r rhai a gynigiwyd gan y Comisiwn.

Argymhellion

- 3.12 Yn dilyn prosesau ymgynghori helaeth a gynhaliwyd gan y Comisiwn, mae nawr yn orfodol iddo gyflwyno adroddiad i'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet yn dangos ei argymhellion ar gyfer yr etholaethau yng Nghymru, yr enwau y dylid eu rhoi i'r etholaethau argymelledig, a ph'un a ddylai pob etholaeth argymelledig fod yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol. Caiff yr etholaethau argymelledig eu disgrifio'n fanwl isod a'u dangos yn y mapiau amlinellol yn adran 5. Yn yr adroddiad hwn, caiff yr etholaethau arfaethedig eu cyflwyno yn yr un drefn a ddefnyddiwyd yn y cynigion cychwynnol/diwygiedig, gan ddechrau gydag **'Ynys Môn a Bangor'**, a dod i ben â **'Ceredigion a Gogledd Sir Benfro'**. Mae'r drefn hon at ddibenion cyflwyniadol yn unig.

4. Crynodeb o'r Argymhellion

- Cwota etholiadol y DU yw 74,769 gyda goddefiant o rhwng 95% a 105% o'r ffigur hwn (71,031 a 78,507 yn y drefn honno). Mae pob un o'r etholaethau argymelledig o fewn yr amrediad statudol gyda 12 o etholaethau yn is na'r cwota etholiadol ac 17 yn uwch na'r cwota etholiadol.
- Byddai 15 o'r etholaethau presennol yn gyfan gwbl o fewn etholaeth newydd (yr etholaethau presennol yw Alun a Glannau Dyfrdwy, Blaenau Gwent, Brecon and Radnor, Bridgend, Cardiff West, Ceredigion, Cynon Valley, Dwyfor Meirionnydd, Llanelli, Merthyr Tydfil and Rhymney, Neath, Rhondda, Torfaen, Wrexham, ac Ynys Môn).
- Byddai ardaloedd chwe phrif gyngor yn gyfan gwbl o fewn etholaeth arfaethedig (Blaenau Gwent, Ceredigion, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Thorfaen).
- Byddai chwech o'r etholaethau dros 1,000 km² (etholaethau arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn, Caerfyrddin, Ceredigion a Gogledd Sir Benfro, De Clwyd a Gogledd Maldwyn, Gwynedd, a Chanol a De Sir Benfro). Byddai dwy o'r etholaethau argymelledig hyn rhwng 2,000 a 3,000 km² (Caerfyrddin, a Ceredigion a Gogledd Sir Benfro) a dwy ohonynt dros 3,000 km² (Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn, a Gwynedd). Nid oes unrhyw etholaeth dros 4,000 km².
- O'r 881 o wardiau etholiadol yng Nghymru, byddai 880 ohonynt yn gyfan gwbl o fewn etholaeth argymelledig. Ystyriwyd ei bod yn briodol rhannu un ward etholiadol er mwyn cydymffurfio â Rheolau 2 a 5. Byddai ward etholiadol Ponciau yn cael ei rhannu i'w chymunedau cyfansoddol.

5. Yr Argymhellion yn Fanwl

5.1 Disgrifir argymhellion y Comisiwn yn fanwl isod. Ar gyfer pob etholaeth argymelledig, mae'r adroddiad yn amlinellu:

- Cyfansoddiad yr etholaeth y mae'r Comisiwn yn ei argymell o ran y wardiau etholiadol y byddai'n ei chynnwys, p'un a ddylai fod yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol, a'i hamrywiant oddi wrth y cwota etholiadol;
- enw'r etholaeth a argymhellir gan y Comisiwn, gan gynnwys yr enw amgen argymelledig, os yw'n berthnasol;
- pob etholaeth bresennol y mae'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arni, gan gynnwys nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth, canran yr amrywiant oddi wrth gwota etholiadol y DU a lleiafrif yr amrediad etholwyr statudol;
- crynodeb byr o'r prif ddadleuon a wnaed yn ystod yr ymgynghoriadau cyhoeddus, naill ai o blaid neu yn erbyn y cynigion cychwynnol. Er nad yw'r holl gynrychiolaethau yn cael eu crybwyll yn benodol yn yr adroddiad hwn, mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed wrth benderfynu ar ei argymhellion;
- crynodeb byr o ymatebion y Comisiwn i'r prif gynrychiolaethau; a
- map o'r etholaeth argymelledig at ddibenion eglurhaol yn unig.

Esboniad o'r mapiau manwl a'r allwedd

5.2 Mae'r pedair tudalen canlynol yn amlinellu darlun cyffredinol o'r trefniadau presennol, cynigion cychwynnol y Comisiwn, y cynigion diwygiedig ac argymhellion y Comisiwn. Mae'r rhain yn dangos yr etholaethau presennol yng Nghymru yn goch, y Cynigion Cychwynnol yn felyn, y Cynigion Diwygiedig yn las a'r Etholaethau Argymelledig yn wyrdd. Ar fapiau unigol yr etholaethau argymelledig, mae llinellau coch yn dangos etholaeth bresennol, llinellau melyn yn dangos yr etholaeth a gynigiwyd yn wreiddiol, a llinellau gwyrdd yn dangos yr etholaethau argymelledig. Mae mapiau'r etholaethau unigol yn cyfeirio at yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth. Mae'r Comisiwn wedi darparu enw amgen a argymhellir hefyd, ac mae'r enwau hyn i'w gweld y nisgrifiad yr etholaeth a argymhellir.



Ffin Etholaeth Cynigion Terfynol




Cynigion Diwygiedig Ffin Etholaeth



Cynigion Cychwynnol Ffin Etholaeth



Trefniadau Presennol Ffin Etholaeth




Upper
2,095

Adran Etholiadol Teitl Presennol


Ffin Rhanbarth Etholiadol Presennol

Etholaethau Bresennol




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

Cynigion Cychwynnol




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

Cynigion Diwygiedig



(H) Hawfiraft y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

Argymhelliadau



1. Ynys Môn a Bangor (Anglesey and Bangor)

Argymhelliad

1.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 1.1 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Aberconwy a Sir Conwy, sef Bryn (1,349), Capel Ulo (1,179), Pandy (1,433) a Phant-yr-Afon/Penmaenan (2,119);
- 1.1 b. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Arfon a Sir Gwynedd, sef Arllechwedd (971), Deiniol (496), Dewi (1,098), Garth (420), Gerlan (1,559), Glyder (1,139), Hendre (835), Hiracl (881), Marchog (1,446), Menai (Bangor) (839), Ogwen (1,556), Pentir (1,636), Tregarth a Mynydd Llandygai (1,531) ac Y Felinheli (1,624); a'r,
- 1.1 c. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Ynys Môn a Sir Ynys Môn, sef Aethwy (4,906), Bro Aberffraw (2,882), Bro Rhosyr (3,626), Caergybi (6,146), Canolbarth Môn (4,874), Llifôn (3,963), Lligwy (4,621), Seiriol (4,407), Talybolion (4,430), Twrcelyn (5,229) ac Ynys Gybi (4,203).

1.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,398 o etholwyr, sydd 4.5% yn is na chwota etholiadol y Deyrnas Unedig o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

1.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Ynys Môn a Bangor. Yr enw arall a argymhellir yw Anglesey and Bangor.

1.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

- 1.4 a. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Aberconwy gyfanswm o 44,153 o etholwyr, sydd 41% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 38% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 1.4 b. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Arfon gyfanswm o 37,739 o etholwyr, sydd 49.5% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 47% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 1.4 c. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Ynys Môn gyfanswm o 49,287 o etholwyr, sydd 34% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 31% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

1.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 1.5 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Arfon a Sir Gwynedd, sef of Arllechwedd (971), Bethel (1,020), Cadnant (1,438), Cwm-y-Glo (710), Deiniol (496), Deiniolen (1,263), Dewi (1,098), Garth (420), Gerlan (1,559), Glyder (1,139), Hendre

(835), Hiracl (881), Llanrug (1,289), Marchog (1,446), Menai (Bangor) (839), Menai (Caernarfon) (1,671), Ogwen (1,556), Peblig (Caernarfon) (1,344), Penisarwaun (1,293), Pentir (1,636), Seiont (2,079), Tregarth a Mynydd Llandygai (1,531) ac Y Felinheli (1,624); ac,

1.5 b. etholaeth sirol bresennol Ynys Môn yn ei chyfanrwydd.

- 1.6 Byddai'r etholaeth arfaethedig hon yn cynnwys 77,425 o etholwyr, sydd 3.6% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Ynys Môn ac Arfon. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Isle of Anglesey and Arfon.
- 1.7 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn awgrymu y dylid ymdrin ag Ynys Môn fel 'achos arbennig', ac felly y dylai gael ei heithrio o'r maen prawf deddfwriaethol sy'n ei gwneud yn orfodol i'r nifer etholwyr mewn etholaeth ddisgyn o fewn yr amrediad etholwyr statudol, fel sy'n wir yn achos Ynys Wyth yn Lloegr a'r ddwy etholaeth Orkney a Shetland, a Na h-Eileanan â'n lar yn yr Alban. Ni all y Comisiwn wroddi wrth Rheol 2 yn Atodlen 2 i'r Ddeddf. Felly, nid yw'n bosibl creu 'achos arbennig' neu 'eithriad' ar gyfer Ynys Môn trwy gadw etholaeth bresennol Ynys Môn.
- 1.8 Roedd nifer o gynrychiolaethau'n dynodi bod etholwyr yn Ynys Môn yn edrych tua Bangor yn gyntaf, ac yna i'r dwyrain ar gyfer eu cysylltiadau cymdeithasol a diwylliannol, yn hytrach na thua Caernarfon. Roedd y cynrychiolaethau'n dynodi bod gan nifer o wardiau yn etholaeth bresennol Arfon, gan gynnwys Caernarfon a'r ardal gyfagos, gysylltiadau agosach â gweddill Gwynedd ac y dylid eu cynnwys mewn etholaeth sy'n cynnwys wardiau yng Ngwynedd yn hytrach nag, yn unol â'r cynigion gwreiddiol, eu cynnwys mewn etholaeth ag Ynys Môn. Y wardiau hyn oedd Bethel, Cadnant, Cwm-y-Glo, Deiniolen, Llanrug, Menai (Caernarfon), Peblig (Caernarfon), Penisarwaun a Seiont. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad *"Rydym o'r farn felly na ddylai'r wardiau a enwir uchod, ynghyd â wardiau Caernarfon, gan gynnwys Cwm-y-Glo a Chadnant, gael eu cynnwys mewn etholaeth gydag Ynys Môn, ond y dylid eu hychwanegu at etholaeth Gogledd Clwyd a Gwynedd"* ac, felly, *"I fodloni'r amrediad etholwyr statudol ac oherwydd cysylltiadau lleol, byddai'n briodol ychwanegu'r wardiau i'r dwyrain o Fangor... y cynigiwyd iddynt ffurfio rhan o Golwyn a Chonwy yn wreiddiol"* at yr etholaeth arfaethedig hon.
- 1.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, derbyniodd y Comisiwn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol a chynnig cynnwys wardiau etholiadol Bethel, Cadnant, Cwm-y-Glo, Deiniolen, Llanrug, Menai (Caernarfon), Peblig (Caernarfon), Penisarwaun a Seiont i'r gorllewin o Fangor yn etholaeth arfaethedig Gwynedd yn hytrach na'r etholaeth arfaethedig hon. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau bod gan y wardiau etholiadol hyn gysylltiadau lleol â Gwynedd, ac felly y byddai'n well eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Gwynedd er mwyn osgoi torri'r cysylltiadau hynny. Er mwyn i'r etholaeth arfaethedig hon fodloni'r amrediad etholwyr statudol, byddai angen cynnwys wardiau ychwanegol. Derbyniodd y Comisiwn argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol mai'r wardiau etholiadol mwyaf priodol i'w cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon oedd Bryn, Capel Ulo, Pandy, a Phant-yr-afon/Penmaenan. Ystyriwyd ei bod yn amhriodol cynnwys ward etholiadol Conwy yn yr etholaeth ddiwygiedig hon. Ystyriodd y Comisiwn

ward Y Felinheli, ac mae awgrymiadau ymhlith y cynrychiolaethau bod gan y ward honno gysylltiadau lleol â Chaernarfon a Bangor. Daeth y Comisiwn i'r casgliad, er bod gan y ward honno gysylltiadau â Chaernarfon yn ogystal â Bangor, dyllid ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon. Byddai hynny'n sicrhau y byddai'r etholaeth arfaethedig hon yn disgyn o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Ym marn y Comisiwn, mae'r newidiadau hyn yn caniatáu creu etholaethau ar draws canolbarth a gogledd Cymru sydd, at ei gilydd, yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well.

1.10 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:

1.10 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Aberconwy CC a Sir Conwy, sef Bryn (1,349), Capel Ulo (1,179), Pandy (1,433), a Phant-yr-Afon/Penmaenan (2,119);

1.10 b. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Arfon CC a Sir Gwynedd, sef Arllechwedd (971), Deiniol (496), Dewi (1,098), Garth (420), Gerlan (1,559), Glyder (1,139), Hendre (835), Hirael (881), Marchog (1,446), Menai (Bangor) (839), Ogwen (1,556), Pentir (1,636), Tregarth a Mynydd Llandygai (1,531) ac Y Felinheli (1,624); ac,

1.10 c. etholaeth sirol bresennol Ynys Môn yn ei chyfanrwydd.

1.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,398 o etholwyr, sydd 4.5% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

1.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn ymwneud â chyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig hon. Rhoddodd y cynrychiolaethau farnau gwahanol ar yr etholaeth arfaethedig, ac roedd corff bychan o gynrychiolaethau yn awgrymu y dylai'r Comisiwn ystyried cynnwys wardiau etholiadol Bryn, Capel Ulo, Pandy, a Phant-yr-afon/Penmaenan mewn etholaeth arfaethedig yn cynnwys wardiau yng Nghonwy, yn hytrach nag Ynys Môn. Hefyd, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn ailadrodd y pwynt y dylai Ynys Môn fod yn etholaeth warchodedig ac aros yn etholaeth ar wahân. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau o blaid y cynnig diwygiedig hefyd, gan gynnwys gan yr Aelod Cynulliad ar gyfer Aberconwy.


1.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau. Ni all y Comisiwn gadw etholaeth bresennol Ynys Môn yn un etholaeth oherwydd y gofyniad yn Rheol 2 Atodlen 2 i'r Ddeddf; mae gan yr etholaeth bresennol 49,287 o etholwyr, felly mae'n rhy fach i'w chadw'n un etholaeth oherwydd y mae'n disgyn islaw'r amrediad etholwyr statudol. Ystyriodd y Comisiwn wardiau etholiadol Bryn, Capel Ulo, Pandy, a Phant-yr-afon/Penmaenan eto, a daeth i'r casgliad bod y wardiau hyn wedi'u cynnwys yn briodol yn yr etholaeth arfaethedig hon am y rhesymau a amlinellir ym mharagraff 1.9 yn adran 5 uchod. Mae'r Comisiwn yn fodlon bod etholaeth argymelledig Ynys Môn a Bangor, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal, yn bodloni'r meini prawf statudol orau yn gyffredinol.

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Enw

- 1.14 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Ynys Môn a Bangor. Yr enw arall a argymhellir yw Anglesey and Bangor.
- 1.15 Yn wreiddiol, cynigiodd y Comisiwn yr enw Ynys Môn ac Arfon. O ganlyniad i dynnu tref Caernarfon a wardiau eraill sy'n ffurfio rhan o etholaeth bresennol Arfon, a chynnwys y wardiau etholiadol i'r dwyrain i'r dwyrain o Fangor (Bryn, Capel Ulo, Pandy, a Phant-yr-afon/Penmaenan) yn yr etholaeth arfaethedig, roedd y Comisiwn o'r farn nad oedd yr enw Ynys Môn ac Arfon yn briodol mwyach, ac y dylai enw'r etholaeth arfaethedig gyfeirio ar Ynys Môn a Bangor, fel ei gilydd.
- 1.16 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol newid yr enw i 'Ynys Môn Bangor' gan hepgor y cysylltair. Nid oedd y Comisiwn yn cytuno â'r argymhelliad hwn. Mae paragraff 2.15 yn adran 2 yn amlinellu barn y Comisiwn ynghylch confensiynau enwi a chysyllteiriau.
- 1.17 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn ymwneud â'r enw Cymraeg ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon. Roedd y cynrychiolaethau'n datgan nad oedd yr enw Cymraeg cywir ar yr etholaeth angen treiglo Bangor i Fangor. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth hefyd yn awgrymu nad oedd angen defnyddio Anglesey yn ffurf Saesneg yr enw gan fod yr etholaeth bresennol yn defnyddio'r ffurf Gymraeg, sef Ynys Môn.
- 1.18 Mae'r Comisiwn o'r farn mai'r enw Ynys Môn a Bangor sy'n adlewyrchu orau yr ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli, ac y byddai etholwyr yn fwy tebygol o fod â mwy o gysylltiad ag ef. Mae'r Comisiwn o'r farn bod Anglesey and Bangor yn enw arall priodol.

Ynys Môn a Bangor (Anglesey and Bangor)



(H) Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

2. Gwynedd

Argymhelliad

2.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 2.1 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Aberconwy a Sir Conwy, sef Bettws-y-Coed (932), Caerhun (1,609), Crwst (1,583), Eglwysbach (1,195), Gower (887), Trefriw (1,022) ac Uwch Conwy (1,230);
- 2.1 b. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Arfon a Sir Gwynedd, sef Bethel (1,020), Bontnewydd (824), Cadnant (1,438), Cwm-y-Glo (710), Deiniolen (1,263), Y Groeslon (1,246), Llanberis (1,445), Llanllyfni (892), Llanrug (1,289), Llanwnda (1,428), Menai (Caernarfon) (1,671), Peblig (Caernarfon) (1,344), Penisarwaun (1,293), Penygroes (1,289), Seiont (2,079), Talysarn (1,276) a Waunfawr (1,201);
- 2.1 c. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Clwyd West a Sir Conwy, sef Llangernyw (1,147), Llansannan (1,470) ac Uwchaled (1,124); a'r
- 2.1 d. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Dwyfor Meirionnydd a Sir Gwynedd, sef Aberdaron (712), Aberdyfi (851), Abererch (971), Abermaw (1,468), Abersoch (510), Y Bala (1,290), Botwnnog (698), Bowydd a Rhiw (1,211), Brithdir a Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd (1,080), Bryn-crug/Llanfihangel (732), Clynog (698), Corris/Mawddwy (917), Criccieth (1,263), Diffwys a Maenofferen (744), Dolbenmaen (888), Gogledd Dolgellau (862), De Dolgellau (992) Dyffryn Ardudwy (1,128), Efail-newydd/Buan (988), Harlech (1,419), Llanaelhaearn (1,121), Llanbedr (783), Llanbedrog (733), Llandderfel (1,090), Llanengan (802), Llangelynin (1,505), Llanuwchllyn (673), Llanystumdwy (1,452), Morfa Nefyn (880), Nefyn (952), Penrhyndeudraeth (1,718), Dwyrain Porthmadog (1,076), Gorllewin Porthmadog (1,193), Porthmadog-Tremadog (918), Gogledd Pwllheli (1,407), De Pwllheli (1,218), Teigl (1,321), Trawsfynydd (1,070), Tudweiliog (661) a Thywyn (2,358).

2.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,260 o etholwyr, sydd 2% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

2.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Gwynedd.

2.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

- 2.4 a. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Aberconwy gyfanswm o 44,153 o etholwyr, sydd 41% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 38% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 2.4 b. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Arfon gyfanswm o 37,739 o etholwyr, sydd 49.5% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 47% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

- 2.4 c. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Clwyd West gyfanswm o 56,862 o etholwyr, sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 20% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 2.4 d. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Dwyfor Meirionnydd gyfanswm o 42,353 o etholwyr, sydd 43% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 40% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 2.4 e. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Vale of Clwyd gyfanswm o 55,839 o etholwyr, sydd 25% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 21% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

2.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 2.5 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Aberconwy a Sir Conwy, sef Bettws-y-Coed (932), Caerhun (1,609), Crwst (1,583), Eglwysbach (1,195), Gower (887), Trefriw (1,022) ac Uwch Conwy (1,230);
- 2.5 b. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Arfon a Sir Gwynedd, sef Bontnewydd (824), Y Groeslon (1,246), Llanberis (1,445), Llanllyfni (892), Llanwnda (1,428), Penygroes (1,289), Talysarn (1,276) a Waunfawr (1,201);
- 2.5 c. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Clwyd West a Sir Conwy, sef Betws yn Rhos (1,626), Llangernyw (1,147) a Llansannan (1,470);
- 2.5 d. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Dwyfor Meirionnydd a Sir Gwynedd, sef Aberdaron (712), Aberdyfi (851), Abererch (971), Abermaw (1,468), Abersoch (510), Botwnnog (698), Bowydd a Rhiw (1,211), Brithdir a Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd (1,080), Bryn-crug/Llanfihangel (732), Clynnog (698), Corris/Mawddwy (917), Criccieth (1,263), Diffwys and Maenofferen (744), Dolbenmaen (888), Gogledd Dolgellau (862), De Dolgellau (992), Dyffryn Ardudwy (1,128) Efail-newydd/Buan (988), Harlech (1,419), Llanaelhaearn (1,121), Llanbedr (783), Llanbedrog (733), Llanengan (802), Llangelynin (1,505), Llanystumdwy (1,452), Morfa Nefyn (880), Nefyn (952), Penrhyndeudraeth (1,718), Dwyrain Porthmadog (1,076), Gorllewin Porthmadog (1,193), Porthmadog-Tremadog (918), Gogledd Pwllheli (1,407), De Pwllheli (1,218), Teigl (1,321), Trawsfynydd (1,070), Tudweiliog (661) a Thywyn (2,358); a'r
- 2.5 e. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Vale of Clwyd a Sir Ddinbych, sef Bodelwyddan (1,583), Canol Dinbych (1,567), Dinbych Isaf (3,575), Dinbych Uchaf/Henllan (2,371), Dwyrain Llanellwy (1,375), Gorllewin Llanellwy (1,265), Trefnant (1,496) a Thremeirchion (1,313).

COMISIWN FFINIAU I GYMRU


- 2.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,147 o etholwyr, sydd 1.8% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Gogledd Clwyd a Gwynedd. Yr enw arall a awgrymwyd oedd North Clwyd and Gwynedd.
- 2.7 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn awgrymu bod gan dref Caernarfon a'r wardiau etholiadol cyfagos gysylltiadau ag ardal Gwynedd yn hytrach nag Ynys Môn. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd yn mynegi y byddai'n fwy priodol cynnwys y wardiau sydd yn ardal llywodraeth leol Sir Ddinbych mewn etholaeth wahanol, a bod gan wardiau etholiadol Y Bala, Llandderfel a Llanuwchllyn (a oedd wedi'u cynnwys mewn etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn yn y cynigion cychwynnol) gysylltiadau cryf â Gwynedd, a bod y wardiau hyn yn ystyried eu hunain yn rhan o Wynedd. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnwys ward Uwchaled mewn etholaeth Gwynedd oherwydd bod ganddi gysylltiadau, yn enwedig cysylltiadau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg, ag ardaloedd yng Ngwynedd.
- 2.8 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad, *"cafwyd llawer o gynrychiolaethau sydd wedi tynnu sylw at y ffaith nad oes gan y wardiau yn Vale of Clwyd, gan gynnwys Dinbych a Llanelwy, unrhyw gysylltiadau cymdeithasol, diwylliannol nac economaidd ag ardal ehangach Gwynedd sy'n cynnwys Pen-llŷn ac Aberdyfi."* Gwnaethant grybwyll hefyd, *"Cafwyd cefnogaeth gref iawn dros gynnwys Uwchaled, Llandderfel, Y Bala a Llanuwchllyn mewn etholaeth Gwynedd yn hytrach nag etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn, oherwydd bod cysylltiadau Cymraeg, cymdeithasol ac economaidd cryf rhwng yr ardal honno a Gwynedd."*
- 2.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, derbyniodd y Comisiwn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol a chynnig cynnwys y wardiau etholiadol i'r gorllewin o Fangor, sef Bethel, Cadnant, Cwm-y-Glo, Deiniolen, Llanrug, Menai (Caernarfon), Peblig (Caernarfon), Penisarwaun a Seiont mewn etholaeth wedi'i seilio'n bennaf ar wardiau etholiadol yn ardal Gwynedd. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau o blaid cynnwys y wardiau etholiadol hyn yn yr etholaeth argymelledig hon, oherwydd bod ganddynt gysylltiadau lleol â Gwynedd a fyddai'n cael eu torri pe byddant mewn etholaeth wahanol. Derbyniodd y Comisiwn argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol i gynnwys wardiau etholiadol Y Bala, Llandderfel, Llanuwchllyn ac Uwchaled yn yr etholaeth arfaethedig hon hefyd, oherwydd y byddai hyn yn osgoi torri'r cysylltiadau rhwng y wardiau hyn a rhannau o Wynedd.
- 2.10 Derbyniodd y Comisiwn argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol na ddylid cynnwys wardiau etholiadol o Sir Ddinbych mewn etholaeth yn cynnwys wardiau yng Ngwynedd yn bennaf hefyd, oherwydd nad oes ganddynt gysylltiadau cymunedol lleol ag ardal ehangach Gwynedd.
- 2.11 Fodd bynnag, ni dderbyniodd y Comisiwn argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol na ddylai'r etholaeth arfaethedig ddiwygiedig ymestyn ymhellach i'r dwyrain na ward etholiadol Llangernyw. Byddai'r argymhelliad hwnnw'n golygu cynnwys un ward etholiadol o ardal awdurdod lleol Conwy, sef Llansannan, mewn etholaeth arfaethedig arall.

- 2.12 Felly, cynhwysodd y Comisiwn ward Llansannan yn yr etholaeth arfaethedig ddiwygiedig, a galluogodd hyn i'r Comisiwn gynnwys wardiau o un ardal prif gyngor yn llai yn etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Maldwyn, sy'n cael ei drafod ymhellach ym mharagraff 7.10 yn adran 5.
- 2.13 Ystyriodd y Comisiwn nifer o ddewisiadau eraill ar gyfer yr ardal hon. Fodd bynnag, roedd y Comisiwn o'r farn y byddai etholaeth arfaethedig, wedi'i diwygio fel y nodwyd, yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well nag unrhyw un o'r dewisiadau eraill a awgrymwyd, yn gyffredinol.
- 2.14 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 2.14 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Aberconwy a Sir Conwy, sef Bettws-y-Coed (932), Caerhun (1,609), Crwst (1,583), Eglwysbach (1,195), Gower (887), Trefriw (1,022) ac Uwch Conwy (1,230);
- 2.14 b. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Arfon a Sir Gwynedd, sef Bethel (1,020), Bontnewydd (824), Cadnant (1,438), Cwm-y-Glo (710), Deiniolen (1,263), Y Groeslon (1,246), Llanberis (1,445), Llanllyfni (892), Llanrug (1,289), Llanwnda (1,428), Menai (Caernarfon) (1,671), Peblig (Caernarfon) (1,344), Penisarwaun (1,293), Penygroes (1,289), Seiont (2,079), Talysarn (1,276) a Waunfawr (1,201);
- 2.14 c. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Clwyd West a Sir Conwy, sef Llangernyw (1,147), Llansannan (1,470) ac Uwchaled (1,124); ac
- 2.14 d. etholaeth sirol bresennol Dwyfor Meirionnydd yn ei chyfanrwydd.
- 2.15 Byddai'r etholaeth arfaethedig hon yn cynnwys 76,260 o etholwyr, sydd 2% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.
- 2.16 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn ymwneud â chyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig hon. Dywed un o'r cynrychiolaethau, er nad yw o blaid lleihau'r gynrychiolaeth ledled Cymru, bod etholaeth ddiwygiedig Gwynedd, sydd bellach yn cynnwys wardiau etholiadol Y Bala, Llandderfel, Llanuwchllyn ac Uwchaled, yn darparu etholaeth lawer mwy cydlynol. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd o blaid tynnu wardiau etholiadol Sir Ddinbych, sef Bodelwyddan, Canol Dinbych, Dinbych Isaf, Dinbych Uchaf/Henllan, Dwyrain Llanelwy, Gorllewin Llanelwy, Trefnant a Thremeirchion o'r etholaeth hon hefyd, fel y cynigir yn yr etholaeth ddiwygiedig.
- 2.17 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau. Mae'r Comisiwn o'r farn bod y cynnig diwygiedig yn mynd i'r afael â'r prif feysydd yr oedd dadl yn eu cylch yn deillio o'r cynigion cychwynnol. Mae'r Comisiwn yn fodlon mai etholaeth argymelledig Gwynedd, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal hon, sy'n bodloni'r meini prawf statudol orau, yn gyffredinol.

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Enw

- 2.18 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Gwynedd. Mae Gwynedd yn adnabyddadwy yn y ddwy iaith, felly ni chaiff unrhyw enw arall ei argymhell.
- 2.19 Cynigiodd y Comisiwn yr enw Gogledd Clwyd a Gwynedd yn wreiddiol. Gan nad yw wardiau Sir Ddinbych i'r gogledd ddwyrain wedi'u cynnwys yn yr etholaeth argymelledig, ac o ystyried cynhwysiad o wardiau o amgylch Y Bala i'r de-ddwyrain, roedd y Comisiwn o'r farn nad oedd yr enw Gogledd Clwyd a Gwynedd yn briodol mwyach.
- 2.20 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Gwynedd.



3. Conwy and Colwyn (Conwy a Cholwyn)

Argymhelliad

3.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 3.1 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Aberconwy a Sir Conwy, sef Conwy (3,227), Craig-y-Don (2,801), Deganwy (3,235), Gogarth (2,829), Llansanffraid (1,807), Marl (3,500), Mostyn (2,751), Penrhyn (3,784), Pensarn (2,075) a Thudno (3,606);
- 3.1 b. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Clwyd West a Sir Conwy, sef Abergele Pensarn (1,905), Betws yn Rhos (1,626), Colwyn (3,288), Eirias (2,749), Gele (3,784), Glyn (2,935), Bae Cinmel (4,506), Llanddulas (1,323), Llandrillo-yn-Rhos (6,032), Llysfaen (1,862), Mochdre (1,458), Pentre Mawr (2,747), Rhiw (4,909) a Thywyn (1,842); a'r
- 3.1 c. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Vale of Clwyd a Sir Ddinbych, sef Bodelwyddan (1,583), Dwyrain Llanellwy (1,375), Gorllewin Llanellwy (1,265), Trefnant (1,496) a Thremeirchion (1,313).

3.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 77,613 o etholwyr, sydd 3.8% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

3.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Conwy and Colwyn. Yr enw arall a argymhellir yw Conwy a Cholwyn.

3.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

- 3.4 a. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Aberconwy gyfanswm o 44,153 o etholwyr, sydd 41% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 38% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 3.4 b. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Clwyd West gyfanswm o 56,862 o etholwyr, sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth ac 20% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 3.4 c. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Vale of Clwyd gyfanswm o 55,839 o etholwyr, sydd 25% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 21% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

3.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 3.5 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Aberconwy a Sir Conwy, sef Bryn (1,349), Capel Ulo (1,179), Conwy (3,227), Craig-y-Don (2,801), Deganwy (3,235), Gogarth (2,829), Llansanffraid (1,807), Marl (3,500), Mostyn (2,751), Pand

(1,433), Pant-yr-Afon/Penmaenan (2,119), Penrhyn (3,784), Pensarn (2,075) a Thudno (3,606); a'r

- 3.5 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Clwyd West a Sir Conwy, sef Abergele Pensarn (1,905), Colwyn (3,288), Eirias (2,749), Gele (3,784), Glyn (2,935), Bae Cinmel (4,506), Llanddulas (1,323), Llandrillo yn Rhos (6,032), Llysfaen (1,862), Mochdre (1,458), Pentre Mawr (2,747), Rhiw (4,909) a Thywyn (1,842).
- 3.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 75,035 o etholwyr, sydd 0.4% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Colwyn and Conwy. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Colwyn a Conwy.
- 3.7 Cafodd y Comisiwn dystiolaeth gan y cyn Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Vale of Clwyd, a oedd yn darparu ffurfweddiad arall ar gyfer etholaethau yng ngogledd ddwyrain Cymru. Cefnogwyd y gynrychiolaeth hon a byddai'n galluogi cadw etholaeth bresennol Vale of Clwyd. Fodd bynnag, ni chafwyd llawer o gefnogaeth i'r etholaethau arfaethedig yn Sir y Fflint, Wrecsam, Gwynedd, Conwy a Phowys y byddai angen eu creu o ganlyniad i dderbyn y trefniant amgen hwn.
- 3.8 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad na ddylai wardiau etholiadol Bryn, Pandy, Pant-yr-Afon/Penmaenan a Chapel Ulo gael eu cynnwys yn yr etholaeth hon, fel y trafodwyd gynt ym mharagraff 1.9 yn adran 5. Hefyd, daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad na ddylai etholaeth Gwynedd ymestyn ymhellach i'r dwyrain na ward etholiadol Llangernyw. Daethant i'r casgliad mai'r wardiau mwyaf priodol i'w cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon oedd ward etholiadol Betws yn Rhos a wardiau etholiadol Bodelwyddan, Dwyrain Llanellwy, Gorllewin Llanellwy, Trefnant a Thremeirchion yn ardal prif gyngor Sir Ddinbych. *"Er mwyn cydnabod y cysylltiadau agos rhwng ardal wledig Betws-yn-rhos a'r arfordir a thref Bae Colwyn, rydym yn argymhell y dylai'r ward hon gael ei chynnwys yn yr etholaeth newydd. Yn yr un modd, rydym wedi argymhell na ddylid cynnwys wardiau Bodelwyddan, dwyrain a gorllewin Llanellwy, Tremeirchion a Threfnant yn etholaeth arfaethedig Gwynedd, nad oes ganddynt unrhyw gysylltiadau lleol â nhw, ond mae ganddynt gysylltiadau cryf ag ardal arfordirol yr etholaeth arfaethedig hon, felly rydym yn argymhell y dylid eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Colwyn a Chonwy."* Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd o blaid cynnwys y wardiau etholiadol hyn yn yr etholaeth arfaethedig gan fod ganddynt gysylltiadau lleol ag arfordir gogledd Cymru ar hyn o bryd. Cafwyd cynrychiolaethau a oedd hefyd yn cefnogi'r cysylltiadau rhwng Betws yn Rhos a Bae Colwyn.
- 3.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, derbyniodd y Comisiwn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol a chynnig cynnwys ward etholiadol Betws yn Rhos, ynghyd â wardiau etholiadol Dwyrain Llanellwy a Gorllewin Llanellwy, a wardiau cyfagos Bodelwyddan, Tremeirchion a Threfniant, yn yr etholaeth arfaethedig hon.
- 3.10 Er bod cefnogaeth i'r gynrychiolaeth a gyflwynwyd gan gyn Aelod Seneddol Vale of Clwyd, a fyddai'n cadw etholaeth bresennol Vale of Clwyd, mae'r Comisiwn o'r farn y byddai cadw etholaeth bresennol Vale of Clwyd yn cael effaith niweidiol ar yr etholaethau arfaethedig eraill yng ngogledd a chanolbarth Cymru. Roedd y cynigion a gyflwynwyd gan y

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Comisiynwyr Cynorthwyol yn adlewyrchu'r gofynion statudol yn well, ar y cyfan, a byddai'r cynnig hwn yn caniatáu i etholaethau presennol eraill yng ngogledd ddwyrain Cymru gael eu cadw o fewn etholaethau arfaethedig.

3.11 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:

3.11 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Aberconwy a Sir Conwy, sef Conwy (3,227), Craig-y-Don (2,801), Deganwy (3,235), Gogarth (2,829), Llansanffraid (1,807), Marl (3,500), Mostyn (2,751), Penrhyn (3,784), Pensarn (2,075) a Thudno (3,606);

3.11 b. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Clwyd West a Sir Conwy, sef Abergele Pensarn (1,905), Betws yn Rhos (1,626), Colwyn (3,288), Eirias (2,749), Gele (3,784), Glyn (2,935), Bae Cinmel (4,506), Llanddulas (1,323), Llandrillo yn Rhos (6,032), Llysfaen (1,862), Mochdre (1,458), Pentre Mawr (2,747), Rhiw (4,909) a Thywyn (1,842); a'r

3.11 c. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Vale of Clwyd a Sir Ddinbych, sef Bodelwyddan (1,583), Dwyrain Llanelwy (1,375), Gorrlewin Llanelwy (1,265), Trefnant (1,496) a Thremeirchion (1,313).

3.12 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 77,613 o etholwyr, sydd 3.8% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

3.13 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn ymwneud â chyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig hon. Roedd y cynrychiolaethau o blaid y cynnig diwygiedig. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn cynnig y dylai wardiau etholiadol Bodelwyddan, Canol Dinbych, Dinbych Isaf, Dinbych Uchaf/Henllan, Dwyrain Llanelwy, Gorrlewin Llanelwy, Trefnant, a Thremeirchion gael eu cynnwys mewn etholaeth newydd Dyffryn Clwyd, fel yr awgrymwyd gan gyn Aelod Seneddol etholaeth bresennol Vale of Clwyd. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth hefyd a oedd yn rhoi safbwyntiau gwahanol ar gyfansoddiad yr etholaeth arfaethedig, a chafwyd nifer fach o gynrychiolaethau yn awgrymu y dylai'r Comisiwn ystyried cynnwys wardiau Bryn, Capel Ulo, Pandy, a Phant-yr-afon/Penmaenan mewn etholaeth yng Nghonwy, yn hytrach nag Ynys Môn.

3.14 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau. Ystyriodd y Comisiwn gynnig cyn Aelod Seneddol etholaeth bresennol Vale of Clwyd unwaith eto, ond mae'n fodlon nad yw'r trefniant a gynigir yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well, yn gyffredinol. Ystyriodd y Comisiwn ardaloedd Bryn, Capel Ulo, Pandy, a Phant-yr-afon/Penmaenan unwaith eto, a daeth i'r casgliad ei bod yn briodol eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon am y rhesymau a amlinellir ym mharagraff 1.9 yn adran 5. Mae'r Comisiwn yn fodlon mai etholaeth argymelledig Conwy a Cholwyn, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal hon, sy'n bodloni'r meini prawf statudol orau, yn gyffredinol.

Enw

- 3.15 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Conwy and Colwyn. Yr enw arall a argymhellir yw Conwy a Cholwyn.
- 3.16 Cynigiodd y Comisiwn yr enw Colwyn and Conwy (Colwyn a Chonwy), yn wreiddiol, gan restru'r rhannau cydrannol yn nhrefn yr wyddor. Mae'r newid i'r enw argymelledig yn adlewyrchu confensiwn yn yr iaith Gymraeg lle mae lleoedd yn dueddol o gael eu henwi o'r gorllewin i'r dwyrain, y tynnwyd sylw'r Comisiwn ato yn adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol.

1. Conwy (3,227)
 2. Deganwy (3,235)
 3. Tudno (3,606)
 4. Penrhyn (3,784)
 5. Marl (3,500)
 6. Pensarn (2,075)
 7. Mochdre (1,458)
 8. Llysfaen (1,862)
 9. Pentre Mawr (2,747)
 10. Tywyn (1,842)
 11. Gele (3,784)
 12. Goglewin Llanellwy (1,265)
 13. Dwyrain Llanellwy (1,375)

Note: Boundary between Wrexham and Flintshire adopted and Flintshire adopted the Ordinance Survey map.

Scale: 0 10
 Kilometers
 Graddfa: 1:168,300

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

4. Rhuddlan and Flint (Rhuddlan ac Y Fflint)

Argymhelliad

4.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 4.1 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Delyn a Sir y Fflint, sef Dwyrain Bagillt (1,420), Gorllewin Bagillt (1,559), Brynffordd (1,702), Caerwys (1,979), Cilcain (1,495), Ffynnongroyw (1,409), Castell Y Fflint (1,324), Coleshill Y Fflint (2,914), Oakenholt Y Fflint (2,026), Trelawny Y Fflint (2,645), Maesglas (1,965), Gronant (1,182), Helygain (1,395), Canol Treffynnon (1,389), Dwyrain Treffynnon (1,361), Gorllewin Treffynnon (1,766), Mostyn (1,413), Llaneurgain (2,439), Northop Hall (1,248), Trelawnyd a Gwaenysgor (1,451) a Chwitffordd (1,824); a'r
- 4.1 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Vale of Clwyd a Sir Ddinbych, sef Diserth (1,905), Canol Prestatyn (2,814), Dwyrain Prestatyn (3,219), Prestatyn Allt Melyd (1,572), Gogledd Prestatyn (4,691), De Orllewin Prestatyn (2,848), Rhuddlan (2,851), Dwyrain Y Rhyl (3,684), De Y Rhyl (2,948), De Dwyrain Y Rhyl (6,007), De Orllewin Y Rhyl (3,736) a Gorllewin Y Rhyl (3,367).

4.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 75,548 o etholwyr, sydd 1% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

4.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Rhuddlan and Flint. Yr enw arall a argymhellir yw Rhuddlan ac Y Fflint.

4.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

- 4.4 a. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Delyn gyfanswm o 52,388 o etholwyr, sydd 30% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 26% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 4.4 b. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Vale of Clwyd gyfanswm o 55,839 o etholwyr, sydd 25% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 21% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

4.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 4.5 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Delyn a Sir y Fflint, sef Dwyrain Bagillt (1,420), Gorllewin Bagillt (1,559), Brynffordd (1,702), Caerwys (1,979), Cilcain (1,495), Ffynnongroyw (1,409), Castell Y Fflint (1,324), Coleshill Y Fflint (2,914), Oakenholt Y Fflint (2,026), Trelawny Y Fflint (2,645), Maesglas (1,965), Gronant (1,182), Gwernaffield (1,602), Helygain (1,395), Canol Treffynnon (1,389),

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Dwyrain Treffynnon (1,361), Gorllewin Treffynnon (1,766), Mostyn (1,413), Llaneurgain (2,439), Trelawnyd a Gwaenysgor (1,451) a Chwitffordd (1,824); a'r

- 4.5 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Vale of Clwyd a Sir Ddinbych, sef Diserth (1,905), Canol Prestatyn (2,814), Dwyrain Prestatyn (3,219), Prestatyn Allt Melyd (1,572), Gogledd Prestatyn (4,691), De Orllewin Prestatyn (2,848), Rhuddlan (2,851), Dwyrain Y Rhyl (3,684), De Y Rhyl (2,948), De Dwyrain Y Rhyl (6,007), De Orllewin Y Rhyl (3,736) a Gorllewin Y Rhyl (3,367).
- 4.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 75,902 o etholwyr, sydd 1.5% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Flint and Rhuddlan. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Fflint a Rhuddlan.
- 4.7 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth yn y gwrandawriad cyhoeddus yn Wrecsam, gan yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Delyn, y dylai ward etholiadol Gwernaffield gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy oherwydd ei chysylltiadau lleol â thref Yr Wyddgrug, ac y dylai Northop Hall gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon oherwydd ei chysylltiadau lleol â ward etholiadol Llaneurgain. Cefnogwyd hyn gan gynrychiolaethau eraill a dderbyniwyd gan y Comisiwn. Derbyniodd y Comisiwn gynllun amgen gan gyn Aelod Seneddol etholaeth bresennol Vale of Clwyd hefyd, fel y crybwyllwyd gynt ym mharagraff 3.10 yn adran 5.
- 4.8 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad bod gan ward etholiadol Northop Hall gysylltiadau â ward etholiadol Llaneurgain, ac y dylid ei chynnwys yn y ward arfaethedig hon, ac y dylai ward etholiadol Gwernaffield, sydd â chysylltiadau lleol â thref Yr Wyddgrug, gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy.
- 4.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, derbyniodd y Comisiwn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol a chynnig cynnwys ward etholiadol Northop Hall yn yr etholaeth arfaethedig hon, er mwyn osgoi torri ei chysylltiadau â Llaneurgain. Cynigiodd hefyd y dylid cynnwys ward etholiadol Gwernaffield yn etholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy er mwyn osgoi torri ei chysylltiadau â thref Yr Wyddgrug. Cafodd y Comisiwn gynnig amgen gan gyn Aelod Seneddol Vale of Clwyd hefyd, a chaiff hwnnw ei ystyried ym mharagraff 3.10 yn adran 5.
- 4.10 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 4.10 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Delyn a Sir y Fflint, sef Dwyrain Bagillt (1,420), Gorllewin Bagillt (1,559), Brynffordd (1,702), Caerwys (1,979), Cilcain (1,495), Ffynnongroyw (1,409), Castell Y Fflint (1,324), Coleshill Y Fflint (2,914), Oakenholt Y Fflint (2,026), Trelawny Y Fflint (2,645), Maesglas (1,965), Gronant (1,182), Helygain (1,395), Canol Treffynnon (1,389), Dwyrain Treffynnon (1,361), Gorllewin Treffynnon (1,766), Mostyn (1,413), Llaneurgain (2,439), Northop Hall (1,248), Trelawnyd a Gwaenysgor (1,451) a Chwitffordd (1,824); a'r
- 4.10 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Vale of Clwyd a Sir Ddinbych, sef Diserth (1,905), Canol Prestatyn (2,814), Dwyrain Prestatyn (3,219), Prestatyn

Allt Melyd (1,572), Gogledd Prestatyn (4,691), De Orllewin Prestatyn (2,848), Rhuddlan (2,851), Dwyrain Y Rhyl (3,684), De Y Rhyl (2,948), De Dwyrain Y Rhyl (6,007), De Orllewin Y Rhyl (3,736) a Gorllewin Y Rhyl (3,367).

- 4.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 75,548 o etholwyr, sydd 1% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.
- 4.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn ymwneud â chyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig hon. Roedd y cynrychiolaethau'n rhoi safbwyntiau gwahanol ar yr etholaeth arfaethedig. Roedd pryder ynghylch cyfuno wardiau, yr oedd rhai ohonynt yn arfordirol a rhai ohonynt o natur ddiwydiannol, yn yr un etholaeth. Cafwyd rhywfaint o gefnogaeth barhaus ar gyfer etholaeth a fyddai'n cadw etholaeth bresennol Vale of Clwyd hefyd, a fyddai'n cynnwys y wardiau etholiadol yng ngorllewin Sir y Fflint er mwyn sicrhau bod yr etholaeth arfaethedig o fewn yr amrediad etholwyr statudol.
- 4.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau. Daeth y Comisiwn i'r casgliad mai etholaeth argymelledig Rhuddlan ac Y Fflint, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal hon, sy'n bodloni'r meini prawf statudol orau, yn gyffredinol.

Enw

- 4.14 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Rhuddlan and Flint. Yr enw arall a argymhellir yw Rhuddlan ac Y Fflint.
- 4.15 Cynigiodd y Comisiwn yr enw Flint and Rhuddlan (Fflint a Rhuddlan) yn wreiddiol, gan restru rhannau cydrannol yr etholaeth arfaethedig yn nhrefn yr wyddor. Mae'r newid i Rhuddlan and Flint (Rhuddlan ac Y Fflint) yn adlewyrchu'r confensiwn yn yr iaith Gymraeg sy'n dueddol o enwi lleoedd o'r gorllewin i'r dwyrain. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn datgan mai'r ffurf gywir yn y Gymraeg fyddai Y Fflint, ac mae wedi newid yr enw i adlewyrchu hyn. Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn awgrymu enwau gwahanol i'r etholaeth arfaethedig hon (gan gynnwys amnewid yr enw Rhuddlan am enwau eraill). Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol cynnwys Rhuddlan yn yr enw argymelledig, gan fod rhan fawr o'r etholaeth argymelledig yn cynnwys ardal hen gyngor dosbarth Rhuddlan.
- 4.16 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Rhuddlan and Flint (Rhuddlan ac Y Fflint).

Map of Flintshire and Denbighshire Electoral Wards and Populations

Legend:

- 1. De Dwyrain Y Rhyl (6,007)
- 2. De Orllewin Prestatyn (2,848)
- 3. Canol Prestatyn (2,814)
- 4. Prestatyn Allt Melyd (1,572)
- 5. Gorllewin Treffynnon (1,766)
- 6. Canol Treffynnon (1,389)
- 7. Coleshill Y Fflint (2,914)
- 8. Trelawny Y Fflint (2,645)

Scale: 0 to 5 Kilometers / 0 to 5 Miles

Map Labels (Wards and Populations):

- Gogledd Prestatyn (4,991)
- Dwyrain Y Rhyl (3,684)
- Gorllewin Y Rhyl (3,367)
- De Orllewin Y Rhyl (3,736)
- De Y Rhyl (2,948)
- Rhuddlan (2,851)
- Diserth (1,905)
- Trelawnyd (1,451)
- Trelawnyd a Gwaenysgor (1,451)
- Gronant (1,182)
- Ffynongroyw (1,409)
- Dwyrain Prestatyn (3,219)
- Mostyn (1,413)
- Maesglas (1,965)
- Gorllewin Bagillt (1,559)
- Dwyrain Bagillt (1,420)
- Castell Y Fflint (1,324)
- Oakenholt Y Fflint (2,026)
- Llaneurgain (2,439)
- Northop Hall (1,248)
- Helygain (1,395)
- Brynmor (1,702)
- Brynmor (1,702)
- Caerwys (1,979)
- Nannerch (1,495)
- Cilcain (1,495)
- Gwernaffield (1,602)

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

5. Alyn and Deeside (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Argymhelliad

5.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 5.1 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Alyn and Deeside a Sir y Fflint, sef Aston (2,440), Gogledd Dwyrain Brychdyn (1,660), De Brychdyn (2,808), Dwyrain Bistre Bwcle (2,596), Gorllewin Bistre Bwcle (3,139), Mynydd Bwcle (2,436), Pentrobin Bwcle (3,956), Caergwrle (1,157), Ewlo (4,171), Canol Cei Conna (2,232), Cei Conna Golftyn (3,662), De Cei Conna (4,357), Cei Conna Gwepra (1,591), Penarlâg (1,549), Kinnerton Uchaf (1,283), Yr Hôb (2,008), Llanfynydd (1,391), Mancot (2,582) Pen-y-ffordd (3,283), Queensferry (1,236), Saltney Cyffordd Yr Wyddgrug (878), Saltney Stonebridge (2,583), Sealand (1,917), Dwyrain Shotton (1,267), Shotton Uchaf (1,678), Gorllewin Shotton (1,409) a Threuddyn (1,281); a'r
- 5.1 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Delyn CC a Sir y Fflint, sef Argoed (2,130), Gwernaffield (1,602), Gwernymynydd (1,371), Coed Llai (1,543), Broncoed Yr Wyddgrug (1,878), Dwyrain Yr Wyddgrug (1,491), De Yr Wyddgrug (2,155), Gorllewin Yr Wyddgrug (1,965) a New Brighton (2,347).

5.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 77,032 o etholwyr, sydd 3% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

5.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Alyn and Deeside. Yr enw arall a argymhellir yw Alun a Glannau Dyfrdwy.

5.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymhelledig yn effeithio arnynt:

- 5.4 a. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Alyn and Deeside gyfanswm o 60,550 o etholwyr, sydd 19% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 15% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 5.4 b. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Delyn gyfanswm o 52,388 o etholwyr, sydd 30% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 26% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

5.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 5.5 a. Etholaeth sirol bresennol Alyn and Deeside yn ei chyfanrwydd; a'r
- 5.5 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Delyn a Sir y Fflint, sef Argoed (2,130), Gwernymynydd (1,371), Coed Llai (1,543), Broncoed Yr Wyddgrug (1,878),

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Dwyrain Yr Wyddgrug (1,491), De Yr Wyddgrug (2,155), Gorllewin Yr Wyddgrug (1,965), New Brighton (2,347) a Northop Hall (1,248).

- 5.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,678 o etholwyr, sydd 2.6% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Alyn and Deeside. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Alyn a Glannau Dyfrdwy.
- 5.7 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth yn y gwrandawriad cyhoeddus yn Wrecsam, gan yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Delyn, y dylai ward etholiadol Gwernaffield gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy oherwydd ei chysylltiadau lleol â thref Yr Wyddgrug, ac y dylai ward etholiadol Northop Hall gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Rhuddlan ac Y Fflint oherwydd ei chysylltiadau lleol â ward etholiadol Llaneurgain. Cefnogwyd hyn gan gynrychiolaethau eraill a dderbyniwyd gan y Comisiwn ac yng nghyflwyniad y Blaid Lafur. Derbyniodd y Comisiwn gynllun amgen gan gyn Aelod Seneddol etholaeth bresennol Vale of Clwyd hefyd, sy'n cael ei drafod ym mharagraff 3.10 yn adran 5.
- 5.8 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad y dylai ward etholiadol Gwernaffield gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig oherwydd ei chysylltiadau lleol â'r Wyddgrug, ac y dylai ward etholiadol Northop Hall, sydd â chysylltiadau lleol â Llaneurgain, gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Rhuddlan ac Y Fflint, fel y crybwyllwyd ym mharagraff 4.8 yn adran 5.
- 5.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, derbyniodd y Comisiwn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol a chynnig cynnwys ward etholiadol Gwernaffield yn yr etholaeth arfaethedig, er mwyn osgoi torri ei chysylltiadau â thref Yr Wyddgrug, a hefyd cynnwys ward etholiadol Northop Hall yn etholaeth arfaethedig Rhuddlan ac Y Fflint er mwyn osgoi torri ei chysylltiadau â ward etholiadol Llaneurgain. Cafodd y Comisiwn gynnig amgen gan gyn Aelod Seneddol Vale of Clwyd hefyd, a chaiff hwnnw ei ystyried ym mharagraff 3.10 yn adran 5.
- 5.10 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 5.10 a. Etholaeth sirol bresennol Alyn and Deeside yn ei chyfanrwydd; a'r
- 5.10 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Delyn a Sir y Fflint, sef Argoed (2,130), Gwernaffield (1,602), Gwernymynydd (1,371), Coed Llai (1,543), Broncoed Yr Wyddgrug (1,878), Dwyrain Yr Wyddgrug (1,491), De Yr Wyddgrug (2,155), Gorllewin Yr Wyddgrug (1,965) a New Brighton (2,347).
- 5.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 77,032 o etholwyr, sydd 3% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.
- 5.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn ychydig o gynrychiolaethau yn ymwneud â chyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig hon. Crybwyllodd un gynrychiolaeth ei bod yn braf gweld trefi Bwcle a'r Wyddgrug yn yr un


etholaeth, o ystyried y cysylltiadau lleol rhwng y ddwy ohonynt, ac roedd yn cefnogi'r etholaeth arfaethedig hon yn llwyr. Roedd un gynrychiolaeth hefyd yn ailddatgan cefnogaeth i etholaeth Dyffryn Clwyd, fel y crybwyllwyd ym mharagraff 3.7 yn adran 5.

- 5.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau. Daeth y Comisiwn i'r casgliad mai etholaeth argymelledig Alun a Glannau Dyfrdwy, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal hon, sy'n bodloni'r meini prawf statudol orau, yn gyffredinol.

Enw

- 5.14 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymell ar gyfer yr etholaeth hon yw Alyn and Deeside. Yr enw arall a argymhellir yw Alun a Glannau Dyfrdwy.
- 5.15 Cynigiodd y Comisiwn yr enw Alyn and Deeside yn wreiddiol, ac Alyn a Glannau Dyfrdwy oedd yr enw amgen. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn datgan mai Alun yw'r ffurf gywir yn y Gymraeg, ac mae wedi newid yr enw argymelledig i adlewyrchu hyn.
- 5.16 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth yn awgrymu enw arall i'r etholaeth arfaethedig hon. Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Alyn and Deeside (Alun a Glannau Dyfrdwy).

Alyn and Deeside (Alun a Glannau Dyfrdwy)



6. Wrexham (Wreccsam)

Argymhelliad

6.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 6.1 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Clwyd South a Bwrdeistref Sirol Wreccsam, sef Bronington (2,540), Brymbo (2,982), Bryn Cefn (1,482), Coedpoeth (3,482), Esclusham (2,023), Gwenfro (1,214), Marchwiall (1,824), Mwynglawdd (1,843), Brychdyn Newydd (2,649), Owrtyn (2,601) a wardiau Aberoer a Phentrebychan yng nghymuned Esclusham (rhan o ward etholiadol Ponciau) (636); a'r
- 6.1 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Wrexham a Bwrdeistref Sirol Wreccsam, sef Acton (2,141), Parc Borrass (1,941), Brynyffynnon (2,190), Cartrefle (1,547), Erddig (1,437), Garden Village (1,614), Dwyrain a Gorllewin Gresford (2,202), Grosvenor (1,518), Dwyrain a De Gwersyllt (3,599), Gogledd Gwersyllt (1,967), Gorllewin Gwersyllt (2,141), Hermitage (1,549), Holt (2,411), Little Acton (1,812), Llai (3,519), Maesydre (1,402), Merffordd a Hoseley (1,818), Offa (1,383), Queensway (1,436), Rhosnesni (2,838), Yr Orsedd (2,544), Smithfield (1,364), Stansty (1,631), Whitegate (1,590) a Wynnstay (1,267).

6.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,137 o etholwyr, sydd 3.5% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

6.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Wrexham. Yr enw arall a argymhellir yw Wreccsam.

6.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymhelledig yn effeithio arnynt:

- 6.4 a. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Clwyd South gyfanswm o 53,094 o etholwyr, sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 25% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 6.4 b. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Wrexham gyfanswm o 48,861 o etholwyr, sydd 35% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 31% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

6.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 6.5 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Clwyd South a Bwrdeistref Sirol Wreccsam, sef Bronington (2,540), Brymbo (2,982), Bryn Cefn (1,482), Coedpoeth (3,482), Esclusham (2,023), Gwenfro (1,214), Marchwiall (1,824), Mwynglawdd (1,843), Brychdyn Newydd (2,649), Owrtyn (2,601) a wardiau Aberoer

a Phentrebychan yng nghymuned Esclusham (rhan o ward etholiadol Ponciau) (636); ac

6.5 b. etholaeth sirol bresennol Wrexham yn ei chyfanrwydd.

6.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,137 o etholwyr, sydd 3.5% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Wrexham Maelor. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Wrecsam Maelor.

6.7 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi'r cynnig cychwynnol. Er enghraifft, crybwyllodd Aelod Seneddol etholaeth bresennol Wrexham, *"I fod yn hollol glir, rwy'n cefnogi'r cynigion mewn perthynas ag etholaeth Wrecsam Maelor"*. Dywedodd hefyd, *"Nid wyf wedi gweld unrhyw ddewisiadau amgen darbwyllol i'r cynnig hwn ar gyfer Wrecsam"*. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth a oedd yn awgrymu y dylai Wrecsam a'r Drenwydd fod yn yr un etholaeth, ac roedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cynnig y dylai ward etholiadol Ponciau fod yn gyfan gwbl yn etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn. Fodd bynnag, nid oedd y Comisiwn o'r farn bod y cynigion hyn yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r cynigion cychwynnol.

6.8 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol unrhyw newidiadau i gyfansoddiad etholaeth arfaethedig Wrecsam Maelor, a gefnogwyd yn gyffredinol yn y cynrychiolaethau a'r gwrandawiadau cyhoeddus.

6.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, derbyniodd y Comisiwn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol a phenderfynu argymell yr etholaeth fel y'i disgrifiwyd yn y cynnig cychwynnol.

6.10 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:

6.10 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Clwyd South a Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sef Bronington (2,540), Brymbo (2,982), Bryn Cefn (1,482), Coedpoeth (3,482), Esclusham (2,023), Gwenfro (1,214), Marchwial (1,824), Mwynglawdd (1,843), Brychdyn Newydd (2,649), Owrtyn (2,601) a wardiau Aberoer a Phentrebychan yng nghymuned Esclusham (rhan o ward etholiadol Ponciau) (636); ac

6.10 b. etholaeth sirol bresennol Wrexham yn ei chyfanrwydd.

6.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,137 o etholwyr, sydd 3.5% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

6.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn ymwneud â chyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig hon. Roedd rhai cynrychiolaethau'n dadlau bod rhannu ward etholiadol Ponciau rhwng yr etholaeth arfaethedig hon ac etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Maldwyn yn ddiangen, ac y gellid cadw'r ward gyfan yn yr etholaeth arfaethedig hon. Roedd cynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Rhosllannerchrugog hefyd yn crybwyll yr hoffai'r

Cyngor Cymuned i'w gymuned gael ei chynnwys yn gyfan gwbl mewn etholaeth arfaethedig Wrecsam yn hytrach nag yn etholaeth De Clwyd a Gogledd Maldwyn.

- 6.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau. O ran ward etholiadol Ponciau, ystyriodd y Comisiwn y ffiniau llywodraeth leol presennol. Yng Nghymru, mae'r rhain yn cynnwys ffiniau wardiau etholiadol, a hefyd ffiniau cymunedau. Mae Ponciau yn ffurfio un ward etholiadol. Fodd bynnag, mae rhannau o ward etholiadol Ponciau yn disgyn mewn un gymuned (mae Aberoer a Phentrebychan yn ffurfio rhan o gymuned Esclusham), ond mae rhannau eraill yn disgyn mewn cymuned arall (mae Gogledd Ponciau, De Ponciau a Rhos yn ffurfio rhan o gymuned Rhosllannerchrugog). Ni fyddai wedi bod yn bosibl cynnwys y rhannau hynny o ward etholiadol Ponciau sy'n disgyn o fewn cymuned Rhosllannerchrugog yn etholaeth arfaethedig Wrecsam, oherwydd y byddai hynny wedi arwain at nifer yr etholwyr yn etholaeth arfaethedig De Cymru a Gogledd Maldwyn yn disgyn islaw'r amrediad etholwyr statudol rhagnodedig.
- 6.14 Byddai wedi bod yn bosibl cynnwys wardiau Aberoer a Phentrebychan yng nghymuned Esclusham yn etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Maldwyn yn hytrach nag yn etholaeth arfaethedig Wrecsam. Fodd bynnag, byddai hynny'n arwain at ran o gymuned Esclusham yn disgyn o fewn etholaeth arfaethedig Wrecsam, a rhan ohoni yn etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Maldwyn. Penderfynodd y Comisiwn y byddai'n well cadw'r gymuned gyfan mewn un etholaeth arfaethedig, gan barchu ffiniau presennol y gymuned ac osgoi torri'r cysylltiadau lleol rhwng y wardiau sy'n ffurfio'r gymuned, er y byddai hyn yn golygu rhannu ward etholiadol Ponciau. At ei gilydd, roedd y Comisiwn yn fodlon bod cynnwys wardiau Aberoer a Phentrebychan yng nghymuned Esclusham yn etholaeth argymelledig Wrecsam yn bodloni'r meini prawf yn well, yn enwedig o ran Rheol 5.1(b) a (d) Atodlen 2 i'r Ddeddf.
- 6.15 Ystyriodd y Comisiwn y gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Rhosllannerchrugog, a oedd am i'r gymuned gyfan gael ei chynnwys yn etholaeth argymelledig Wrecsam yn hytrach nag etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Maldwyn. Fodd bynnag, ni fyddai'n bosibl i gymuned Rhosllannerchrugog, sy'n cynnwys wardiau etholiadol Johnstown, Pant a wardiau cymunedol Gogledd Ponciau, De Ponciau a Rhos, gael ei chynnwys yn etholaeth argymelledig Wrecsam, oherwydd y byddai gwneud hynny'n golygu y byddai'r etholaeth arfaethedig honno'n rhagori ar yr amrediad etholwyr statudol. Daeth y Comisiwn i'r casgliad mai etholaeth argymelledig Wrecsam, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal hon, sy'n bodloni'r meini prawf statudol orau, yn gyffredinol.


Enw

- 6.16 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Wrexham. Yr enw arall a argymhellir yw Wrecsam.
- 6.17 Cynigiodd y Comisiwn yr enw (Wrexham Maelor) Wrecsam Maelor yn wreiddiol. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth gan Aelod Seneddol etholaeth bresennol Wrexham, a oedd yn datgan bod Wrecsam yn enw adnabyddadwy iawn, ac y byddai ychwanegu'r enw Maelor yn ddiangen ac yn peri dryswch. Newidiodd y Comisiwn enw'r etholaeth arfaethedig i adlewyrchu hyn.

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

- 6.18 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Wrexham (Wreccsam).

Wrexham (Wrecsam)



(H) Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

7. De Clwyd a Gogledd Maldwyn (South Clwyd and North Montgomeryshire)

Argymhelliad

7.1 Mae'r Comisiwn yn argymell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 7.1 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Clwyd South a:**
 - i. Sir Ddinbych, sef Corwen (1,826), Llandrillo (930) a Llangollen (3,319); a'r**
 - ii. wardiau etholiadol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, sef Cefn (3,709); Dyffryn Ceiriog (1,670), Gogledd Y Waun (1,811), De'r Waun (1,549), Johnstown (2,415), Llangollen Wledig (1,578), Pant (1,534), Pen-y-cae (1,479), Pen-y-cae a De Rhiwabon (1,898), Plas Madoc (1,198), Rhiwabon (2,071) a wardiau Gogledd Ponciau, De Ponciau a Rhos yng nghymuned Rhosllannerchrugog (rhan o ward etholiadol Ponciau) (2,831);**
 - 7.1 b. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Clwyd West a Sir Ddinbych, sef Efenechtyd (1,316), Llanarmon-yn-lâl/Llandegla (1,978), Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal (1,218) Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern (1,793), Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch (1,478) a Rhuthun (4,372);**
 - 7.1 c. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Montgomeryshire a Sir Powys, sef Banwy (746), Aberriw (1,064), Cegidfa (1,799), Llandrinio (1,656), Llandysilio (1,387), Llanfair Caereinion (1,227), Llanfihangel (872), Llanfyllin (1,147), Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin (1,733), Llansanffraid (1,511), Llanwddyn (818), Meifod (1,040), Trewern (1,504), Castell Y Trallwng (954), Y Trallwng Gungrog (1,772) ac Y Trallwng Llannerch Hudol (1,652); a'r**
 - 7.1 d. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Vale of Clwyd a Sir Ddinbych, sef Canol Dinbych (1,567), Dinbych Isaf (3,575), Dinbych Uchaf/Henllan (2,371) a Llandyrnog (1,652).**
- 7.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,570 o etholwyr, sydd 4.3% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.**
- 7.3 Mae'r Comisiwn yn argymell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n De Clwyd a Gogledd Maldwyn. Yr enw arall a argymhellir yw South Clwyd and North Montgomeryshire.**
- 7.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:**
- 7.4 a. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Clwyd South gyfanswm o 53,094 o etholwyr, sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 25% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.**

- 7.4 b. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Clwyd West gyfanswm o 56,862 o etholwyr, sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 20% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 7.4 c. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Dwyfor Meirionnydd gyfanswm o 42,353 o etholwyr, sydd 43% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 40% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 7.4 d. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Montgomeryshire gyfanswm o 46,989 o etholwyr, sydd 37% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 34% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 7.4 e. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Vale of Clwyd gyfanswm o 55,839 o etholwyr, sydd 25% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 21% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

7.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 7.5 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Clwyd South a:
 - i. wardiau etholiadol Sir Ddinbych, sef Corwen (1,826), Llandrillo (930) a Llangollen (3,319); a
 - ii. wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sef Cefn (3,709); Dyffryn Ceiriog (1,670), Gogledd Y Waun (1,811), De'r Waun (1,549), Johnstown (2,415), Llangollen Wledig (1,578), Pant (1,534), Pen-y-cae (1,479), Pen-y-cae a De Rhiwabon (1,898), Plas Madoc (1,198), Rhiwabon (2,071) a wardiau Gogledd Ponciau, De Ponciau a Rhos yng nghymuned Rhosllannerchrugog (rhan o ward etholiadol Ponciau);
- 7.5 b. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Clwyd West, sef:
 - i. ward etholiadol Bwrdeistref Sirol Conwy, sef Uwchaled (1,124); a
 - ii. wardiau etholiadol Sir Ddinbych, sef Efenechtyd (1,316), Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla (1,978), Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal (1,218) Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern (1,793), Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch (1,478) a Rhuthun (4,372);
- 7.5 c. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Dwyfor Meirionnydd a Sir Gwynedd, sef Y Bala (1,290), Llandderfel (1,090) a Llanuwchllyn (673);
- 7.5 d. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Montgomeryshire a Sir Powys, sef Banwy (746), Glantwymyn (1,558), Cegidfa (1,799), Llanbrynmair (742), Llandrinio (1,656), Llandysilio (1,387), Llanfair Caereinion (1,227), Llanfihangel (872), Llanfyllin (1,147), Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin (1,733), Llansanffraid (1,511),

Llanwddyn (818), Machynlleth (1,627), Meifod (1,040), Trewern (1,504), Castell Y Trallwng (954), Y Trallwng Gungrog (1,772) ac Y Trallwng Llannerch Hudol (1,652); a'r

- 7.5 e. ward etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Vale of Clwyd a Sir Ddinbych, sef Llandyrnog (1,652).
- 7.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,097 o etholwyr, sydd 4.9% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn. Yr enw arall a awgrymwyd oedd South Clwyd and North Montgomeryshire.
- 7.7 Yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf, cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau yn crybwyll na ddylai Machynlleth a wardiau etholiadol cyfagos Glantwymyn a Llanbryn-mair gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon, ond y dylid eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro, oherwydd bod ganddynt gysylltiadau â Cheredigion yn hytrach na Chlwyd. Er enghraifft, dywedodd un gynrychiolaeth, wrth gyfeirio at leoliad Machynlleth, *"Mae ardal Machynlleth wedi'i lleoli'n gyfagos at arfordir gorllewin Cymru, ac mae ganddi gysylltiadau agosach ag Aberystwyth."* Roedd cryn gytundeb ymhlith y pleidiau gwleidyddol a gyflwynodd gynrychiolaethau (ac ymhlith y cynrychiolaethau eraill) y dylai Machynlleth a'r ddwy ward etholiadol arall gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro. Fodd bynnag, er nad oedd y Blaid Lafur yn gwrthwynebu'r newidiadau awgrymedig, nid oedd yn sicr bod gan Fachynlleth fwy o gysylltiadau â Cheredigion.
- 7.8 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn ymwneud â ph'un a ddylid cynnwys wardiau etholiadol Aberriw a Ffordun yn yr etholaeth arfaethedig hon. Cafodd gynrychiolaethau hefyd ynghylch dymunoldeb cadw etholaeth bresennol Montgomeryshire. Roedd y cynrychiolaethau diwethaf yn cyfeirio at y ffaith y bu Montgomeryshire yn Etholaeth Seneddol er 1536 ac y dylid ei chadw. Cafodd y Comisiwn ddeiseb â 237 o lofnodion a oedd o blaid cadw'r etholaeth bresennol.
- 7.9 Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol na ddylai ward etholiadol Llansannan a thair ward etholiadol yn Sir Ddinbych (Canol Dinbych, Dinbych Isaf a Dinbych Uchaf/Henllan) gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Gogledd Clwyd a Gwynedd, ond y dylid eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon. Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol hefyd na ddylai wardiau etholiadol Y Bala, Llandderfel, Llanuwchllyn ac Uwchaled gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon, ond mewn etholaeth ddiwygiedig Gwynedd oherwydd y cysylltiadau ag ardal Gwynedd, a gwnaethant amlygu'r gefnogaeth gref i'r newidiadau hyn yn y gwrandawiadau cyhoeddus a'r cynrychiolaethau. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad na ddylai Machynlleth a'r ddwy ward gyfagos gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon ychwaith, ond y dylid eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro oherwydd y cysylltiadau lleol rhwng Machynlleth ac Aberystwyth. Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol hefyd yn argymhell y dylai wardiau etholiadol Aberriw a Ffordun gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon, gan fod gan y ddwy ohonynt gysylltiadau â thref Y Trallwng. Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn bod y cynigion amgen a oedd â'r bwriad o gadw etholaeth bresennol Montgomeryshire *"...yn creu*

problemau sylweddol mewn mannau eraill, gan gynnwys rhannu Ceredigion a chysylltu'r rhan ogleddol ag etholaeth a fyddai'n ymestyn i gyrion Caernarfon a Chonwy, ac etholaeth y Bannau a fyddai'n ymestyn o Bentywyn bron cyn belled â'r ffin â Lloegr." Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad y byddai cadw etholaeth bresennol Montgomeryshire yn cael effaith negyddol ar etholaethau arfaethedig eraill ledled Cymru ac, er eu bod yn cydymdeimlo â thrigolion Sir Drefaldwyn, roeddent o'r farn nad oedd yn ymarferol cadw'r etholaeth hanesyddol hon.

- 7.10 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, derbyniodd y Comisiwn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol yn ymwneud â'r tair ward etholiadol yn Sir Ddinbych (Canol Dinbych, Dinbych Isaf a Dinbych Uchaf/Henllan) a chynnig cynnwys y wardiau hynny yn yr etholaeth arfaethedig hon. Fodd bynnag, penderfynodd y Comisiwn beidio â chynnwys ward etholiadol Llansannan yn yr etholaeth arfaethedig, ac argymhellodd y dylid ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gwynedd am y rhesymau a grybwyllwyd eisoes ym mharagraffau 2.11 a 2.12 yn adran 5. Hefyd, derbyniodd y Comisiwn argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylai wardiau etholiadol Y Bala, Llandderfel, Llanuwchllyn ac Uwchaled gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Gwynedd yn hytrach na'r etholaeth arfaethedig hon, fel y crybwyllwyd yn flaenorol ym mharagraff 2.9 yn adran 5. Derbyniodd y Comisiwn argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol i gynnwys wardiau etholiadol Machynlleth, Llanbryn-mair a Glantwymyn yn etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro hefyd, yn hytrach nag yn yr etholaeth arfaethedig hon, er mwyn osgoi torri eu cysylltiadau â thref Aberystwyth.
- 7.11 Ystyriodd y Comisiwn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol a'r cynrychiolaethau a gafwyd mewn perthynas â wardiau etholiadol Aberriw a Ffordun. Mae'n rhaid cynnwys o leiaf un o'r wardiau etholiadol yn etholaeth argymelledig De Clwyd a Gogledd Maldwyn er mwyn sicrhau bod nifer yr etholwyr yn yr etholaeth arfaethedig hon yn aros o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Roedd y gynrychiolaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Cymuned Ffordun gyda Thre'r-Llai a Threlystan yn cyfeirio at gysylltiadau lleol presennol Ffordun â Threfaldwyn a'r Ystog, ac yn nodi y byddai'r cysylltiadau hynny'n cael eu torri pe na fyddai Ffordun yn cael ei chynnwys yn etholaeth argymelledig Aberhonddu, Maesfed a Threfaldwyn. Ni chafwyd unrhyw gynrychiolaethau gan drigolion neu unrhyw gyngor cymuned yn awgrymu y byddai'n amhrifodol cynnwys ward etholiadol Aberriw yn etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Maldwyn. Dan yr amgylchiadau, daeth y Comisiwn i'r casgliad y dylai ward etholiadol Aberriw gael ei chynnwys yn etholaeth argymelledig De Clwyd a Gogledd Maldwyn.
- 7.12 Mae'r Comisiwn yn cydymdeimlo'n sylweddol â'r nod o gadw etholaeth hanesyddol bresennol Montgomeryshire. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi derbyn argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol na fyddai'n ymarferol cadw etholaeth bresennol Montgomeryshire. Roedd y Comisiwn yn cytuno y byddai gwneud hynny'n cael effeithiau ôl-ddilydol ar lawer o'r etholaethau arfaethedig eraill yng Nghymru ac yn arwain at etholaethau a fyddai, ar y cyfan, yn adlewyrchiad llai effeithiol o'r meini prawf statudol.
- 7.13 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:

7.13 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Clwyd South a:

- i. Sir Ddinbych, sef Corwen (1,826), Llandrillo (930) a Llangollen (3,319); a
 - ii. Bwrdeistref Sirol Wreccsam, sef Cefn (3,709); Dyffryn Ceiriog (1,670), Gogledd Y Waun (1,811), De'r Waun (1,549), Johnstown (2,415), Llangollen Wledig (1,578), Pant (1,534), Pen-y-cae (1,479), Pen-y-cae a De Rhiwabon (1,898), Plas Madoc (1,198), Rhiwabon (2,071) a wardiau Gogledd Ponciau, De Ponciau a Rhos yng nghymuned Rhosllannerchrugog (rhan o ward etholiadol Ponciau) (2,831);
- 7.13 b. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Clwyd West a Sir Ddinbych, sef Efenechtyd (1,316), Llanarmon-yn-lâl/Llandegla (1,978), Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal (1,218) Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern (1,793), Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch (1,478) a Rhuthun (4,372);
- 7.13 c. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Montgomeryshire a Sir Powys, sef Banwy (746), Aberriw (1,064), Cegidfa (1,799), Llandrinio (1,656), Llandysilio (1,387), Llanfair Caereinion (1,227), Llanfihangel (872), Llanfyllin (1,147), Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin (1,733), Llansanffraid (1,511), Llanwddyn (818), Meifod (1,040), Trewern (1,054), Castell Y Trallwng (954), Y Trallwng Gungrog (1,772) ac Y Trallwng Llannerch Hudol (1,652); a'r
- 7.13 d. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Vale of Clwyd a Sir Ddinbych, sef Canol Dinbych (1,567), Dinbych Isaf (3,575), Dinbych Uchaf/Henllan (2,371) a Llandyrnog (1,652).
- 7.14 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,570 o etholwyr, sydd 4.3% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.
- 7.15 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn amlygu pryder ynghylch maint daearyddol yr etholaeth arfaethedig. Nododd y Comisiwn er bod yr etholaeth arfaethedig yn fawr o gymharu ag eraill yng Nghymru, mae'n sylweddol llai na'r maint mwyaf a ganiateir o dan y Ddeddf. Roedd rhai cynrychiolaethau'n dadlau bod rhannu ward etholiadol Ponciau rhwng yr etholaeth arfaethedig hon ac etholaeth arfaethedig Wreccsam yn ddiangen, ac y gellid cadw'r ward gyfan yn etholaeth arfaethedig Wreccsam. Dywed cynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Rhosllannerchrugog yr hoffai Cyngor Cymuned i'w gymuned gael ei chynnwys yn gyfan gwbl yn etholaeth Wreccsam. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth a oedd yn dadlau na ddylai tref Y Trallwng gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon, ond y dylid ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn, oherwydd ei chysylltiadau â'r Drenwydd a Threfaldwyn. Hefyd, cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd o blaid yr etholaeth arfaethedig, gan gynnwys cynrychiolaeth gan Gyngor Sir Powys, a oedd yn datgan *"Teimlwn fod y newidiadau a wnaed i'r cynigion cychwynnol yn bodloni dymuniadau'r cymunedau lleol dan sylw yn well... hoffai Powys dderbyn y cynigion a gyflwynwyd ar gyfer yr etholaethau newydd yn ardal Powys."*
- 7.16 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau. O ran Ponciau, fel yr esboniwyd ym mharagraffau 6.13 a 6.14 yn adran 5, nid oedd yn bosibl i'r rhannau hynny o ward etholiadol Ponciau sydd wedi'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd


Maldwyn gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Wrecsam yn lle hynny. Byddai hynny wedi golygu y byddai nifer yr etholwyr yn etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Maldwyn wedi disgyn islaw'r amrediad etholwyr statudol. Am y rhesymau a roddwyd gynt, roedd y Comisiwn o'r farn bod cadw rhannau o ward etholiadol Ponciau yn etholaeth arfaethedig Wrecsam yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well, yn gyffredinol. Ystyriodd y Comisiwn y gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Rhosllannerchrugog. Fodd bynnag, daeth i'r casgliad na fyddai'n bosibl cynnwys Cymuned Rhosllannerchrugog, sy'n cynnwys wardiau etholiadol Johnstown, Pant a wardiau cymunedol Gogledd Ponciau, De Ponciau a Rhos, yn yr etholaeth arfaethedig, oherwydd y byddai gwneud hynny'n rhagori ar yr amrediad etholwyr statudol ar gyfer etholaeth arfaethedig Wrecsam, a byddai etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Maldwyn yn disgyn islaw'r amrediad etholwyr statudol.

- 7.17 Daeth y Comisiwn i'r casgliad na fyddai'n gallu argymell cadw etholaeth bresennol Montgomeryshire. Nifer yr etholwyr yn yr etholaeth bresennol yw 56,989, ac felly ni fyddai'n bodloni'r amrediad etholwyr statudol. Byddai cadw etholaeth bresennol Montgomeryshire yn ei chyfanrwydd mewn etholaeth arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar etholaethau arfaethedig eraill yng Nghymru. Ni fyddai'r Comisiwn yn gallu rhoi tref Y Trallwng yn etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn oherwydd y byddai etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Maldwyn yn disgyn islaw'r amrediad etholwyr statudol o ganlyniad. Ystyriodd y Comisiwn ward etholiadol Ffordun unwaith eto ond, fel y crybwyllwyd ym mharagraff 7.11 yn adran 5, cyflwynodd Cyngor Cymuned Ffordun gyda Thre'r-Llai a Threlstan gynrychiolaethau yn crybwyll y dylid ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn, oherwydd bod ganddi gysylltiadau lleol â Threfaldwyn a'r Ystog. Byddai'r cysylltiadau hynny'n cael eu torri pe byddai ward etholiadol Ffordun yn cael ei chynnwys yn etholaeth argymelledig De Clwyd a Gogledd Maldwyn. Daeth y Comisiwn i'r casgliad mai etholaeth argymelledig De Clwyd a Gogledd Maldwyn, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal hon, sy'n bodloni'r meini prawf statudol orau, yn gyffredinol.

Enw

- 7.18 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymell ar gyfer yr etholaeth hon yw De Clwyd a Gogledd Maldwyn. Yr enw arall a argymhellir yw South Clwyd and North Montgomeryshire.
- 7.19 Cynigiodd y Comisiwn yr enw De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn yn wreiddiol. Yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn crybwyll mai'r enwau traddodiadol Cymraeg ar gyfer Montgomeryshire yw naill ai Maldwyn neu Sir Drefaldwyn, ac mae wedi newid yr enw argymelledig i adlewyrchu hyn.
- 7.20 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw De Clwyd a Gogledd Maldwyn (South Clwyd and North Montgomeryshire).

De Clwyd a Gogledd Maldwyn (South Clwyd and North Montgomeryshire)



8. Brecon, Radnor and Montgomery (Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn)

Argymhelliad

8.1 Mae'r Comisiwn yn argymell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

8.1 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Brecon and Radnorshire a Sir Powys, sef Aber-craf (1,110), Bugeildy (1,099), Bronllys (957), Llanfair-ym-Muallt (1,809), Bwlch (774), Crughywel (2,202), Cwm-Twrch (1,486), Diserth a Threcoed (1,045), Felin-fach (1,030), Clas-ar-Wy (1,754), Gwernyfed (1,163), Y Gelli (1,137), Trefyclo (2,221), Llanafanfawr (1,103), Llanbadarn Fawr (861), Dwyrain Llandrindod/Gorllewin Llandrindod (892), Gogledd Llandrindod (1,417) De Llandrindod (1,562), Llanelwedd (951), Llangatwg (749), Llangors (855), Llangunllo (1,025), Llangynidr (821), Llanwrtyd (1,404), Llanllyr (948), Maescar/Llywel (1,354), Nantmel (1,150), Pencraig (1,292), Llanandras (2,129), Rhaeadr Gwy (1,486), St. David Fewnol (1,210), St. John (2,521), St. Mary (1,852), Talgarth (1,241), Cymuned Talgarth (1,469), Tawe-Uchaf (1,680), Ynyscedwyn (1,686), Yscir (848) ac Ystradgynlais (1,980); a'r

8.1 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Montgomeryshire a Sir Powys, sef Blaen Hafren (1,782), Caersws (1,712), Yr Ystog (1,214), Dolforwyn (1,587), Ffordun (1,083), Ceri (1,563), Llandinam (1,063), Llanidloes (2,070), Threfaldwyn (1,059), Canol Y Drenewydd (2,103), Dwyrain Y Drenewydd (1,391), Y Drenewydd Gogledd Llanllwchaearn (1,726), Y Drenewydd Gorllewin Llanllwchaearn (1,361), De Y Drenewydd (1,242) a Rhiwcynon (1,674).

8.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,903 o etholwyr, sydd 0.2% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

8.3 Mae'r Comisiwn yn argymell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Brecon, Radnor, and Montgomery. Yr enw arall a argymhellir yw Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn.

8.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

8.4 a. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Brecon and Radnor gyfanswm o 52,273 o etholwyr, sydd 30% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 26% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

8.4 b. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Montgomeryshire gyfanswm o 46,989 o etholwyr, sydd 37% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 34% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

8.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

8.5 a. Etholaeth sirol bresennol Brecon and Radnorshire yn ei chyfanrwydd; a'r

8.5 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Montgomeryshire a Sir Powys, sef Aberriw (1,064), Caersws (1,712), Yr Ystog (1,214), Dolforwyn (1,587), Ffordun (1,083), Ceri (1,563), Llandinam (1,063), Trefaldwyn (1,059), Canol Y Drenewydd (2,103), Dwyrain Y Drenewydd (1,391), Y Drenewydd Gogledd Llanllwchaearn (1,726), Y Drenewydd Gorllewin Llanllwchaearn (1,361), De Y Drenewydd (1,242) a Rhiwcynon (1,674).

8.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,115 o etholwyr, sydd 3.5% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Brecon, Radnor, and Montgomery. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Aberhonddu, Maesfedyd a Threfaldwyn.

8.7 Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, cafodd y Comisiwn nifer fawr o gynrychiolaethau a oedd yn datgan bod gan wardiau etholiadol Llanidloes a Blaen Hafren gysylltiadau cymunedol lleol â'r Drenewydd, ac y dylai'r wardiau hynny gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesfedyd a Threfaldwyn. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau gan Gyngor Cymuned Ffordun gyda Thre'r-Llai a Threllystan a oedd yn datgan y dylai Ffordun aros yn yr etholaeth arfaethedig hon, gan ddweud, *"...teimlir bod gan ward Ffordun berthynas naturiol â Threfaldwyn a'r Ystog, y cynigir i'r ddwy ohonynt fod yn yr etholaeth honno."*

8.8 Cafodd y Comisiwn nifer fawr o gynrychiolaethau yn ymwneud ag etholaeth bresennol Montgomeryshire, gyda'r cynrychiolaethau'n datgan y bu Montgomeryshire yn Etholaeth Seneddol er 1536 ac y dylid ei chadw yn ei chyfanrwydd. Cafodd y Comisiwn ddeiseb â 237 o lofnodion a oedd o blaid cadw etholaeth Montgomeryshire.

8.9 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad na ddylai wardiau etholiadol Aberriw a Ffordun gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon, ond y dylid eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn, fel y crybwyllwyd yn flaenorol ym mharagraff 7.8 yn adran 5. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad hefyd y dylai wardiau etholiadol Llanidloes a Blaen Hafren gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon er mwyn osgoi torri'r cysylltiadau rhwng Llanidloes a'r Drenewydd, a amlygwyd trwy'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd gan y Comisiwn. Ystyriodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y cynrychiolaethau yn ymwneud â chadw etholaeth Montgomeryshire, fel y crybwyllwyd ym mharagraff 7.9 yn adran 5.

8.10 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, cytunodd y Comisiwn ag argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylai wardiau etholiadol Llanidloes a Blaen Hafren gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon. Cafwyd nifer fawr o gynrychiolaethau a chytundeb ymhlith y pleidiau gwleidyddol a gyflwynodd gynrychiolaethau, a oedd yn cefnogi'r newid hwn i'r cynigion cychwynnol. Ystyriodd y Comisiwn yr argymhelliad yn ymwneud â wardiau etholiadol Aberriw a Ffordun, fel y


crybwyllwyd yn flaenorol ym mharagraff 7.17 yn adran 5. Roedd y Comisiwn o'r farn y dylai Ffordun gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon, fel y cynigiwyd yn wreiddiol, er mwyn osgoi torri'r cysylltiadau lleol y dangosodd y cynrychiolaethau eu bod yn bodoli rhwng Ffordun, Trefaldwyn a'r Ystog. Ni chafwyd unrhyw gynrychiolaethau gan drigolion nac unrhyw gyngor cymuned yn awgrymu y byddai'n amhriodol cynnwys ward etholiadol Aberriw yn etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Maldwyn. Felly, penderfynodd y Cyngor ei bod yn briodol cynnwys ward etholiadol Aberriw yn etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Maldwyn yn hytrach na'r etholaeth arfaethedig hon.

- 8.11 Roedd y Comisiwn yn cytuno ag argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol nad yw'n ymarferol cadw etholaeth bresennol Montgomeryshire, fel y crybwyllwyd yn flaenorol ym mharagraff 7.17 yn adran 5.
- 8.12 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 8.12 a. Etholaeth sirol bresennol Brecon and Radnorshire yn ei chyfanrwydd; a'r
- 8.12 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Montgomeryshire a Sir Powys, sef Blaen Hafren (1,782), Caersws (1,712), Yr Ystog (1,214), Dolforwyn (1,587), Ffordun (1,083), Ceri (1,563), Llandinam (1,063), Llanidloes (2,070), Trefaldwyn (1,059), Canol Y Drenewydd (2,103), Dwyrain Y Drenewydd (1,391), Y Drenewydd Gogledd Llanllwchaearn (1,726), Y Drenewydd Gorllewin Llanllwchaearn (1,361), De Y Drenewydd (1,242) a Rhiwcynon (1,674).
- 8.13 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,903 o etholwyr, sydd 0.2% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.
- 8.14 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn amlygu pryder ynghylch maint daearyddol yr etholaeth arfaethedig. Nododd y Comisiwn er bod yr etholaeth arfaethedig yn fawr o gymharu ag eraill yng Nghymru, mae'n sylweddol llai na'r maint mwyaf a ganiateir o dan y Ddeddf. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn dadlau y dylai tref Y Trallwng gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon, yn hytrach nag yn etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Maldwyn, oherwydd ei chysylltiadau â'r Drenewydd a Threfaldwyn. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth gan Gyngor Sir Powys hefyd a oedd o blaid y cynnig, a grybwyllodd, *"Teimlwn fod y newidiadau a wnaed i'r cynigion cychwynnol yn bodloni dymuniadau'r cymunedau lleol dan sylw yn well... hoffai Powys dderbyn y cynigion a gyflwynwyd ar gyfer yr etholaethau newydd yn ardal Powys."* Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth hefyd a oedd y datgan y dylai ward etholiadol Machynlleth gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon yn hytrach nag yng Ngheredigion a Gogledd Sir Benfro, oherwydd bod ganddi gysylltiadau a Sir Drefaldwyn yn hytrach na Cheredigion a Sir Benfro.
- 8.15 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau. Daeth i'r casgliad na fyddai'n gallu argymell cadw etholaeth bresennol Montgomeryshire. Nifer yr etholwyr yn yr etholaeth bresennol yw 56,989, ac felly ni fyddai'n bodloni'r amrediad etholwyr statudol. Roedd y Comisiwn o'r farn y byddai cynnwys etholaeth bresennol Montgomeryshire yn ei chyfanrwydd mewn etholaeth arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar etholaethau arfaethedig eraill. Ni fyddai'r

Comisiwn yn gallu argymhell rhoi tref Y Trallwng yn yr etholaeth arfaethedig hon ychwaith, oherwydd y byddai etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Maldwyn yn disgyn islaw'r amrediad etholwyr statudol o ganlyniad. Ystyriodd y Comisiwn ward etholiadol Ffordun unwaith eto ond, fel y crybwyllwyd ym mharagraff 7.11 yn adran 5, cyflwynodd Cyngor Cymuned Ffordun gyda Thre'r-Llai a Threlystan gynrychiolaethau yn crybwyll y dylid ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon, ac mae'r Comisiwn yn cytuno y byddai hyn yn osgoi torri'r cysylltiadau lleol rhwng Ffordun, Trefaldwyn a'r Ystog. Ystyriodd y Comisiwn ward etholiadol Machynlleth hefyd, a nododd y bu cefnogaeth gyffredinol i'w chynnwys yn etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion cychwynnol. Byddai ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon hefyd yn golygu y byddai nifer yr etholwyr yn etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro yn disgyn islaw'r amrediad etholwyr statudol. Daeth y Comisiwn i'r casgliad mai etholaeth argymelledig Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal hon, sy'n bodloni'r meini prawf statudol orau, yn gyffredinol.

Enw

- 8.16 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Brecon, Radnor and Montgomery. Yr enw arall a argymhellir yw Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn.
- 8.17 Ystyriodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn cynnig enwau amgen i'r etholaeth arfaethedig hon. Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Brecon, Radnor, and Montgomery (Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn).

Brecon, Radnor and Montgomery (Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn)

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

9. Monmouthshire (Sir Fynwy)

Argymhelliad

9.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 9.1 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Monmouth a Sir Fynwy, sef Caer-went (1,615), Cantref (1,579), Y Castell (1,507), Croesonnen (1,607), Crucornau Fawr (1,691), Devauden (1,174), Dixon gydag Osbaston (1,793), Drybridge (2,423), Goetre Fawr (1,833), Grofield (1,285), Lansdown (1,540), Larkfield (1,475), Llanbadoc (1,014), Bryn Llanelli (3,014), Llan-ffwyst Fawr (1,616), Llangybi Fawr (1,439), Llanofer (1,717), Llandeilo Gresynni (1,422), Llanwenarth Tu Draw (1,073), Y Maerdy (1,331), Llanfihangel Troddi (953), Overmonnow (1,509), Porth Sgiwed (1,684), Y Priordy (1,437), Rhaglan (1,510), Drenwydd Gelli-farch (1,754), St. Arvans (1,253), St. Christopher's (1,762), St. Kingsmark (2,226), St. Mary's (1,414), Thornwell (1,860), Tryleg Unedig (2,122), Brynbuga (1,862) a Wyesham (1,644); a'r
- 9.1 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Newport East a:
- i. Sir Fynwy, sef Castell Caldicot (1,736), Dewstow (1,370), Green Lane (1,363), Mill (2,242), Rogiet (1,303), Hafren (1,269), The Elms (2,408) a West End (1,438); a
 - ii. Dinas Casnewydd, sef Langstone (3,620) a Llan-wern (2,645).

9.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,532 o etholwyr, sydd 0.3% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

9.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Monmouthshire. Yr enw arall a argymhellir yw Sir Fynwy.

9.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymhelledig yn effeithio arnynt:

- 9.4 a. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Monmouth gyfanswm o 62,729 o etholwyr, sydd 16% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 12% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 9.4 b. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Newport East gyfanswm o 53,959 o etholwyr, sydd 28% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 24% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

9.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 9.5 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Monmouth a Sir Fynwy, sef Caer-went (1,615), Cantref (1,579), Y Castell (1,507), Croesonnen (1,607), Crucornau Fawr (1,691), Devauden (1,174), Dixon gydag Osbaston (1,793), Drybridge (2,423),

Goetre Fawr (1,833), Grofield (1,285), Lansdown (1,540), Larkfield (1,475), Llanbadoc (1,014), Bryn Llanelli (3,014), Llan-ffwyst Fawr (1,616), Llangybi Fawr (1,439), Llanofer (1,717), Llandeilo Gresynni (1,422), Llanwenarth Tu Draw (1,073), Y Maerdy (1,331), Llanfihangel Troddi (953), Overmonnow (1,509), Porth Sgiwed (1,684), Y Priordy (1,437), Rhaglan (1,510), Drenwydd Gelli-farch (1,754), St. Arvans (1,253), St. Christopher's (1,762), St. Kingsmark (2,226), St. Mary's (1,414), Thornwell (1,860), Tryleg Unedig (2,122), Brynbuga (1,862) a Wyesham (1,644); a'r

9.5 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Newport East a:

- i. Sir Fynwy, sef Caldicot Castle (1,736), Dewstow (1,370), Green Lane (1,363), Mill (2,242), Rogiet (1,303), Hafren (1,269), The Elms (2,408) a West End (1,438); a
- ii. Dinas Casnewydd, sef Langstone (3,620) a Llan-wern (2,645).

9.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,532 o etholwyr, sydd 0.3% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Monmouthshire. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Sir Fynwy.

9.7 Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, cafodd y Comisiwn ychydig o gynrychiolaethau yn ymwneud â'r cynnig ar gyfer etholaeth arfaethedig Sir Fynwy. Roedd cytundeb ymhlith y pleidiau gwleidyddol a gyflwynodd gynrychiolaethau fod y cynnig yn dderbyniol. Roedd Aelod Seneddol etholaethol bresennol Monmouth hefyd o blaid cynigion cychwynnol a diwygiedig y Comisiwn, a chrybwyllodd fod cynnwys wardiau etholiadol yn Sir Fynwy o Newport East yn dra synhwyrol a, thrwy wneud hynny, byddai'r etholaeth yn cyfuno rhannau o'r prif gyngor a'r Etholaeth Seneddol. Roedd y gynrychiolaeth hefyd yn cefnogi tynnu'r wardiau etholiadol ym mhrif gyngor Torfaen o'r etholaeth am yr un rheswm.

9.8 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol unrhyw newid i etholaeth arfaethedig Sir Fynwy. Fe wnaethant nodi y cafwyd nifer gymharol fach o gynrychiolaethau yn y gwrandawiadau cyhoeddus ac mewn cynrychiolaethau ysgrifenedig yn ymwneud ag etholaeth arfaethedig Sir Fynwy, er iddynt nodi cefnogaeth i'r etholaeth arfaethedig gan bum Aelod Seneddol o'r ardal.

9.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, derbyniodd y Comisiwn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol a chynnig etholaeth Sir Fynwy fel y'i hamlinellwyd yn y cynigion cychwynnol.

9.10 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:

9.10 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Monmouth a Sir Fynwy, sef Caer-went (1,615), Cantref (1,579), Y Castell (1,507), Croesonnen (1,607), Crucornau Fawr (1,691), Devauden (1,174), Dixton gydag Osbaston (1,793), Drybridge (2,423), Goetre Fawr (1,833), Grofield (1,285), Lansdown (1,540), Larkfield (1,475), Llanbadoc (1,014), Bryn Llanelli (3,014), Llan-ffwyst Fawr (1,616), Llangybi Fawr (1,439), Llanofer (1,717), Llandeilo Gresynni (1,422), Llanwenarth Tu Draw (1,073), Y Maerdy (1,331), Llanfihangel Troddi (953), Overmonnow (1,509), Porth Sgiwed

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

(1,684), Y Priordy (1,437), Rhaglan (1,510), Drenewydd Gelli-farch (1,754), St. Arvans (1,253), St. Christopher's (1,762), St. Kingsmark (2,226), St. Mary's (1,414), Thornwell (1,860), Tryleg Unedig (2,122), Brynbuga (1,862) a Wyesham (1,644); a'r

9.10 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Newport East a:

- i. Sir Fynwy, sef Caldicot Castle (1,736), Dewstow (1,370), Green Lane (1,363), Mill (2,242), Rogiet (1,303), Hafren (1,269), The Elms (2,408) a West End (1,438); a
- ii. Dinas Casnewydd, sef Langstone (3,620) a Llan-wern (2,645).

9.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,532 o etholwyr, sydd 0.3% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Monmouthshire. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Sir Fynwy.

9.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn ychydig iawn o gynrychiolaethau yn ymwneud â chyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig hon. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn crybwyll y dylai cymuned Magwyr gyda Gwndy gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Casnewydd, yn hytrach na'r etholaeth arfaethedig hon.


9.13 Roedd y Comisiwn o'r farn bod cymuned Magwyr gyda Gwndy (sy'n cynnwys wardiau etholiadol Mill a The Elms) wedi'i lleoli'n briodol yn yr etholaeth hon, gan ei bod yn ffurfio rhan o ardal awdurdod lleol Sir Fynwy, sydd wedi'i chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon yn ei chyfanrwydd. Daeth y Comisiwn i'r casgliad mai etholaeth arfaethedig Sir Fynwy, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal hon, sy'n bodloni'r meini prawf statudol orau, yn gyffredinol.

Enw

9.14 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Monmouthshire. Yr enw arall a argymhellir yw Sir Fynwy.

9.15 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Monmouthshire (Sir Fynwy).

Monmouthshire (Sir Fynwy)



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

10. Newport (Casnewydd)

Argymhelliad

10.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth fwrdeistrefol o'r canlynol:

10.1 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Newport East a Dinas Casnewydd, sef Alway (5,427), Beechwood (5,353), Liswerry (7,897), Ringland (5,732), Sain Silian (5,876) a Victoria (4,280); a'r

10.1 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Newport West a Dinas Casnewydd, sef Allt-yr-Yn (6,368), Betws (5,275), Y Gaer (6,084), Malpas (5,939), Maerun (4,554), Pilgwenlli (4,067), Shaftesbury (3,548), Stow Hill (2,794) a Pharc Tredegar (2,792).

10.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 75,986 o etholwyr, sydd 1.6% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

10.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Newport. Yr enw arall a argymhellir yw Casnewydd.

10.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

10.4 a. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Newport East gyfanswm o 53,959 o etholwyr, sydd 28% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 24% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

10.4 b. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Newport West gyfanswm o 60,101 o etholwyr, sydd 20% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 15% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

10.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

10.5 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Newport East a Dinas Casnewydd, sef Alway (5,427), Beechwood (5,353), Liswerry (7,897), Ringland (5,732), Sain Silian (5,876) a Victoria (4,280); a'r

10.5 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Newport West a Dinas Casnewydd, sef Allt-yr-Yn (6,368), Betws (5,275), Y Gaer (6,084), Malpas (5,939), Maerun (4,554), Pilgwenlli (4,067), Shaftesbury (3,548), Stow Hill (2,794) a Pharc Tredegar (2,792).

- 10.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 75,986 o etholwyr, sydd 1.6% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Newport. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Casnewydd.
- 10.7 Ni chafodd y Comisiwn lawer o gynrychiolaethau yn ymwneud â'r cynnig cychwynnol ar gyfer Casnewydd. Cafodd gynrychiolaeth yn crybwyll y dylai ward etholiadol Caerllion gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Casnewydd, ac y gallai wardiau etholiadol Betws a Malpas gymryd lle Caerllion yn etholaeth arfaethedig Torfaen.
- 10.8 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol unrhyw newid i etholaeth arfaethedig Casnewydd, gan grybwyll nad oedd llawer o gefnogaeth i'r gwrthgynigion. Fe wnaethant nodi y cafwyd nifer gymharol fach o gynrychiolaethau yn y gwrandawladau cyhoeddus ac mewn cynrychiolaethau ysgrifenedig yn ymwneud ag etholaeth arfaethedig Casnewydd, er iddynt nodi cefnogaeth i'r etholaeth arfaethedig gan bum Aelod Seneddol o'r ardal.
- 10.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, derbyniodd y Comisiwn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol a chynnig etholaeth Casnewydd fel y'i hamlinellwyd yn y cynigion cychwynnol. Mae'r Comisiwn o'r farn o hyd ei bod yn briodol cynnwys wardiau etholiadol Betws a Malpas yn etholaeth arfaethedig Casnewydd, yn hytrach na Chaerllion, oherwydd y mae gan wardiau Betws a Malpas gysylltiadau â Chasnewydd yn hytrach na Thorfaen, ac mae gan Gaerllion gysylltiadau ag ardal Torfaen. Felly, roedd y cynigion cychwynnol yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r cynnig amgen.
- 10.10 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth fwrdeistrefol o'r canlynol:
 - 10.10 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Newport East a Dinas Casnewydd, sef Alway (5,427), Beechwood (5,353), Liswerry (7,897), Ringland (5,732), Sain Silian (5,876) a Victoria (4,280); a'r
 - 10.10 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Newport West a Dinas Casnewydd, sef Allt-yr-Yn (6,368), Betws (5,275), Y Gaer (6,084), Malpas (5,939), Maerun (4,554), Pilgwenlli (4,067), Shaftesbury (3,548), Stow Hill (2,794) a Pharc Tredegar (2,792).
- 10.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 75,986 o etholwyr, sydd 1.6% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.
- 10.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau gan breswylwyr Tŷ-du yn mynegi pryder y byddai'r cynigion yn tynnu Tŷ-du o etholaeth Casnewydd. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd yn awgrymu y dylai Caerllion gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn cefnogi ei gynigion hefyd.
- 10.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau. Ystyriodd y Comisiwn wardiau etholiadol Tŷ-du a Chaerllion. Rhaid i'r Comisiwn argymhell etholaethau sydd o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Byddai cynnwys ward etholiadol Tŷ-du yn etholaeth arfaethedig


COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Casnewydd yn golygu y byddai etholaeth arfaethedig Casnewydd yn fwy na'r amrediad etholwyr statudol, ac y byddai etholaeth arfaethedig Caerffili yn disgyn islaw'r amrediad etholwyr statudol. Byddai cynnwys ward etholiadol Caerllion yn etholaeth arfaethedig Casnewydd yn golygu y byddai etholaeth arfaethedig Casnewydd yn fwy na'r amrediad etholwyr statudol, ac y byddai etholaeth arfaethedig Torfaen yn disgyn islaw'r amrediad etholwyr statudol. Nid oedd unrhyw ward yn etholaeth arfaethedig Casnewydd y byddai'n fwy priodol ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Torfaen na Chaerllion. Daeth y Comisiwn i'r casgliad mai etholaeth arfaethedig Casnewydd, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal hon, sy'n bodloni'r meini prawf statudol orau, yn gyffredinol.

Enw

- 10.14 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Newport. Yr enw arall a argymhellir yw Casnewydd.
- 10.15 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Newport (Casnewydd).

Newport (Casnewydd)



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

11. Torfaen

Argymhelliad

11.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 11.1 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Torfaen a Bwrdeistref Sirol Torfaen, sef Abersychan (5,002), Blaenafon (4,193), Bryn-wern (1,243), Coed Efa (1,792), Cwmynisgoi (979), Fairwater (3,839), Greenmeadow (2,649), Llantarnam (4,099), New Inn (4,773), Panteg (5,585) Pontnewydd (4,370), Pontnewynydd (1,030), Pont-y-pŵl (1,329), St. Cadoc's a Phen-y-garn (1,170), Llanfihangel Llantarnam (2,684), Snatchwood (1,535), Trefddyn (2,300), Two Locks (4,525), Cwmbrân (3,739) a Waunfelin (1,726);
- 11.1 b. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Monmouth a Bwrdeistref Sirol Torfaen, sef Gogledd Croesyceiliog (2,580), De Croesyceiliog (1,420), Gogledd Llanyrafon (1,492) a De Llanyrafon (2,099); a'r
- 11.1 c. ward etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Newport West a Dinas Casnewydd, sef Caerllion (6,214).

11.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,367 o etholwyr, sydd 3.2% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

11.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Torfaen.

11.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

- 11.4 a. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Monmouth gyfanswm o 62,729 o etholwyr, sydd 16% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 12% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 11.4 b. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Newport East gyfanswm o 53,959 o etholwyr, sydd 28% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 24% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 11.4 c. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Torfaen gyfanswm o 58,562 o etholwyr, sydd 22% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth ac 18% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

11.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 11.5 a. Etholaeth sirol bresennol Torfaen yn ei chyfanrwydd;

- 11.5 b. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Monmouth a Bwrdeistref Sirol Torfaen, sef Gogledd Croesyceiliog (2,580), De Croesyceiliog (1,420), Gogledd Llanyrafon (1,492) a De Llanyrafon (2,099); a'r
- 11.5 c. ward etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Newport West a Dinas a Sir Casnewydd, sef Caerllion (6,214).
- 11.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,367 o etholwyr, sydd 3.2% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Torfaen.
- 11.7 Ni dderbyniodd y Comisiwn lawer o gynrychiolaethau yn ymwneud â'r cynnig cychwynnol ar gyfer Torfaen. Roedd yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Torfaen o blaid cynnig cychwynnol y Comisiwn, gan ddatgan mai Caerllion yw'r ward etholiadol amlwg i'w chynnwys yn Nhorfaen oherwydd ei chysylltiadau â Phont-hir a Llanfrechfa. Nododd yr Aelod Seneddol hefyd y byddai'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys ardal prif gyngor Torfaen yn ei chyfanrwydd, ac roedd o'r farn y byddai hyn yn helpu i greu perthynas o fewn yr etholaeth.
- 11.8 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol unrhyw newid i etholaeth arfaethedig Torfaen, gan grybwyll nad oedd llawer o gefnogaeth i'r gwrthgynigion. Fe wnaethant nodi y cafwyd nifer gymharol fach o gynrychiolaethau yn y gwrandawriadau cyhoeddus ac mewn cynrychiolaethau ysgrifenedig yn ymwneud ag etholaeth arfaethedig Torfaen, a bod y rhain yn cefnogi'r etholaeth arfaethedig, yn gyffredinol. Nododd y Comisiynwyr Cynorthwyol nad oedd y wardiau yn ardal awdurdod lleol Torfaen ar eu pennau eu hunain yn sicrhau bod yr etholaeth arfaethedig yn disgyn o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Roeddent o'r farn bod cysylltiadau rhwng ward Caerllion a Chwmbwrân a wardiau eraill yn yr etholaeth arfaethedig, ac y gellid cyfiawnhau ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon.
- 11.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, derbyniodd y Comisiwn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol a phenderfynu argymhell etholaeth fel y'i hamlinellwyd yn y cynigion cychwynnol.
- 11.10 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 11.10 a. Etholaeth Sirol bresennol Torfaen yn ei chyfanrwydd;
- 11.10 b. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Monmouth a Bwrdeistref Sirol Torfaen, sef Gogledd Croesyceiliog (2,580), De Croesyceiliog (1,420), Gogledd Llanyrafon (1,492) a De Llanyrafon (2,099); a'r
- 11.10 c. ward etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Newport West a Dinas Casnewydd, sef Caerllion (6,214).
- 11.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,367 o etholwyr, sydd 3.2% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.


COMISIWN FFINIAU I GYMRU

- 11.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn datgan y dylid cadw Caerllion yn etholaeth Casnewydd. Roedd y gynrychiolaeth yn cefnogi etholaeth arfaethedig Torfaen, gan mwyaf; fodd bynnag, roedd yn dadlau na ddylai Caerllion gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig, ac y gwnaed hynny er mwyn cyflawni'r nifer etholwyr gofynnol yn unig, heb roi unrhyw ystyriaeth i gysylltiadau lleol.
- 11.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau. Unwaith eto, ystyriodd y Comisiwn ward etholiadol Caerllion. Rhaid i'r Comisiwn argymhell etholaethau sydd o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Mae'r Comisiwn yn fodlon bod ward etholiadol Caerllion yn ward briodol i'w chynnwys yn etholaeth arfaethedig Torfaen, ac y byddai'n sicrhau ei bod yn disgyn o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Mae'r Comisiwn yn fodlon mai etholaeth arfaethedig Casnewydd, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal hon, sy'n bodloni'r meini prawf statudol orau, yn gyffredinol.

Enw

- 11.14 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Torfaen. Mae Torfaen yn adnabyddadwy yn y ddwy iaith, felly ni chaiff unrhyw enw arall ei argymhell.
- 11.15 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Torfaen.

Torfaen



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

12. Blaenau Gwent

Argymhelliad

12.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 12.1 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Blaenau Gwent a Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, sef Abertyleri (3,095), Badminton (2,428), Beaufort (2,768), Y Blaenau (3,351), Bryn-mawr (3,826), Cwm (3,168), Cwmtylleri (3,358), Gogledd Glynebwy (3,249), De Glynebwy (2,905), Georgetown (2,942), Llanhilleth (3,324), Nant-y-glo (3,187), Rasa (2,386), Sirhowi (4,125), Six Bells (1,702) a Chanol a Gorllewin Tredegar (3,847); a'r
- 12.1 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Islwyn a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Argoed (1,910), Y Coed Duon (5,947), Cefn Fforest (2,765), Crymlyn (4,195), Trecelyn (4,611), Pengam (2,571) a Phenmaen (4,004).

12.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 75,664 o etholwyr, sydd 1.2% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

12.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Blaenau Gwent.

12.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

- 12.4 a. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Blaenau Gwent gyfanswm o 49,661 o etholwyr, sydd 34% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 30% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 12.4 b. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Islwyn gyfanswm o 53,306 o etholwyr, sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 25% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

12.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 12.5 a. Etholaeth sirol bresennol Blaenau Gwent yn ei chyfanrwydd; a'r
- 12.5 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Islwyn a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Argoed (1,910), Y Coed Duon (5,947), Cefn Fforest (2,765), Crymlyn (4,195), Trecelyn (4,611), Pengam (2,571) a Phenmaen (4,004).

12.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 75,664 o etholwyr, sydd 1.2% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Blaenau Gwent.

- 12.7 Ni chafodd y Comisiwn lawer o gynrychiolaethau yn ymwneud â'r cynnig cychwynnol ar gyfer Blaenau Gwent. Roedd cytundeb ymhlith y pleidiau gwleidyddol a gyflwynodd gynrychiolaethau fod y cynnig yn dderbyniol, ac roedd yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Blaenau Gwent o blaid cynnig cychwynnol y Comisiwn hefyd, gan ddatgan bod yr etholaeth arfaethedig yn cynnwys ardal prif gyngor Blaenau Gwent i gyd, a chydabod y cysylltiadau daearyddol a chymunedol sydd gan y prif gyngor â'r wardiau etholiadol yng ngogledd Islwyn. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Argoed, a gefnogwyd gan yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Islwyn, a oedd yn cynnig trefniant amgen ar gyfer etholaethau presennol Blaenau Gwent, Caerphilly, a Merthyr Tydfil and Rhymney. Fodd bynnag, mynegodd cyflwyniad y Blaid Lafur ei bod o'r farn bod y modd y mae'r Comisiwn wedi trin ardal de-ddwyrain Cymru yn parchu'r etholaethau presennol a'r prif gynghorau i'r eithaf.
- 12.8 Ystyriodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y trefniadau amgen a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Argoed, ac a gefnogwyd gan yr Aelod Seneddol, ar gyfer etholaeth bresennol Islwyn, a daeth i'r casgliad bod y cynigion yn rhannu ardaloedd prif gynghorau ac yn torri cysylltiadau lleol. Nododd y Comisiynwyr Cynorthwyol fod pum Aelod Seneddol ar gyfer yr etholaethau presennol y byddai'r cynigion amgen yn effeithio arnynt yn gwrthwynebu'r cynigion hyn, a nododd fodd y pedair plaid wleidyddol sydd â chynrychiolwyr yn San Steffan yn cefnogi'r cynigion cychwynnol.
- 12.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, derbyniodd y Comisiwn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol a phenderfynu argymhell etholaeth fel y'i hamlinellwyd yn y cynigion cychwynnol. Roedd y Comisiwn o'r farn bod y trefniadau amgen a gynigiwyd gan Gyngor Cymuned Argoed, ac a gefnogwyd gan yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Islwyn, yn cael mwy o effaith ar etholaethau presennol na chynnig y Comisiwn ar gyfer yr ardal hon, ac y byddant yn arwain at dorri cysylltiadau lleol. Roedd y Comisiwn o'r farn bod y cynnig cychwynnol yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r dewis amgen a gynigiwyd, yn gyffredinol.
- 12.10 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 12.10 a. Etholaeth Sirol bresennol Blaenau Gwent yn ei chyfanrwydd; a'r
- 12.10 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Islwyn a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Argoed (1,910), Y Coed Duon (5,947), Cefn Fforest (2,765), Crymlyn (4,195), Trecelyn (4,611), Pengam (2,571) a Phenmaen (4,004).
- 12.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 75,664 o etholwyr, sydd 1.2% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.
- 12.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn erbyn cynnwys Y Coed Duon yn yr etholaeth arfaethedig hon. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn galw am gynnwys ward etholiadol Pengam yn etholaeth Caerffili o ganlyniad i'w chysylltiadau â Chaerffili ar gyfer hamdden a chyflogaeth, ac i beidio â'i chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth bellach gan yr Aelod Seneddol ar gyfer Islwyn, a oedd yn cyfeirio at y

COMISIWN FFINIAU I GYMRU


trefniadau amgen a gynigiwyd gan Gyngor Cymuned Argoed ac yn mynegi pryderon ynghylch torri'r cysylltiadau rhwng cymunedau penodol. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent hefyd, a oedd yn cefnogi'r cynigion diwygiedig, a oedd yn cynnwys wardiau Y Coed Duon a Phengam yn yr etholaeth arfaethedig hon, a chan Gyngor Tref Bryn-mawr yn cefnogi'r etholaeth arfaethedig hon.

- 12.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau. Roedd y Comisiwn o'r farn y dylai wardiau etholiadol Pengam a'r Coed Duon gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon. Ystyriodd y Comisiwn y trefniadau amgen a gynigiwyd gan Gyngor Cymuned Argoed, ac a gefnogwyd gan yr Aelod Seneddol ar gyfer Islwyn eto, a'i bryderon y byddai'r trefniadau arfaethedig yn torri'r hyn y mae'n ei ystyried yn gysylltiadau cryf rhwng cymunedau penodol. Rhaid i'r Comisiwn argymhell etholaethau sydd o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Roedd y Comisiwn yn fodlon bod yr etholaethau a argymhellodd yn yr ardal hon yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r dewisiadau amgen a gynigiwyd, yn gyffredinol. Mae'r Comisiwn yn fodlon mai etholaeth argymelledig Blaenau Gwent, a'r etholaethau eraill yn yr ardal hon, sy'n bodloni'r meini prawf statudol orau, yn gyffredinol.

Enw

- 12.14 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Blaenau Gwent. Mae Blaenau Gwent yn adnabyddadwy yn y ddwy iaith, felly ni chaiff unrhyw enw arall ei argymhell.
- 12.15 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Blaenau Gwent.

Blaenau Gwent



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

13. Merthyr Tydfil and Rhymney (Merthyr Tudful a Rhymni)

Argymhelliad

13.1 Mae'r Comisiwn yn argymell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

13.1 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Merthyr Tydfil and Rhymney a:

- i. Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Cwm Darran (1,760), Moriah (3,031), Tredegar Newydd (3,233), Pontlotyn (1,405) a Thwyn Carno (1,655); a**
- ii. Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, sef Bedlinog (2,649), Cyfarthfa (4,961), Dowlais (4,736), Gurnos (3,309), Bro Merthyr (2,663), Y Parc (3,176), Penydarren (3,678), Plymouth (3,855), Y Dref (5,580), Treharris (4,831) ac Y Faenor (2,644);**

13.1 b. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Caerphilly a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Bargoed (4,277), Gilfach (1,481), Hengoed (3,617), Nelson (3,374), St. Cattwg (5,400) ac Ystrad Mynach (3,935); a'r

13.1 c. ward etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Islwyn a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Aberbargoed (2,520).

13.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 77,770 o etholwyr, sydd 4% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

13.3 Mae'r Comisiwn yn argymell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Merthyr Tydfil and Rhymney. Yr enw arall a argymhellir yw Merthyr Tudful a Rhymni.

13.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

13.4 a. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Caerphilly gyfanswm o 61,158 o etholwyr, sydd 18% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 14% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

13.4 b. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Islwyn gyfanswm o 53,306 o etholwyr, sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 25% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

13.4 c. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Merthyr Tydfil and Rhymney gyfanswm o 53,166 o etholwyr, sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 25% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

13.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

13.5 a. Etholaeth Sirol bresennol Merthyr Tydfil and Rhymney yn ei chyfanrwydd;

13.5 b. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Caerphilly a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Bargoed (4,277), Gilfach (1,481), Hengoed (3,617), Nelson (3,374), St. Cattwg (5,400) ac Ystrad Mynach (3,935); a'r

13.5 c. ward etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Islwyn a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Aberbargoed (2,520).

13.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 77,770 o etholwyr, sydd 4% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Merthyr Tydfil and Rhymney. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Merthyr Tudful a Rhymni.

13.7 Ni chafodd y Comisiwn lawer o gynrychiolaethau yn ymwneud â'r cynnig cychwynnol ar gyfer Merthyr Tudful a Rhymni. Roedd cytundeb ymhlith y pleidiau gwleidyddol a gyflwynodd gynrychiolaethau fod y cynnig yn dderbyniol, ac roedd yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Merthyr Tydfil and Rhymney hefyd o blaid cynnig cychwynnol y Comisiwn. Roeddent yn crybwyll bod yr etholaeth arfaethedig yn cynnwys etholaeth bresennol Merthyr Tydfil and Rhymney yn ei chyfanrwydd, ac yn cydnabod cysylltiadau daearyddol a chymunedol ardal y prif gyngor â'r wardiau etholiadol yn etholaethau presennol Islwyn a Caerphilly. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Argoed, a gefnogwyd gan yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Islwyn, a oedd yn cynnig trefniant amgen ar gyfer etholaethau presennol Blaenau Gwent, Caerphilly, a Merthyr Tydfil and Rhymney. Fodd bynnag, mynegodd cyflwyniad y Blaid Lafur ei bod o'r farn bod y modd y mae'r Comisiwn wedi trin ardal de-ddwyrain Cymru yn parchu'r etholaethau presennol a'r prif gynghorau i'r eithaf.

13.8 Ystyriodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y trefniadau amgen a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Argoed, a fyddai'n effeithio ar yr etholaeth arfaethedig hon. Daethant i'r casgliad bod y cynigion yn rhannu ardaloedd prif gynghorau ac yn torri cysylltiadau lleol. Nododd y Comisiynwyr Cynorthwyol fod pum Aelod Seneddol ar gyfer yr etholaethau presennol y byddai'r cynigion amgen yn effeithio arnynt yn gwrthwynebu'r cynigion hyn, a nododd fodd y pedair plaid wleidyddol sydd â chynrychiolwyr yn San Steffan yn cefnogi'r cynigion cychwynnol.

13.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, derbyniodd y Comisiwn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol a phenderfynu argymhell etholaeth fel y'i hamlinellwyd yn y cynigion cychwynnol. Roedd y Comisiwn o'r farn bod y cynnig a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Argoed yn cael mwy o effaith ar yr etholaethau presennol na chynnig y Comisiwn ar gyfer yr ardal hon ac yn torri cysylltiadau lleol. Felly, mae'r cynigion cychwynnol yn adlewyrchu'r gofynion statudol yn well na'r dewisiadau amgen a gynigiwyd.

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

13.10 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:

13.10 a. Etholaeth Sirol bresennol Merthyr Tydfil and Rhymney yn ei chyfanrwydd;

13.10 b. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Caerphilly a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Bargoed (4,277), Gilfach (1,481), Hengoed (3,617), Nelson (3,374), St. Cattwg (5,400) ac Ystrad Mynach (3,935); a'r

13.10 c. ward etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Islwyn a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Aberbargoed (2,520).

13.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 77,770 o etholwyr, sydd 4% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

13.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn ymwneud â chyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi'r modd yr oedd wedi ymdrin ag etholaethau'r cymoedd a'i ymagwedd gyffredinol yn ne ddwyrain Cymru. Roedd un gynrychiolaeth yn awgrymu mai'r cynnig hwn oedd yr un mwyaf rhesymegol, ac nad oedd y cynigion amgen yn cadw at y rheolau a bennir yn y Ddeddf i'r un graddau â'r etholaeth arfaethedig hon. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth bellach gan yr Aelod Seneddol ar gyfer Islwyn, a oedd yn cyfeirio at y trefniadau amgen a gynigiwyd gan Gyngor Cymuned Argoed ac yn mynegi pryderon ynghylch torri'r cysylltiadau rhwng cymunedau penodol.


13.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau. Ystyriodd y Comisiwn y trefniant amgen a gynigiwyd gan Gyngor Cymuned Argoed, ac a gefnogwyd gan yr Aelod Seneddol ar gyfer Islwyn, eto. Rhaid i'r Comisiwn argymhell etholaethau sydd o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Am y rhesymau a grybwyllwyd ym mharagraff 13.9 yn adran 5, mae'r Comisiwn yn fodlon mai etholaeth argymelledig Merthyr Tudful a Rhymni, a'r etholaethau eraill yn yr ardal hon, sy'n bodloni'r meini prawf statudol orau, yn gyffredinol.

Enw

13.14 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Merthyr Tydfil and Rhymney. Yr enw arall a argymhellir yw Merthyr Tudful a Rhymni.

13.15 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Merthyr Tydfil and Rhymney (Merthyr Tudful a Rhymni).

Merthyr Tydfil and Rhymney (Merthyr Tudful a Rhymni)



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

14. Caerphilly (Caerffili)

Argymhelliad

14.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 14.1 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Caerphilly a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Cwm Aber (4,478), Bedwas, Trethomas a Machen (7,456), Llanbradach (3,133), Morgan Jones (5,153), Penyrheol (8,525), St. James (4,126) a St. Martin's (6,203);
- 14.1 b. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Islwyn a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Abercarn (3,884), Crosskeys (2,344), Maesycwmmmer (1,607), Pontllanfraith (5,976), Dwyrain Rhisga (4,468), Gorllewin Rhisga (3,795) ac Ynysddu (2,709); a'r
- 14.1 c. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Newport West a Dinas Casnewydd, sef Y Graig (4,723) a Thy-du (7,743).

14.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,323 o etholwyr, sydd 2.1% yn uwch na chwota etholiadol y Deyrnas Unedig (DU) o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

14.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Caerphilly. Yr enw arall a argymhellir yw Caerffili.

14.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

- 14.4 a. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Caerphilly gyfanswm o 61,158 o etholwyr, sydd 18% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 14% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 14.4 b. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Islwyn gyfanswm o 53,306 o etholwyr, sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 25% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 14.4 c. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Newport West gyfanswm o 60,101 o etholwyr, sydd 20% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 15% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

14.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 14.5 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Caerphilly a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Cwm Aber (4,478), Bedwas, Trethomas a Machen (7,456), Llanbradach (3,133), Morgan Jones (5,153), Penyrheol (8,525), St. James (4,126) a St. Martin's (6,203);

- 14.5 b. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Islwyn a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Abercarn (3,884), Crosskeys (2,344), Maesycwmmmer (1,607), Pontllanfraith (5,976), Dwyrain Rhisga (4,468), Gorllewin Rhisga (3,795) ac Ynysddu (2,709); a'r
- 14.5 c. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Newport West a Dinas Casnewydd, sef Y Graig (4,723) a Thy-du (7,743).
- 14.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,323 o etholwyr, sydd 2.1% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Caerphilly. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Caerffili.
- 14.7 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth ysgrifenedig gan yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Caerphilly a oedd yn cefnogi'r cynnig cychwynnol, er bod yr Aelod Seneddol wedi mynegi'r farn nad oedd cynnwys dwy ward o Gasnewydd yn ddelfrydol. Pwysleisiodd yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Caerphilly fod y cynnig cychwynnol yn well o lawer nag unrhyw ddewisiadau eraill a gynigiwyd. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Argoed, a gefnogwyd gan yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Islwyn, a oedd yn cynnig trefniant amgen ar gyfer etholaethau presennol Blaenau Gwent, Caerphilly, a Merthyr Tydfil and Rhumney. Fodd bynnag, roedd y cyflwyniad gan y Blaid Lafur o'r farn bod ymagwedd y Comisiwn yn ardal de-ddwyrain Cymru yn parchu'r etholaethau presennol a'r prif gynghorau i'r eithaf.
- 14.8 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad y dylai ward etholiadol Ty-du gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig. Roeddent o'r farn bod y ward etholiadol yn un briodol i'w chynnwys yn etholaeth arfaethedig Caerffili o ystyried ei lleoliad a'i chysylltiadau â Chaerffili, ac y byddai'n galluogi'r etholaeth arfaethedig i ddod o fewn yr amrediad etholiadol statudol. O ran y trefniadau amgen a gynigiwyd gan Gyngor Cymuned Argoed, daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad bod y cynnig yn rhannu prif ardaloedd cyngor ac yn torri cysylltiadau lleol. Nododd y Comisiynwyr Cynorthwyol fod y cynigion amgen yn cael eu gwrthwynebu gan bump o'r Aelodau Seneddol ar gyfer etholaethau presennol y byddai'r cynigion amgen yn effeithio arnynt, a bod y pedair plaid wleidyddol a gynrychiolir yn San Steffan yn cefnogi'r cynigion cychwynnol.
- 14.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, derbyniodd y Comisiwn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol a phenderfynu argymhell etholaeth Caerffili fel y'i hamlinellwyd yn y cynigion cychwynnol. Mae'r cynnig a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Argoed yn cael mwy o effaith ar yr etholaethau presennol nag ymagwedd y Comisiwn yn yr ardal hon, ac mae'r cynnig cychwynnol yn adlewyrchu'r gofynion statudol yn well na'r dewis amgen a gynigiwyd.
- 14.10 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 14.10 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Caerphilly a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Cwm Aber (4,478), Bedwas, Trethomas a Machen (7,456), Llanbradach

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

(3,133), Morgan Jones (5,153), Penyrheol (8,525), St. James (4,126) a St. Martin's (6,203);

14.10 b. y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Islwyn a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Abercarn (3,884), Crosskeys (2,344), Maesycwmmmer (1,607), Pontllanfraith (5,976), Dwyrain Rhisga (4,468), Gorllewin Rhisga (3,795) ac Ynysddu (2,709); a'r

14.10 c. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Newport West a Dinas Casnewydd, sef Y Graig (4,723) a Thy-du (7,743).

14.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,323 o etholwyr, sydd 2.1% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

14.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn galw am gynnwys ward etholiadol Pengam yn etholaeth Caerphilly o ganlyniad i'w chysylltiadau â Chaerffili ar gyfer hamdden a chyflogaeth. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd gan breswylwyr Ty-du a oedd yn mynegi pryderon ynglŷn â'r cynnig i symud y ward honno, ynghyd â ward etholiadol Y Graig, o etholaethau Casnewydd. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau eraill gan yr Aelod Seneddol ar gyfer Islwyn a oedd yn cyfeirio at y trefniadau amgen a gynigiwyd gan Gyngor Cymuned Argoed ac yn mynegi pryderon ynglŷn â thorri cysylltiadau rhwng cymunedau penodol. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth hefyd a oedd yn awgrymu y byddai'n well i Ffynnon Taf gael ei lleoli yn yr etholaeth hon yn hytrach nag un o etholaethau Caerdydd, gan awgrymu bod cysylltiadau cyfathrebu da rhwng Caerffili a Nantgarw o fewn ward etholiadol Ffynnon Taf.


14.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau. Ystyriodd y Comisiwn wardiau etholiadol Ty-du a Phengam. Byddai cynnwys ward etholiadol Pengam yn yr etholaeth arfaethedig hon yn golygu y byddai'r etholaeth yn fwy na'r amrediad etholiadol statudol. Byddai cynnwys wardiau etholiadol Ty-du a/neu Y Graig yn etholaeth arfaethedig Casnewydd yn golygu y byddai etholaeth arfaethedig Casnewydd yn fwy na'r amrediad etholiadol statudol ac y byddai etholaeth arfaethedig Caerffili yn is na'r amrediad etholiadol statudol. Mae'r Comisiwn o'r farn mai'r lle mwyaf priodol i ward etholiadol Ffynnon Taf yw o fewn etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd. Byddai cynnwys ward etholiadol Ffynnon Taf yn yr etholaeth arfaethedig hon yn golygu y byddai'r etholaeth arfaethedig yn fwy na'r amrediad etholiadol statudol. Ystyriodd y Comisiwn y trefniant amgen a gynigiwyd gan yr Aelod Seneddol ar gyfer Islwyn eto. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Comisiwn argymhell etholaethau sydd o fewn yr amrediad etholiadol statudol. Am y rhesymau a drafodir ym mharagraff 14.9 yn adran 5, mae'r Comisiwn yn fodlon bod etholaeth argymelledig Caerffili, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal, yn bodloni'r meini prawf statudol orau yn gyffredinol.

Enw

14.14 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Caerphilly. Yr enw arall a argymhellir yw Caerffili.

- 14.15 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a oedd yn cynnig enwau gwahanol ar gyfer yr etholaeth hon ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Caerphilly (Caerffili).

Caerphilly (Caerffili)



15. Cynon Valley and Pontypridd (Cwm Cynon a Phontypridd)

Argymhelliad

15.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

15.1 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Cynon Valley a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Gogledd Aberaman (3,571), De Aberaman (3,261), Abercynon (4,288), Dwyrain Aberdâr (4,772), Gorllewin Aberdâr/Llwyd-coed (7,036), Cilfynydd (1,998), Cwmbach (3,467), Glyncoch (2,039), Hirwaun (3,076), Dwyrain Aberpennar (2,086), Gorllewin Aberpennar (3,046), Penrhiw-ceiber (4,013), Pen-y-waun (1,993), Y Rhigos (1,337) ac Ynysybwl (3,422); a'r

15.1 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Pontypridd a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Pentre'r Eglwys (3,469), Y Graig (1,455), Y Ddraenen Wen (2,869), Llanilltud Faerdre (4,593), Tref Pontypridd (2,141), Rhondda (3,364), Canol Rhydfelen/Ilan (2,924), Tom-teg (3,170), Trallwng (2,770) a Threfforest (1,845).

15.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 78,005 o etholwyr, sydd 4.3% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

15.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Cynon Valley and Pontypridd. Yr enw arall a argymhellir yw Cwm Cynon a Phontypridd.

15.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

15.4 a. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Cynon Valley gyfanswm o 49,405 etholwyr, sydd 34% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 30% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

15.4 b. Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Pontypridd gyfanswm o 56,525 o etholwyr, sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth ac 20% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

15.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

15.5 a. Etholaeth Sirol bresennol gyfan Cynon Valley; a'r

15.5 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Pontypridd a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Pentre'r Eglwys (3,469), Y Graig (1,455), Y Ddraenen Wen (2,869), Llanilltud Faerdre (4,593), Tref Pontypridd (2,141), Rhondda (3,364), Canol Rhydfelen/Ilan (2,924), Tom-teg (3,170), Trallwng (2,770) a Threfforest (1,845).

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

- 15.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 78,005 o etholwyr, sydd 4.3% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Cynon Valley and Pontypridd. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Cwm Cynon a Phontypridd.
- 15.7 Ni chafodd y Comisiwn lawer o gynrychiolaethau ynglŷn â'r cynnig cychwynnol ar gyfer Cwm Cynon a Phontypridd. Roedd y pleidiau gwleidyddol a gyflwynodd gynrychiolaethau yn cytuno bod y cynnig yn dderbyniol. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn gynigion ynglŷn â threfniant amgen ar gyfer etholaethau arfaethedig Cwm Cynon a Phontypridd, a Rhondda a Llantrisant gan Blaid Lafur Etholaeth Pontypridd (PCLP), a gefnogwyd gan yr Aelod Seneddol a'r Aelod Cynulliad ar gyfer etholaeth bresennol Pontypridd. Roedd y gynrychiolaeth yn datgan bod gan Ffynnon Taf gysylltiadau cryf â Phontypridd, Rhondda Cynon Taf a'r cymoedd. Dadleuodd hefyd fod gan Donyrefail gysylltiadau lleol â Phontypridd, ac felly y dylai fod yn etholaeth arfaethedig Pontypridd yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Rhondda a Llantrisant. Roedd cynrychiolaethau'n awgrymu mai'r ffordd fwyaf priodol o ffurfio etholaethau yn y cymoedd fyddai creu etholaethau sy'n mynd ar draws cymoedd de Cymru o'r dwyrain i'r gorllewin yn hytrach nag i lawr y cymoedd o'r gogledd i'r de, fel y cynigiwyd gan y Comisiwn.
- 15.8 Ystyriodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y trefniant amgen fel y'i cyflwynwyd a daethant i'r casgliad bod gan ward etholiadol Tonyrefail gysylltiadau â Llantrisant a Thonysguboriau sy'n cyfiawnhau ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Rhondda a Llantrisant a bod angen ei chynnwys er mwyn bodloni'r amrediad etholiadol statudol. Daethant i'r casgliad hefyd bod cysylltiadau'n bodoli, gyda chysylltiadau trafniadaeth a chyfathrebu da, rhwng Ffynnon Taf a wardiau etholiadol Gogledd Caerdydd, sy'n cyfiawnhau ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd. Cyfeiriodd y Comisiynwyr Cynorthwyol at y cynrychiolaethau a oedd yn nodi bod Cwm Cynon cyfan wedi cael ei gynnwys yn etholaeth arfaethedig Cwm Cynon a Phontypridd, sy'n parchu cyfanrwydd y cwm at ei gilydd.
- 15.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, derbyniodd y Comisiwn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac argymell creu etholaeth fel y'i hamlinellwyd yn y cynigion cychwynnol. Ystyriodd y Comisiwn y trefniadau amgen fel y'u cynigiwyd gan PCLP. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn bod y cynnig cychwynnol yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r dewisiadau amgen a gynigiwyd. Mae'r Comisiwn o'r farn mai'r ffordd fwyaf priodol o greu etholaethau sy'n cynrychioli'r cymoedd yw gwneud hynny trwy fynd i lawr y cymoedd o'r gogledd i'r de. Mae'r Comisiwn yn credu bod creu etholaethau ar gyfer y cymoedd yn y modd hwn yn adlewyrchu cysylltiadau lleol presennol. Ystyriodd y Comisiwn wardiau etholiadol Ffynnon Taf a Thonyrefail. Er y cydnabyddir y dadleuon o blaid cynnwys y wardiau etholiadol hynny yn yr etholaeth arfaethedig hon, nid yw hyn yn ymarferol oherwydd byddai'n golygu y byddai'r etholaeth arfaethedig yn fwy na'r amrediad etholiadol statudol.
- 15.10 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 15.10 a. Etholaeth Sirol bresennol gyfan Cynon Valley, a'r

- 15.10 b. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Pontypridd a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Pentre'r Eglwys (3,469), Y Graig (1,455), Y Ddraenen Wen (2,869), Llanilltud Faerdre (4,593), Tref Pontypridd (2,141), Rhondda (3,364), Canol Rhydfelen/Ilan (2,924), Tom-teg (3,170), Trallwng (2,770) a Threfforest (1,845).
- 15.11 Byddai gan yr etholaeth hon 78,005 o etholwyr, sydd 4.3% yn fwy na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.
- 15.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn ailddatgan mai'r ffordd fwyaf priodol o greu etholaethau yn cynnwys cymoedd awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf oedd o'r dwyrain i'r gorllewin, yn hytrach nag o'r gogledd i'r de, fel y cynigiwyd gan y Comisiwn, oherwydd gwahaniaethau amlwg o ran anghenion cymunedol y dwyrain-gorllewin a'r gofynion ar Aelodau Seneddol a fyddai'n cynrychioli'r cymunedau hynny. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn cefnogi cyfansoddiad yr etholaeth arfaethedig hon, gan gynnwys gan Gyngor Tref Tredegar a Phlaid Lafur Etholaeth Cwm Cynon, ac yn cefnogi'r dull o greu etholaethau trwy fynd i lawr y cymoedd o'r gogledd i'r de ac nid ar draws o'r dwyrain i'r gorllewin. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau eraill a oedd yn ei annog i gadw ward etholiadol Ffynnon Taf o fewn etholaeth sy'n cynnwys wardiau etholiadol o ardal awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf – yr etholaeth arfaethedig hon yn benodol – o ganlyniad i'r cysylltiadau rhwng ward etholiadol Ffynnon Taf ac ardal awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf.
- 15.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau. Ystyriodd y Comisiwn y trefniadau amgen a gynigiwyd gan PCLP yn adran 15.7 adran 5 eto. Mae'r Comisiwn yn parhau i gredu mai'r ffordd fwyaf priodol o greu etholaethau sy'n cynrychioli'r cymoedd yw gwneud hynny trwy fynd i lawr y cymoedd o'r gogledd i'r de, fel y trafodwyd yn flaenorol ym mharagraff 15.9 adran 5. Er y cydnabyddir y dadleuon o blaid cynnwys ward etholiadol Ffynnon Taf o fewn etholaeth sy'n cynnwys wardiau etholiadol o ardal awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf, nid yw hyn yn ymarferol oherwydd byddai'n golygu y byddai'r etholaeth arfaethedig yn fwy na'r amrediad etholiadol statudol. Yn yr amgylchiadau, roedd y Comisiwn o'r farn bod ward etholiadol Ffynnon Taf wedi'i lleoli'n briodol yn etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd, fel y trafodwyd ym mharagraff 15.9 adran 5. Mae'r trefniadau arfaethedig yn galluogi'r Comisiwn i argymhell dwy etholaeth (yr etholaeth arfaethedig hon ac etholaeth argymelledig Rhondda a Llantrisant) sydd wedi'u ffurfio'n gyfan gwbl o wardiau etholiadol o ardal awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf, gan felly barchu ffiniau llywodraeth leol presennol. Mae'r trefniadau arfaethedig hefyd yn galluogi etholaeth bresennol gyfan Cynon Valley i gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon (ac i etholaeth bresennol gyfan Rhondda i gael ei chynnwys yn etholaeth argymelledig Rhondda a Llantrisant). Mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad bod etholaeth argymelledig Cwm Cynon a Phontypridd, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal, yn bodloni'r meini prawf statudol yn gyffredinol.


Enw

- 15.14 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Cynon Valley and Pontypridd. Yr enw arall a argymhellir yw Cwm Cynon a Phontypridd.

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

- 15.15 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Cynon Valley and Pontypridd (Cwm Cynon a Phontypridd).

Cynon Valley and Pontypridd (Cwm Cynon a Phontypridd)



(H) Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

16. Rhondda and Llantrisant (Rhondda a Llantrisant)

Argymhelliad

16.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 16.1.a Y ward etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Ogmore a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Llanhari (2,940);
- 16.1.b y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Pontypridd a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Beddau (3,090), Tref Llantrisant (3,590), Pont-y-clun (5,888), Tonysguboriau (1,936), Dwyrain Tonyrefail (4,215), Gorllewin Tonyrefail (4,620) a Thyn-y-nant (2,465); a'r
- 16.1.c y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Rhondda a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Cwm Clydach (1,975), Cymer (3,905), Glynrhedyn (3,040), Llwyn-y-pia (1,644), Y Maerdy (2,244), Pentre (3,722), Pen-y-Y Graig (3,879), Porth (4,280), Tonypandy (2,618), Trealaw (2,803), Treherbert (4,035), Treorci (5,545), Tylorstown (2,895), Ynyshir (2,372) ac Ystrad (4,204).

16.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 77,905 o etholwyr, sydd 4.2% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

16.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Rhondda and Llantrisant. Yr enw arall a argymhellir yw Rhondda a Llantrisant.

16.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

- 16.4.a Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Ogmore gyfanswm o 54,614 o etholwyr, sydd 27% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 23% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 16.4.b Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Pontypridd gyfanswm o 56,525 o etholwyr, sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth ac 20% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 16.4.c Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Rhondda gyfanswm o 49,161 o etholwyr, sydd 34% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 31% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

16.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 16.5.a Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Pontypridd a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Beddau (3,090), Tref Llantrisant (3,590), Pont-y-

clun (5,888), Tonysguboriau (1,936), Dwyrain Tonyrefail (4,215), Gorllewin Tonyrefail (4,620) a Thyn-y-nant (2,465); a'r

16.5.b Etholaeth Sirol bresennol gyfan Rhondda.

- 16.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 77,905 o etholwyr, sydd 4.2% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Rhondda and Llantrisant. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Rhondda a Llantrisant.

- 16.7 Ni chafodd y Comisiwn lawer o gynrychiolaethau ynglŷn â'r cynnig cychwynnol ar gyfer etholaeth arfaethedig Rhondda a Llantrisant. Roedd y pleidiau a gyflwynodd gynrychiolaethau yn cytuno bod y cynnig yn dderbyniol. Cafodd y Comisiwn gynnig ynglŷn â threfniant amgen ar gyfer etholaethau arfaethedig Cwm Cynon, Pontypridd, a Rhondda a Llantrisant gan PCLP, a gefnogwyd gan yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Pontypridd a'r Aelod Cynulliad ar gyfer Pontypridd. Roedd y gynrychiolaeth yn datgan bod gan Ffynnon Taf gysylltiadau cryf â Phontypridd, Rhondda Cynon Taf a'r cymoedd. Dadleuodd hefyd fod gan Donyrefail gysylltiadau lleol â Phontypridd, ac felly y dylai fod yn etholaeth arfaethedig Pontypridd yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Rhondda a Llantrisant. Roedd cynrychiolaethau'n awgrymu mai'r ffordd fwyaf priodol o ffurfio etholaethau yng nghymoedd de Cymru fyddai creu etholaethau sy'n mynd ar draws y cymoedd o'r dwyrain i'r gorllewin yn hytrach nag i lawr y cymoedd o'r gogledd i'r de, fel y cynigiwyd gan y Comisiwn.

- 16.8 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth a oedd yn cyfeirio at y cysylltiad rhwng ward etholiadol Llanhari ag ardal awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf, ac felly nid oedd y cynrychiolaethau'n cytuno y dylai'r ward gael ei chynnwys mewn etholaeth Ogwr. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn datgan y dylai ward etholiadol Gilfach Goch gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Rhondda a Llantrisant, er bod y gynrychiolaeth hon yn derbyn efallai na fydd hyn yn bosibl o ganlyniad i'r cyfyngiadau statudol ar y Comisiwn.

- 16.9 Ystyriodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y trefniadau amgen a gyflwynwyd gan PCLP. Daethant i'r casgliad bod gan ward Tonyrefail gysylltiadau â Llantrisant a Thonysguboriau sy'n cyfiawnhau ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Rhondda a Llantrisant a bod angen ei chynnwys er mwyn bodloni'r amrediad etholiadol statudol. Daethant i'r casgliad hefyd bod cysylltiadau rhwng Ffynnon Taf a wardiau etholiadol Gogledd Caerdydd, sy'n cyfiawnhau ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd. Cyfeiriodd y Comisiynwyr Cynorthwyol at y cynrychiolaethau a oedd yn nodi bod Cwm Rhondda cyfan wedi cael ei gynnwys yn etholaeth arfaethedig Rhondda a Llantrisant, sy'n parchu cyfanrwydd y cwm at ei gilydd.

- 16.10 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, derbyniodd y Comisiwn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ynglŷn â'r etholaeth hon. Ystyriodd y Comisiwn y trefniadau amgen fel y'u cynigiwyd gan PCLP. Mae'r Comisiwn o'r farn bod y cynnig cychwynnol yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well, fel y'u trafodwyd ym mharagraff 15.7 adran 5. Mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad ei bod yn briodol cynnwys ward etholiadol Llanhari yn yr etholaeth arfaethedig hon.

16.11 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:

16.11.a Y ward etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Ogmores a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Llanhari (2,940);

16.11.b y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Pontypridd a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Beddau (3,090), Tref Llantrisant (3,590), Pont-y-clun (5,888), Tonysguboriau (1,936), Dwyrain Tonyrefail (4,215), Gorllewin Tonyrefail (4,620) a Thyn-y-nant (2,465); ac

16.11.c Etholaeth Sirol bresennol gyfan Rhondda.

16.12 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 77,905 o etholwyr, sydd 4.2% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.


16.13 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn ailddatgan mai'r ffordd fwyaf priodol o rannu cymoedd awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf oedd o'r dwyrain i'r gorllewin, yn hytrach nag o'r gogledd i'r de, fel y cynigiwyd gan y Comisiwn, oherwydd gwahaniaethau amlwg o ran anghenion cymunedol a'r gofynion ar Aelodau Seneddol a fyddai'n cynrychioli'r cymunedau hynny. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn cefnogi'r etholaeth arfaethedig hon. Roedd y gynrychiolaethau hyn yn cefnogi ffurfio'r etholaeth drwy fynd i lawr y cymoedd o'r gogledd i'r de ac nid ar draws o'r dwyrain i'r gorllewin, fel yr awgrymwyd gan rai. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth hefyd a oedd yn awgrymu y dylai Gilfach Goch gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon ac nid yn etholaeth arfaethedig Ogwr ac Aberafan. Roedd y gynrychiolaeth yn cyfeirio at yr heriau gwahanol sy'n bodoli i bobl Gilfach Goch, sy'n edrych tuag at Gwm Rhondda ar gyfer eu gwasanaethau.

16.14 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau. Ystyriodd y Comisiwn y trefniadau amgen a gynigiwyd gan PCLP yn adran 15.7 adran 5 eto. Mae'r Comisiwn yn parhau i gredu mai'r ffordd fwyaf priodol o greu etholaethau sy'n cynrychioli'r cymoedd yw gwneud hynny trwy fynd i lawr y cymoedd o'r gogledd i'r de, fel y trafodwyd yn flaenorol ym mharagraff 15.9 adran 5. Ystyriodd y Comisiwn ward etholiadol Gilfach Goch. Mae'n rhaid i'r Comisiwn argymhell etholaethau sy'n dod o fewn yr amrediad etholiadol statudol, a byddai cynnwys ward etholiadol Gilfach Goch yn yr etholaeth arfaethedig hon yn golygu y byddai'r etholaeth arfaethedig yn fwy na'r amrediad etholiadol statudol. Mae'r trefniadau arfaethedig yn galluogi'r Comisiwn i argymhell dwy etholaeth (yr etholaeth arfaethedig hon ac etholaeth argymelledig Cwm Cynon a Phontypridd) sydd wedi'u ffurfio'n gyfan gwbl o wardiau etholiadol o ardal awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf, gan felly barchu ffiniau llywodraeth leol presennol. Mae'r trefniadau arfaethedig hefyd yn galluogi etholaeth bresennol gyfan Rhondda i gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon (ac i etholaeth bresennol gyfan Cynon Valley i gael ei chynnwys yn etholaeth argymelledig Cwm Cynon a Phontypridd), gan felly osgoi torri cysylltiadau lleol yn y cymoedd. Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod etholaeth argymelledig Rhondda a Llantrisant, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal, yn bodloni'r meini prawf statudol orau yn gyffredinol.

Enw

- 16.15 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Rhondda and Llantrisant. Yr enw arall a argymhellir yw Rhondda a Llantrisant.
- 16.16 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Rhondda and Llantrisant (Rhondda a Llantrisant).

Rhondda and Llantrisant (Rhondda a Llantrisant)



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

17. Cardiff West (Gorllewin Caerdydd)

Argymhelliad

17.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth fwrdeistrefol o'r canlynol:

- 17.1.a Y ward etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth a Dinas a Sir Caerdydd, sef Grangetown (11,671);
- 17.1.b y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff West a Dinas a Sir Caerdydd, sef Caerau (7,480), Treganna (10,371), Creigiau/Sain Ffagan (3,888), Trelai (9,449), Y Y Tyllgoed (9,338), Llandaf (6,828), Pentyrch (2,752), Radyr (5,146) a Riverside (8,640); a'r
- 17.1.c ward etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Pontypridd a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Ffynnon Taf (2,758).

17.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 78,321 o etholwyr, sydd 4.8% yn uwch na chwota etholiadol y DU, o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

17.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Cardiff West. Yr enw arall a argymhellir yw Gorllewin Caerdydd.

17.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

- 17.4.a Mae gan Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth gyfanswm o 72,392 o etholwyr, sydd 3.2% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 2% yn uwch na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 17.4.b Mae gan Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff West gyfanswm o 63,892 o etholwyr, sydd 15% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 10% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 17.4.c Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Pontypridd gyfanswm o 56,525 o etholwyr, sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth ac 20% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

17.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth fwrdeistrefol o'r canlynol:

- 17.5.a Y ward etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth a Dinas a Sir Caerdydd, sef Grangetown (11,671); ac
- 17.5.b Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol gyfan Cardiff West.

- 17.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 75,563 o etholwyr, sydd 1.1% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Cardiff West. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Gorllewin Caerdydd.
- 17.7 Cafodd y Comisiwn nifer fawr o gynrychiolaethau ynglŷn â'r etholaethau arfaethedig ar gyfer ardal Caerdydd. Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau yn cefnogi ei gynnig cychwynnol, gan gynnwys cynrychiolaethau gan yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Cardiff West. Tynnodd yr Aelod Seneddol sylw at ddefnyddio Afon Taf fel ffin y gellid ei hadnabod yn rhwydd; y cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, dalgylchoedd ysgolion, cymdeithasol, a chyfathrebu da rhwng y wardiau etholiadol y mae'r Comisiwn wedi'u cynnwys yng Ngorllewin Caerdydd; a'r ffaith bod Grangetown wedi bod yn rhan o etholaeth Cardiff West yn hanesyddol.
- 17.8 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn datgan y dylai ward etholiadol Grangetown gael ei chynnwys gyda ward etholiadol Butetown yn etholaeth Cardiff South, ac y dylai ward etholiadol Cathays neu wardiau Ystum Taf a Gabalfa gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd.
- 17.9 Nid oedd y pleidiau gwleidyddol a wnaeth gynrychiolaethau wedi cynnig trefniadau amgen ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon, heblaw am y Blaid Geidwadol. Cynigiodd y Blaid Geidwadol y dylai wardiau gogleddol yr etholaeth bresennol gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd, ac y dylai etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd gynnwys wardiau Ystum Taf a Grangetown. Gwnaethant gyfeirio at y cysylltiadau diwylliannol sy'n bodoli rhwng Grangetown a Butetown. Gwnaeth Aelod Cynulliad gynrychiolaethau hefyd yn mynegi'r farn bod gan y wardiau etholiadol yng ngogledd etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd fwy o gysylltiad â wardiau yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd.
- 17.10 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad y byddai'n fwy priodol lleoli wardiau gogleddol etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd yng Ngogledd Caerdydd, gan ddatgan *"Ystyriwn y byddai'n fwy priodol lleoli wardiau etholiadol Pentyrch, Radyr, a Chreigiau/Sain Ffagan yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd yn hytrach nag yng Ngorllewin Caerdydd, fel y cynigiwyd."* Daethant i'r casgliad y dylai Butetown a Grangetown gael eu huno yn yr etholaeth arfaethedig hon hefyd o ganlyniad i'r cysylltiadau diwylliannol cryf rhwng y ddwy ward.
- 17.11 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, ni dderbyniodd y Comisiwn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd. Roedd y cynigion cychwynnol yn cynnig trefnu'r wardiau etholiadol o fewn ardal awdurdod lleol Dinas a Sir Caerdydd yn gyfan gwbl o fewn tair etholaeth. Byddai dwy o'r etholaethau wedi'u ffurfio'n gyfan gwbl o wardiau o'r ardal awdurdod lleol honno, a byddai un etholaeth wedi'i ffurfio o wardiau o'r ardal awdurdod lleol honno ac un ward o ardal awdurdod lleol arall. Roedd y Comisiwn yn parhau i gredu bod yr ymagwedd yn un gadarn, gan adlewyrchu ffiniau llywodraeth leol, cysylltiadau lleol presennol ac, i raddau helaeth, etholaethau presennol. Byddai etholaeth bresennol gyfan Cardiff West yn cael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon ynghyd â ward Grangetown (sydd hefyd o

fewn ardal awdurdod lleol Dinas a Sir Caerdydd). Yn ogystal, roedd yn briodol cynnwys ward etholiadol Ffynnon Taf o ardal awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Ni allai'r ward honno gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Cwm Cynon a Phontypridd oherwydd byddai hynny'n golygu y byddai nifer yr etholwyr yn yr etholaeth honno'n fwy na'r cwota etholiadol a bennwyd. Felly, roedd angen cynnwys ward etholiadol o'r tu allan i ardal awdurdod lleol Dinas a Sir Caerdydd yn etholaeth Caerdydd. Ni allai ward etholiadol Ffynnon Taf gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd, fel y'i diwygiwyd, oherwydd byddai hynny'n golygu y byddai nifer yr etholwyr yn yr etholaeth arfaethedig honno'n fwy na'r cwota etholiadol a bennwyd. Daeth y Comisiwn i'r casgliad ei bod yn briodol cynnwys ward Ffynnon Taf yn yr etholaeth arfaethedig hon. Roedd y Comisiwn o'r farn bod etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd, a ddisgrifir yn y cynigion cychwynnol, ynghyd â ward etholiadol Ffynnon Taf, yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r trefniadau amgen a gynigiwyd. Roedd y Comisiwn o'r farn bod y trefniadau a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon, ac ar gyfer ardal awdurdod lleol Dinas a Sir Caerdydd yn ei chyfanrwydd, yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well yn gyffredinol.

17.12 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth fwrdeistrefol o'r canlynol:

17.12.a Y ward etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth a Dinas a Sir Caerdydd, sef Grangetown (11,671);

17.12.b Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol gyfan Cardiff West; a'r

17.12.c ward etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Pontypridd a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Ffynnon Taf (2,758).

17.13 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 78,321 o etholwyr, sydd 4.8% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

17.14 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi'r cynigion a argymhellwyd gan y Comisiynwyr Cynorthwyol yn eu hadroddiad. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau eraill hefyd yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn a oedd yn cynnig cynnwys wardiau etholiadol Butetown a Grangetown yn yr etholaeth arfaethedig hon. Mae'r cynrychiolaethau'n dadlau y byddai cynnwys y ddwy ward etholiadol hyn mewn etholaethau gwahanol yn torri nifer o gysylltiadau sydd eisoes yn bodoli rhwng y ddwy gymuned. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn awgrymu trefniadau amgen ar gyfer ward etholiadol Ffynnon Taf. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn awgrymu y dylai'r ward etholiadol gael ei chynnwys yn etholaeth awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd yn cynnig y dylai gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Caerffili.

17.15 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi'r etholaeth arfaethedig hon hefyd. Roedd y cynrychiolaethau hyn yn datgan bod cyfansoddiad yr etholaeth hon fel y'i disgrifiwyd yn y cynigion cychwynnol neu'r cynigion diwygiedig yn dderbyniol ac yn arwain at etholaethau a luniwyd yn dda a chanddynt ffiniau y gellid eu hadnabod yn rhwydd. Roedd un o'r cynrychiolaethau hyn gan yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol

COMISIWN FFINIAU I GYMRU


Cardiff West. Cyfeiriodd y gynrychiolaeth honno at y cysylltiadau cymunedol rhwng wardiau Radyr, Creigiau, a Phentyrch a wardiau Trelái a Thyllgoed, gan bwysleisio'n benodol dalgylchoedd ysgolion, a'r cysylltiadau trafnidiaeth sy'n bodoli yn yr etholaeth arfaethedig. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi dull y Comisiwn o rannu wardiau.

- 17.16 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau. Ystyriodd y Comisiwn y trefniadau amgen a argymhellwyd gan y Comisiynwyr Cynorthwyol eto. Roedd y Comisiwn yn parhau i gredu bod y dull o rannu ardal awdurdod lleol Dinas a Sir Caerdydd yn gyfan gwbl o fewn tair etholaeth yn un cadarn am y resymau a roddwyd ym mharagraff 17.11 adran 5. Roedd y Comisiwn o'r farn bod cadw etholaeth bresennol gyfan Cardiff West yn yr etholaeth arfaethedig hon yn bodloni'r meini prawf statudol yn well na'r trefniadau amgen. Ystyriodd y Comisiwn wardiau etholiadol Butetown a Grangetown. Daeth y Comisiwn i'r casgliad na allai argymell cynnwys y ddwy ward yn yr etholaeth arfaethedig oherwydd byddai hynny'n golygu y byddai'n mynd yn fwy na'r amrediad etholiadol statudol. Roedd y Comisiwn yn fodlon ei bod yn briodol cynnwys ward etholiadol Grangetown yn yr etholaeth arfaethedig hon. Ystyriodd y Comisiwn ward etholiadol Ffynnon Taf eto a phenderfynodd ei bod yn briodol ei lleoli yn etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd. Ni fyddai'n bosibl cynnwys y ward etholiadol yn etholaeth arfaethedig Cwm Cynon a Phontypridd oherwydd byddai hynny'n golygu y byddai nifer yr etholwyr yn yr etholaeth honno'n fwy na nifer yr etholwyr a bennwyd, fel yr esboniwyd ym mharagraff 17.11 adran 5. Yn yr un modd, ni allai ward etholiadol Ffynnon Taf gael ei chynnwys yn etholaeth argymelledig Caerffili oherwydd byddai hynny hefyd yn golygu y byddai nifer yr etholwyr yn yr etholaeth honno'n fwy na'r amrediad etholiadol statudol. Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod etholaeth argymelledig Gorllewin Caerdydd, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal hon, yn bodloni'r meini prawf statudol orau yn gyffredinol.

Enw

- 17.17 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymell ar gyfer yr etholaeth hon yw Cardiff West. Yr enw arall a argymhellir yw Gorllewin Caerdydd.
- 17.18 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Cardiff West (Gorllewin Caerdydd).

Cardiff West (Gorllewin Caerdydd)



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

18 Cardiff North (Gogledd Caerdydd)

Argymhelliad

18.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth fwrdeistrefol o'r canlynol:

18.1.a Y wardiau etholiadol yn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff Central a Dinas a Sir Caerdydd, sef Cyncoed (8,139) a Phentwyn (10,435); a'r

18.1.b wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff North a Dinas a Sir Caerdydd, sef Y Mynydd Bychan (9,326), Lisvane (2,871), Ystum Taf (5,722), Llanisien (12,916), Pontprennau/Yr Hen Laneirwg (6,976) Rhiwbeina (9,129) a'r Eglwys Newydd a Thongwynlais (12,673).

18.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 78,187 o etholwyr, sydd 4.6% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

18.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Cardiff North. Yr enw arall a argymhellir yw Gogledd Caerdydd.

18.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

18.4.a Mae gan Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff Central gyfanswm o 49,403 o etholwyr, sydd 34% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 30% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

18.4.b Mae gan Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff North gyfanswm o 63,574 o etholwyr, sydd 15% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 10% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

18.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth fwrdeistrefol o'r canlynol:

18.5.a Y wardiau etholiadol yn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff Central a Dinas a Sir Caerdydd, sef Cyncoed (8,139) a Phentwyn (10,435);

18.5.b y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff North a Dinas a Sir Caerdydd, sef Gabalfa (4,045), Y Mynydd Bychan (9,326), Lisvane (2,871), Ystum Taf (5,722), Llanisien (12,916), Rhiwbeina (9,129) a'r Eglwys Newydd a Thongwynlais (12,673); a'r

18.5.c ward etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Pontypridd a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Ffynnon Taf (2,758).

- 18.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 78,014 o etholwyr, sydd 4.3% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Cardiff North. Yr enw arall oedd Gogledd Caerdydd.
- 18.7 Cafodd y Comisiwn gryn dipyn o gynrychiolaethau ynglŷn â'r etholaethau arfaethedig ar gyfer ardal Caerdydd. Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau ysgrifenedig, yn ogystal â chynrychiolaethau yn y gwrandawiau cyhoeddus, yn datgan y dylai etholaeth Gogledd Caerdydd gynnwys ward etholiadol Pontprennau/Yr Hen Laneirwg. Cyfeiriodd y cynrychiolaethau at y cysylltiadau hanesyddol â Lisvane a'r cydweithio rhwng y cynghorau cymuned yn ardal gogledd Caerdydd fel rhesymau dros gynnwys Pontprennau/Yr Hen Laneirwg yn etholaeth Gogledd Caerdydd, oherwydd byddai'r cysylltiadau hynny'n cael eu torri pe byddai'n cael ei chynnwys mewn etholaeth arfaethedig wahanol. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn erbyn cynnwys Pontprennau/Yr Hen Laneirwg yn etholaeth Gogledd Caerdydd hefyd. Roedd un gynrychiolaeth yn herio'r angen i'r holl gynghorau cymuned a oedd yn cydweithio fod mewn un etholaeth, gan dynnu sylw at y ffaith nad yw'r cynghorau cymuned yn yr un etholaeth ar hyn o bryd. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd yn datgan bod y cysylltiadau cyfathrebu a thrafnidiaeth rhwng Pontprennau/Yr Hen Laneirwg a gweddill etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd yn wael, gyda diffyg trafndiaeth gyhoeddus a lôn wledig yn unig yn cysylltu Pontprennau/Yr Hen Laneirwg â Lisvane. Cafwyd cynrychiolaethau hefyd yn awgrymu y dylid cynnwys wardiau gogleddol etholaeth bresennol Cardiff West yn yr etholaeth arfaethedig hon, gan gynnwys gan y Blaid Geidwadol a awgrymodd hefyd y dylai etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd gynnwys wardiau etholiadol Ystum Taf a Grangetown. Gwnaeth Aelod Cynulliad gynrychiolaethau hefyd yn mynegi'r farn bod gan y wardiau etholiadol yng ngogledd etholaeth bresennol Cardiff West gysylltiad cryfach â wardiau yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd.
- 18.8 Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd y dylid aildrefnu etholaethau arfaethedig Gogledd Caerdydd a De a Dwyrain Caerdydd yn seiliedig ar ddalgylchoedd a data cyfrifiad. Ysgogodd y gynrychiolaeth hon ymatebion yn ystod yr ail ymgynghoriad, wrth i gynrychiolaethau fynegi pryder ynglŷn â symud ward Y Mynydd Bychan o etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cyfeirio at gysylltiadau Gabalfa â wardiau etholiadol de Caerdydd, fel Cathays, a ward etholiadol Y Mynydd Bychan i'r gogledd.
- 18.9 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad y dylai wardiau gogleddol etholaeth bresennol Cardiff West gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon. Gwnaethant hefyd gynnig cynnwys ward Pontprennau/Yr Hen Laneirwg yn yr etholaeth arfaethedig hon. Er mwyn sicrhau bod nifer yr etholwyr yn yr etholaeth arfaethedig yn dod o fewn yr amrediad etholiadol, cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol na ddylai wardiau etholiadol Gabalfa a Ystum Taf gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon. Roeddent o'r farn bod gan ward Ystum Taf gysylltiadau â Llandaf ac y byddai'n fwy priodol ei chynnwys yn etholaeth De-ddwyrain Caerdydd, a bod gan ward etholiadol Gabalfa gysylltiadau cymunedol â Cathays, ac y byddai'n fwy priodol cynnwys y wardiau hyn yn etholaeth De-ddwyrain Caerdydd.

18.10 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, roedd y Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol diwygio ei gynigion cychwynnol a chynnwys ward etholiadol Pontprennau/Yr Hen Laneirwg yn yr etholaeth arfaethedig hon. Byddai hyn yn osgoi torri'r cysylltiadau presennol rhwng Pontprennau/Yr Hen Laneirwg a wardiau eraill sy'n ffurfio rhan o etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd. Cytunodd y Comisiwn y dylai ward etholiadol Gabalfa gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig De a Dwyrain Caerdydd. Mae gan Gabalfa gysylltiadau â Cathays, ac mae'r A48 i'r gogledd o ward etholiadol Gabalfa yn darparu ffin y gellir ei hadnabod yn rhwydd, sy'n golygu ei bod yn briodol cynnwys y ward hon yn etholaeth arfaethedig De a Dwyrain Caerdydd. Ni dderbyniodd y Comisiwn argymhellion eraill y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon. Roedd y Comisiynwyr o'r farn bod y cynigion cychwynnol, a ddiwygiwyd i gynnwys ward Pontprennau/Yr Hen Laneirwg ond nad oeddent yn cynnwys wardiau etholiadol Gabalfa a Ffynnon Taf, yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well yn gyffredinol. Byddai'r cynigion diwygiedig yn sicrhau bod saith (o'r wyth) ward yn etholaeth bresennol Cardiff North yn cael eu cynnwys mewn un etholaeth arfaethedig. Byddai'r etholaeth arfaethedig hefyd yn sicrhau bod etholaeth bresennol gyfan Cardiff West yn aros mewn un etholaeth arfaethedig yn hytrach na bod rhai wardiau'n cael eu cynnwys mewn etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd a rhai wardiau yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd. Nid oedd y Comisiwn o'r farn bod y trefniadau amgen fel y'u cynigiwyd yn y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well ar gyfer yr etholaeth hon, neu etholaethau eraill, na'r cynnig diwygiedig. Roedd y Comisiwn o'r farn bod y cynigion cychwynnol, fel y'u diwygiwyd yn y modd a ddisgrifiwyd, ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well yn gyffredinol.

18.11 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth fwrdeistrefol o'r canlynol:

18.11.a Y wardiau etholiadol yn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff Central a Dinas a Sir Caerdydd, sef (8,139) a Phentwyn (10,435); a'r

18.11.b wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff North a Dinas a Sir Caerdydd, sef Y Mynydd Bychan (9,326), Lisvane (2,871), Ystum Taf (5,722), Llanisien (12,916), Pontprennau/Yr Hen Laneirwg (6,976) Rhiwbeina (9,129) a'r Eglwys Newydd a Thongwynlais (12,673).

18.12 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 78,187 o etholwyr, sydd 4.6% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

18.13 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi cynnwys ward etholiadol Pontprennau/Yr Hen Laneirwg yn yr etholaeth arfaethedig hon. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn cefnogi'r cynigion a amlinellwyd yn adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol. Yn ogystal, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi ymagwedd y Comisiwn o gael tair etholaeth wedi'u ffurfio o wardiau bron yn gyfan gwbl o fewn ardal awdurdod lleol Dinas a Sir Caerdydd.


18.14 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau. Mae'r Comisiwn yn parhau i gredu ei bod yn briodol cynnwys ward Pontprennau/Yr Hen Laneirwg yn yr etholaeth hon. Mae'n osgoi

torri cysylltiadau lleol rhwng y ward hon a wardiau eraill sydd wedi'u cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig. Mae'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys saith (o wyth) o'r wardiau yn etholaeth bresennol Cardiff North. Mae'r etholaeth arfaethedig wedi'i ffurfio'n gyfan gwbl o wardiau etholiadol o un ardal awdurdod lleol. Ystyriodd y Comisiwn y trefniadau amgen a argymhellwyd gan y Comisiynwyr Cynorthwyol eto, ond nid oedd o'r farn bod y trefniadau amgen hynny'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well. Mae'r Comisiwn yn parhau i gredu bod etholaeth argymelledig Gogledd Caerdydd, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal hon, yn bodloni'r meini prawf statudol orau yn gyffredinol.

Enw

- 18.15 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Cardiff North. Yr enw arall a argymhellir yw Gogledd Caerdydd.
- 18.16 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Cardiff North (Gogledd Caerdydd).

Cardiff North (Gogledd Caerdydd)



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

19 Cardiff South and East (De a Dwyrain Caerdydd)

Argymhelliad

19.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth fwrdeistrefol o'r canlynol:

- 19.1.a Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff Central a Dinas a Sir Caerdydd, sef Adamsdown (5,044), Cathays (7,176), Penylan (9,188) a Phlasnewydd (9,421);
- 19.1.b y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff North a Dinas a Sir Caerdydd, sef Gabalfa (4,045); a'r
- 19.1.c wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth a Dinas a Sir Caerdydd, sef Butetown (6,524), Llanrhymni (7,387), Tredelerch (6,304), y Sblot (8,454) a Trowbridge (10,585).

19.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,128 o etholwyr, sydd 0.9% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

19.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Cardiff South and East. Yr enw arall a argymhellir yw De a Dwyrain Caerdydd.

19.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

- 19.4.a Mae gan Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff Central gyfanswm o 49,403 o etholwyr, sydd 34% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 30% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 19.4.b Mae gan Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff North gyfanswm o 63,574 o etholwyr, sydd 15% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 11% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 19.4.c Mae gan Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth gyfanswm o 72,392 o etholwyr, sydd 3% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 2% yn uwch na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

19.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth fwrdeistrefol o'r canlynol:

- 19.5.a Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff Central a Dinas a Sir Caerdydd, sef Adamsdown (5,044), Cathays (7,176), Penylan (9,188) a Phlasnewydd (9,421);

- 19.5.b y ward etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff North a Dinas a Sir Caerdydd, sef Pontprennau/Yr Hen Laneirwg (6,976); a'r
- 19.5.c wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth a Dinas a Sir Caerdydd, sef Butetown (6,524), Llanrhymni (7,387), Tredelerch (6,304), y Sblot (8,454) a Trowbridge (10,585).
- 19.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 77,059 o etholwyr, sydd 3.1% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Cardiff South and East. Yr enw arall a awgrymwyd oedd De a Dwyrain Caerdydd.
- 19.7 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau ysgrifenedig, yn ogystal â chynrychiolaethau yn y gwrandawiadau cyhoeddus, o blaid cadw etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth, gan gyfeirio at gysylltiadau economaidd, cymdeithasol, a daearyddol a thrafnidiaeth rhwng De Caerdydd a Phenarth. Roedd nifer o gynrychiolaethau hefyd yn nodi bod yr etholaeth bresennol o fewn yr amrediad etholiadol statudol.
- 19.8 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn datgan, er mwyn cadw etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth, y byddai angen i'r Comisiwn amharu ar y cynigion ar gyfer etholaethau arfaethedig eraill yn ne-ddwyrain Cymru, ac na fyddai unrhyw aildrefnu'n adlewyrchu'r meini prawf statudol a amlinellwyd yn y Ddeddf yn well na'r cynigion cychwynnol. Yn ogystal, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi cynnwys Penarth gyda Bro Morgannwg. Tynnodd y cynrychiolaethau sylw at y ffaith bod Penarth o fewn ardal prif gyngor Bro Morgannwg ac yn cael ei gwasanaethu gan Fro Morgannwg, a bod ganddi gysylltiadau hen sefydledig â'r ardal.
- 19.9 Yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol, cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol aildrefnu etholaethau Gogledd Caerdydd a De a Dwyrain Caerdydd, fel y cynigiwyd gan y Comisiwn, yn seiliedig ar ddalgylchoedd a data cyfrifiad. Ysgogodd y gynrychiolaeth hon ymatebion yn ystod yr ail ymgynghoriad, wrth i gynrychiolaethau fynegi pryder ynglŷn â symud ward Y Mynydd Bychan o etholaeth Gogledd Caerdydd. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn amlygu cysylltiadau Gabalfa â wardiau etholiadol de Caerdydd, fel Cathays, a ward etholiadol Y Mynydd Bychan i'r gogledd.
- 19.10 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad na allent gefnogi cadw etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth oherwydd byddai cadw'r etholaeth bresennol yn golygu bod angen i un etholaeth yng Nghaerdydd o leiaf gynnwys nifer o wardiau etholiadol o'r tu allan i Ddinas a Sir Caerdydd.
- 19.11 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, cytunodd y Comisiwn â'r Comisiynwyr Cynorthwyol na ddylai argymhell cadw etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth. Roedd y cynigion cychwynnol yn cynnig cyfuno'r wardiau etholiadol o fewn ardal awdurdod lleol Dinas a Sir Caerdydd yn gyfan gwbl o fewn tair etholaeth. Roedd y Comisiwn yn parhau i gredu bod yr ymagwedd honno'n un gadarn, gan ei bod yn adlewyrchu ffiniau llywodraeth leol, cysylltiadau lleol presennol ac, i raddau

helaeth, etholaethau presennol. Roedd y Comisiwn o'r farn y dylai etholaeth arfaethedig De a Dwyrain Caerdydd gael ei ffurfio o wardiau etholiadol o un ardal awdurdod lleol, sef Dinas a Sir Caerdydd. Roedd y Comisiwn yn cytuno â'r argymhelliad a wnaed gan y Comisiynwyr Cynorthwyol, sef y dylai ward etholiadol Gabalfa gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig De a Dwyrain Caerdydd, bod ganddi gysylltiadau â ward etholiadol Cathays, a bod yr A48 i'r gogledd o ward etholiadol Gabalfa yn darparu ffin y gellir ei hadnabod yn rhwydd. Roedd y Comisiwn o'r farn y dylai'r wardiau etholiadol sy'n ffurfio Penarth, a oedd o fewn ardal awdurdod lleol Bro Morgannwg, gael eu cynnwys o fewn etholaeth wedi'i ffurfio o wardiau etholiadol o'r ardal awdurdod lleol honno.

19.12 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth fwrdeistrefol o'r canlynol:

19.12 a. Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff Central a Dinas a Sir Caerdydd, sef Adamsdown (5,044), Cathays (7,176), Penylan (9,188) a Phlasnewydd (9,421);

19.12 b. y ward etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff North a Dinas a Sir Caerdydd, sef Gabalfa (4,045); a'r

19.12 c. wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth a Dinas a Sir Caerdydd, sef Butetown (6,524), Llanrhymni (7,387), Tredelerch (6,304), y Sblot (8,454) a Trowbridge (10,585).

19.13 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,128 o etholwyr, sydd 0.9% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

19.14 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn erbyn symud Penarth o etholaeth Caerdydd unwaith eto. Roedd y cynrychiolaethau'n dadlau bod gan y dref gysylltiadau cryf â Chaerdydd yn economaidd, yn ddaearyddol ac yn ddiwylliannol. Roedd y cynrychiolaethau hefyd yn pwysleisio bod yr etholaeth bresennol o fewn yr amrediad etholiadol statudol ac felly y gellid ei chadw. Yn ogystal, roedd y cynrychiolaethau'n pwysleisio diffyg cysylltiadau â Bro Morgannwg. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn cefnogi'r ymagwedd o gael tair etholaeth wedi'u ffurfio, i bob pwrpas, o wardiau o fewn ardal awdurdod lleol Dinas a Sir Caerdydd.

19.15 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau. Ystyriodd y Comisiwn y wardiau etholiadol sy'n ffurfio Penarth unwaith eto. Roedd y Comisiwn yn parhau i gredu bod yr ymagwedd o ddarparu tair etholaeth wedi'u ffurfio, i bob pwrpas, o wardiau o un ardal awdurdod lleol, hynny yw Dinas a Sir Caerdydd, yn un gadarn am y rhesymau a roddwyd ym mharagraff 7.11 adran 5. Mae'n rhaid bod un eithriad mewn perthynas â ward etholiadol Ffynnon Taf, sydd wedi'i chynnwys yn etholaeth argymelledig Gorllewin Caerdydd am y rhesymau a roddwyd uchod. Mae etholaeth arfaethedig De a Dwyrain Caerdydd wedi'i ffurfio o wardiau etholiadol o un ardal awdurdod lleol, sef Dinas a Sir Caerdydd. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol i'r wardiau etholiadol sy'n ffurfio Penarth gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Bro Morgannwg. Maen nhw o fewn ardal awdurdod lleol Bro Morgannwg ac mae etholaeth arfaethedig Dwyrain Bro Morgannwg wedi'i ffurfio'n


COMISIWN FFINIAU I GYMRU

gyfan gwbl o wardiau o ardal awdurdod lleol Bro Morgannwg. Mae'r Comisiwn yn parhau i gredu bod etholaeth argymelledig De a Dwyrain Caerdydd, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal hon, yn bodloni'r meini prawf statudol orau yn gyffredinol.

Enw

- 19.16 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Cardiff South and East. Yr enw arall a argymhellir yw De a Dwyrain Caerdydd.
- 19.17 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Cardiff South and East (De a Dwyrain Caerdydd).

Cardiff South and East (De a Dwyrain Caerdydd)



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

20 Vale of Glamorgan East (Dwyrain Bro Morgannwg)

Argymhelliad

20.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

20.1.a Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth a Bro Morgannwg, sef Cornerswell (3,885), Llandochau (1,454), Plymouth (4,419), St. Augustine's (4,913), Stanwell (3,178) ac Y Y Sili (3,531); a'r

20.1.b wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Vale of Glamorgan a Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, sef Baruc (4,636), Buttrills (4,175), Cadoc (6,842), Castleland (3,096), Y Cwrt (3,031), Bont-faen (4,997), Dinas Powys (6,139), Dyfan (3,983), Gibbonsdown (3,646), Illtyd (5,951), Llanbedr-y-fro (1,828), Y Rhws (5,158) a Gwenfô (2,122).

20.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,984 o etholwyr, sydd 3% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

20.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Vale of Glamorgan East. Yr enw arall a argymhellir yw Dwyrain Bro Morgannwg.

20.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

20.4.a Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Cardiff South and Penarth gyfanswm o 72,392 o etholwyr, sydd 3% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 2% yn uwch na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

20.4.b Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Vale of Glamorgan gyfanswm o 69,673 o etholwyr, sydd 7% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 2% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

20.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

20.5.a Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth a Bro Morgannwg, sef Cornerswell (3,885), Llandochau (1,454), Plymouth (4,419), St. Augustine's (4,913), Stanwell (3,178) a Y Sili (3,531); a'r

20.5.b wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Vale of Glamorgan a Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, sef Baruc (4,636), Buttrills (4,175), Cadoc (6,842), Castleland (3,096), Y Cwrt (3,031), Bont-faen (4,997), Dinas Powys (6,139), Dyfan (3,983), Gibbonsdown (3,646), Illtyd (5,951), Llanbedr-y-fro (1,828), Y Rhws (5,158) a Gwenfô (2,122).

- 20.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,984 o etholwyr, sydd 3% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Vale of Glamorgan East. Yr enw arall oedd Dwyrain Bro Morgannwg.
- 20.7 Ni chafodd y Comisiwn lawer o gynrychiolaethau ynglŷn â'r cynnig cychwynnol ar gyfer Dwyrain Bro Morgannwg. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau ynglŷn ag etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth, fel y trafodwyd yn flaenorol ym mharagraffau 19.7 i 19.9 adran 5. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd yn datgan y gallai wardiau etholiadol Sain Tathan a'r Bont-faen gael eu cynnwys yn etholaethau arfaethedig Dwyrain Bro Morgannwg, a Phen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg, yn ôl eu trefn.
- 20.8 Ni argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol unrhyw newid i'r cynnig cychwynnol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon. Ni allent gefnogi cynnwys y wardiau sy'n ffurfio Penarth yn etholaeth arfaethedig De a Dwyrain Caerdydd, fel yr esboniwyd ym mharagraff 19.10 adran 5.
- 20.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, penderfynodd y Comisiwn gynnig etholaeth fel y'i disgrifiwyd yn y cynnig cychwynnol. Cytunodd y Comisiwn nad oedd yn bosibl cynnwys wardiau o'r etholaeth arfaethedig hon yn etholaeth arfaethedig De a Dwyrain Caerdydd am y rhesymau a roddwyd ym mharagraff 19.11 adran 5. Roedd y Comisiwn yn fodlon bod yr etholaeth a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol yn adlewyrchu'r meini prawf statudol orau.
- 20.10 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 20.10.a Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth a Bro Morgannwg, sef Cornerswell (3,885), Llandochau (1,454), Plymouth (4,419), St. Augustine's (4,913), Stanwell (3,178) a Y Sili (3,531); a'r
- 20.10.b wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Vale of Glamorgan a Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, sef Baruc (4,636), Buttrills (4,175), Cadoc (6,842), Castleland (3,096), Y Cwrt (3,031), Bont-faen (4,997), Dinas Powys (6,139), Dyfan (3,983), Gibbonsdown (3,646), Illtyd (5,951), Llanbedr-y-fro (1,828), Y Rhws (5,158) a Gwenfô (2,122).
- 20.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,984 o etholwyr, sydd 3% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.
- 20.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn erbyn cynnwys wardiau o etholaeth bresennol Vale of Glamorgan mewn dwy etholaeth. Roedd y cynrychiolaethau'n awgrymu y byddai cyfuno ardaloedd gwledig Bro Morgannwg â Phen-y-bont yn niweidiol i drigolion yr ardaloedd gwledig hynny ac nad oedd ganddynt unrhyw gysylltiadau cyffredin â Phen-y-bont. Roedd cynrychiolaethau a gafwyd gan y Comisiwn yn datgan bod yr ardal a oedd yn cynnwys ward etholiadol Llandw/Ewenni, Siginstone (yn ward etholiadol Llanilltud Fawr), a'r Wig (yn ward etholiadol Saint-y-Brid) yn edrych tuag at Bont-faen yn hytrach na Phen-y-bont ar gyfer ei


gweithgareddau cymdeithasol ac economaidd. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn dadlau bod gan dref Penarth gysylltiadau economaidd, daearyddol a diwylliannol cryf â Chaerdydd, ac y dylai gael ei chynnwys mewn etholaeth yng Nghaerdydd. Roedd y cynrychiolaethau hefyd yn pwysleisio diffyg nodweddion cyffredin â Bro Morgannwg, fel y cynigiwyd gan y Comisiwn. Yn ogystal, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi etholaethau arfaethedig Dwyrain Bro Morgannwg, a Phen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg a gynigiwyd gan y Comisiwn. Roedd y cynrychiolaethau'n awgrymu bod etholaeth arfaethedig Dwyrain Bro Morgannwg yn gwneud synnwyr yn ddaearyddol a bod Penarth o fewn ardal awdurdod lleol Bro Morgannwg.

- 20.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau. Roedd y Comisiwn yn parhau i gredu ei bod yn briodol cynnwys y wardiau sy'n ffurfio Penarth yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Bro Morgannwg yn hytrach na chynnwys y wardiau hynny mewn etholaeth yng Nghaerdydd, fel yr esboniwyd ym mharagraff 19.11 adran 5. Nododd y Comisiwn na fyddai'n bosibl cynnwys wardiau etholiadol ychwanegol fel Llandw/Ewenni, na Llanilltud Fawr neu Saint-y-Brid yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Bro Morgannwg oherwydd byddai nifer yr etholwyr yn yr etholaeth arfaethedig hon yn fwy na'r amrediad etholiadol statudol. Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod etholaeth argymelledig Dwyrain Bro Morgannwg, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal hon, yn bodloni'r meini prawf statudol orau yn gyffredinol.

Enw

- 20.14 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Vale of Glamorgan East. Yr enw arall a argymhellir yw Dwyrain Bro Morgannwg.
- 20.15 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Vale of Glamorgan East (Dwyrain Bro Morgannwg).

Vale of Glamorgan East (Dwyrain Bro Morgannwg)



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

21 Bridgend and Vale of Glamorgan West (Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg)

Argymhelliad

21.1 Mae'r Comisiwn yn argymell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 21.1.a Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Bridgend a Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sef Bracla (7,934), Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr (6,305), Cefn Glas (1,237), Coety (1,708), Corneli (5,101), Llangrallo Isaf (1,131), Litchard (1,715), Llangewydd a Brynhyfryd (1,831), Morfa (3,080), y Castellnewydd (4,010), Newton (2,901), Notais (2,750), Ye Herngastell (3,530), Pendre (1,321), Pen-y-fai (1,828), Canol Dwyrain Porthcawl (2,518), Canol Gorllewin Porthcawl (2,775), Y Pil (5,331) a Rest Bay (1,926);**
- 21.1.b y ward etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Ogmore a Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sef Cefn Cribwr (1,088); a'r**
- 21.1.c wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Vale of Glamorgan a Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, sef Llandw/Ewenni (2,061), Llanilltud Fawr (7,502), Sain Tathan (2,412) a Saint-y-Brid (2,097).**

21.2 Byddai gan yr etholaeth hon 74,092 o etholwyr, sydd 0.9% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

21.3 Mae'r Comisiwn yn argymell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Bridgend and Vale of Glamorgan West. Yr enw arall a argymhellir yw Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg.

21.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

- 21.4.a Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Bridgend gyfanswm o 58,932 o etholwyr, sydd 21% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 17% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.**
- 21.4.b Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Ogmore gyfanswm o 54,614 o etholwyr, sydd 27% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 23% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.**
- 21.4.c Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Vale of Glamorgan gyfanswm o 69,673 o etholwyr, sydd 7% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 2% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.**

Cefndir

21.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

21.5.a Etholaeth Sirol bresennol gyfan Bridgend; a'r

21.5.b wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Vale of Glamorgan a Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, sef Llandw/Ewenni (2,061), Llanilltud Fawr (7,502), Sain Tathan (2,412) a Saint-y-Brid (2,097).

21.6 Byddai gan yr etholaeth hon 73,004 o etholwyr, sydd 2.4% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Bridgend and Vale of Glamorgan West. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg.

21.7 Ni chafodd y Comisiwn lawer o gynrychiolaethau ynglŷn â'r cynnig cychwynnol ar gyfer Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth gan Blaid Lafur Etholaeth Ogwr a oedd yn cyfeirio at y cysylltiadau cryf sydd gan Gefn Cribwr, Ynysawdre, ac Abercynffig ag etholaeth bresennol Ogmores, gan ddweud, *"Mae gan yr ardaloedd hyn gysylltiadau hirsefydlog trwy gyflogaeth a diwydiant, yn ogystal â thrafnidiaeth gyhoeddus, diwylliant, gwasanaethau iechyd a darpariaeth addysgol, sy'n golygu bod y cymunedau hyn nid yn unig yn rhannu cysylltiadau daearyddol a hanesyddol hirsefydlog ond yn dibynnu ar wasanaethau cyhoeddus a rennir hefyd."*

21.8 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn mynegi barn wrthgyferbyniol hefyd, drwy honni bod gan y wardiau hyn gysylltiad naturiol â thref a sir Pen-y-bont ac y dylent gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth hefyd gan y Blaid Democratiaid Rhyddfrydol a oedd yn awgrymu y dylai wardiau Hendre a Felindre gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon.

21.9 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylai etholaeth Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg gynnwys wardiau Abercynffig, Cefn Cribwr, ac Ynysawdre *"...oherwydd bod gan y wardiau hynny gysylltiadau cymdeithasol ac economaidd lleol â Phen-y-bont ... yr ystyriwn na ddylent gael eu torri, ac oherwydd bod y newid argymelledig hwnnw'n caniatáu am drefniant gwell ar gyfer etholaeth arfaethedig Ogwr a Phort Talbot trwy osgoi gwahanu Aberafan a Phort Talbot ar yr un pryd â sicrhau bod y ddwy etholaeth yn aros o fewn yr amrediad etholiadol statudol."*

21.10 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, cytunodd y Comisiwn â'r Comisiynwyr Cynorthwyol y dylai ward Cefn Cribwr gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig. Nid oedd y Comisiwn yn cytuno â'r argymhellion eraill a wnaed gan y Comisiynwyr Cynorthwyol. Roedd y Comisiwn o'r farn bod gan wardiau etholiadol Abercynffig ac Ynysawdre gysylltiadau cymunedol cryf â wardiau Bryncethin a Sarn, ac felly y dylent gael eu cynnwys yn yr un etholaeth â wardiau Bryncethin a Sarn. Roedd y Comisiwn yn fodlon bod y cynigion cychwynnol, a ddiwygiwyd fel y disgrifiwyd, yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well yn gyffredinol.

21.11 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:


21.11.a Etholaeth Sirol bresennol gyfan Bridgend;

- 21.11.b y ward etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Ogmores a Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sef Cefn Cribwr (1,088); a'r
- 21.11.c wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Vale of Glamorgan a Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, sef Llandw/Ewenni (2,061), Llanilltud Fawr (7,502), Sain Tathan (2,412) a Saint-y-Brid (2,097).
- 21.12 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,092 o etholwyr, sydd 0.9% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.
- 21.13 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn erbyn rhannu wardiau o fewn etholaeth bresennol Vale of Glamorgan rhwng dwy etholaeth wahanol. Roedd y cynrychiolaethau'n awgrymu y byddai cyfuno ardaloedd gwledig Bro Morgannwg â Phen-y-bont yn niweidiol i drigolion yr ardaloedd gwledig hynny ac nad oedd ganddynt unrhyw gysylltiadau cyffredin â Phen-y-bont. Cyfeiriwyd at hyn mewn cynrychiolaethau a gafwyd gan y Comisiwn a oedd yn datgan bod yr ardal a oedd yn cynnwys ward etholiadol Llandw/Ewenni, Siginstone (yn ward etholiadol Llanilltud Fawr), a'r Wig (yn ward etholiadol Saint-y-Brid) yn edrych tuag at Bont-faen yn hytrach na Phen-y-bont ar gyfer ei gweithgareddau cymdeithasol ac economaidd.
- 21.14 Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi'r etholaeth arfaethedig hon ac etholaeth arfaethedig Dwyrain Bro Morgannwg hefyd. Yn ogystal, cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth a oedd yn dadlau y dylai wardiau etholiadol Abercynffig, Bryncethin, Bryncoch, Sarn, ac Ynysawdre gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon. Roedd y gynrychiolaeth yn cyfeirio at y cysylltiadau economaidd, daearyddol, a chymdeithasol y dywedwyd eu bod yn bodoli rhwng y wardiau hyn a Phen-y-bont.
- 21.15 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a wnaed. Roedd y Comisiwn yn parhau i gredu ei bod yn briodol cynnwys y wardiau sy'n ffurfio Penarth yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Bro Morgannwg yn hytrach na chynnwys y wardiau hynny mewn etholaeth yng Nghaerdydd, fel yr esboniwyd ym mharagraff 19.11 adran 5. Nododd y Comisiwn na fyddai'n bosibl wedyn i gynnwys wardiau etholiadol ychwanegol fel Llandw/Ewenni, Llanilltud Fawr, na Saint-y-Brid yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Bro Morgannwg oherwydd byddai nifer yr etholwyr yn yr etholaeth arfaethedig hon yn fwy na'r amrediad etholiadol statudol. Nododd y Comisiwn y byddai cynnwys wardiau Abercynffig, Bryncethin, Bryncoch, Sarn ac Ynysawdre yn yr etholaeth arfaethedig hon hefyd yn golygu y byddai nifer yr etholwyr yn yr etholaeth arfaethedig hon yn fwy na'r amrediad etholiadol statudol, ac felly y byddai nifer yr etholwyr yn etholaeth arfaethedig Ogwr ac Aberafan yn is na'r amrediad etholiadol statudol. At hynny, mae mwyafrif y wardiau sy'n ffurfio etholaeth bresennol Ogmores wedi'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig Ogwr ac Aberafan, ac mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol cynnwys y pum ward hyn, sydd hefyd o fewn etholaeth Ogmores, yn etholaeth arfaethedig Ogwr ac Aberafan yn hytrach na'r etholaeth arfaethedig hon. Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod etholaeth argymelledig Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal hon, yn bodloni'r meini prawf statudol orau yn gyffredinol.

Enw

- 21.16 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Bridgend and Vale of Glamorgan West. Yr enw arall a argymhellir yw Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg.
- 21.17 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Bridgend and Vale of Glamorgan West (Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg).

Bridgend and Vale of Glamorgan West (Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg)



(H) Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

22 Ogmore and Aberavon (Ogwr ac Aberafan)

Argymhelliad

22.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

22.1.a Y wardiau etholiadol yn Etholaeth Sirol bresennol Ogmore a:

- i. Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sef Abercynffig (1,692), Betws (1,536), Melin Ifan Du (1,870), Blaengarw (1,260), Bryncethin (995), Bryncoch (1,652), Caerau (4,593), Felindre (2,046), Hendre (2,985), Llangeinor (846), Llangynwyd (2,330), Dwyrain Maesteg (3,536), Gorllewin Maesteg (4,185), Nant-y-Moel (1,657), Bro Ogwr (2,193), Penprysg (2,337), Pontycymer (1,648), Sarn (1,748) ac Ynysawdre (2,555); a
- ii. Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Brynna (3,264), Gilfach Goch (2,411), a Llanharan (2,610); a'r

22.1.b wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Aberavon a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sef Aberafan (3,887), Baglan (5,128), Margam (2,197), Port Talbot (4,052), Dwyrain Sandfields (4,850) Gorllewin Sandfields (4,745) a Thai-bach (3,557).

22.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 78,365 o etholwyr, sydd 4.8% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

22.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Ogmore and Aberavon. Yr enw arall a argymhellir yw Ogwr ac Aberafan.

22.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

22.4.a Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Ogmore gyfanswm o 54,614 o etholwyr, sydd 27% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 23% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

22.4.b Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Aberavon gyfanswm o 48,346 o etholwyr, sydd 35% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 32% lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

22.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

22.5.a Etholaeth Sirol bresennol gyfan Ogmore; a'r

22.5.b wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Aberavon a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sef Bryn a Chwmafan (5,018), y Cymer (2,015), Glyncorrwg (792), Gwynfi (895), Margam (2,197), Port Talbot (4,052) a Thai-bach (3,557).

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

- 22.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,503 o etholwyr, sydd 3% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Ogmored and Port Talbot. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Ogwr a Phort Talbot.
- 22.7 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn awgrymu bod gan y wardiau etholiadol sy'n ffurfio Aberafan a Phort Talbot gysylltiad cryf â'i gilydd ac y dylent gael eu cynnwys yn yr un etholaeth. Cefnogwyd y cynrychiolaethau hyn gan gynrychiolaethau a wnaed yn y gwrandawiadau cyhoeddus a deiseb yn cynnwys 537 o lofnodion. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn datgan y byddai'n fwy priodol i ward etholiadol Cefn Cribwr gael ei chynnwys mewn etholaeth ym Mhen-y-bont. Roedd y gynrychiolaeth yn datgan bod Cefn Cribwr bob amser wedi cael ei hystyried yn rhan o Ben-y-bont. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth a oedd yn cyfeirio at y ffaith bod Llanhari o fewn ardal prif gyngor Rhondda Cynon Taf a bod ganddi gysylltiadau â wardiau yn yr ardal honno, sy'n golygu ei bod yn fwy priodol ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Pontypridd neu'r Rhondda.
- 22.8 Cafodd y Comisiwn gynnig ynghylch trefniant amgen ar gyfer yr etholaethau arfaethedig gan Blaid Lafur Etholaeth Aberafan (ACLP), a gefnogwyd gan yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Aberafan. Roedd y gynrychiolaeth o'r farn y dylai wardiau etholiadol Aberafan a Phort Talbot gael eu cynnwys yn yr un etholaeth o ganlyniad i'w cysylltiadau hanesyddol ac etholaethau arfaethedig wedi'u seilio ar yr ystiriaeth hon. Roedd y dewisiadau amgen a gynigiwyd hefyd yn cynnwys wardiau eraill, megis Corneli, Newton, Notais, Canol Dwyrain Porthawl, Canol Gorllewin Porthcawl, y Pîl a Rest Bay yn yr etholaeth arfaethedig hon.
- 22.9 Ystyriodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y nifer fawr o gynrychiolaethau a dderbyniwyd, a chytunasant y dylai'r wardiau etholiadol sy'n ffurfio Aberafan a Phort Talbot gael eu cynnwys yn yr un etholaeth, *"Roedd casgliad cryf iawn o gynrychiolaethau yn y gwrandawiadau ac yn ysgrifenedig a oedd yn datgan y byddai'r cynigion cychwynnol yn rhannu tref Port Talbot yn ddwy, a bod ardal Port Talbot ac Aberafan yn ffurfio un gymuned na ddylid ei rhannu rhwng dwy etholaeth am resymau hanesyddol, cymdeithasol ac economaidd."*
- 22.10 Ystyriodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y trefniadau amgen a gynigiwyd gan yr ACLP, ond nid oeddent o'r farn eu bod yn darparu'r etholaethau mwyaf priodol yn ardal de-orllewin Cymru. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad y dylai wardiau etholiadol Bryn a Chwmafan, y Cymer, Glyncorrwg, a Gwynfi (sydd yng Nghwm Afan) gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd, ac y dylai wardiau etholiadol Abercynffig, Cefn Cribwr ac Ynysawdre gael eu cynnwys yn etholaeth Pen-y-bont, fel y trafodwyd ym mharagraff 21.9 adran 5.
- 22.11 Ar ôl ystyried yr holl gynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, derbyniodd y Comisiwn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, sef y dylai wardiau etholiadol Aberafan, Baglan, Dwyrain Sandfields, a Gorllewin Sandfields (wardiau Aberafan) gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon, ynghyd â wardiau etholiadol Margam, Port Talbot a Thai-bach (wardiau Port Talbot). Cytunodd y Comisiwn hefyd y dylai Cefn Cribwr gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg,

ond roedd o'r farn y dylai Abercynffig ac Ynysawdre gael eu cynnwys gyda Bryncethin, a Sarn yn etholaeth arfaethedig Aberafan ac Ogwr oherwydd eu cysylltiadau â'r wardiau hynny, fel y trafodwyd ym mharagraff 21.10 adran 5.

22.12 Roedd y Comisiwn o'r farn ei bod yn fwy priodol cynnwys ward etholiadol Llanhari yn etholaeth arfaethedig Rhondda a Llantrisant i osgoi torri cysylltiadau rhwng y ward honno a wardiau sydd wedi'u cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig honno. Yn ogystal, nododd y Comisiwn fod cynnwys ward Llanhari yn etholaeth arfaethedig Rhondda a Llantrisant yn galluogi'r Comisiwn i wneud newidiadau i etholaethau eraill yn yr ardal sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well yn gyffredinol, ar yr un pryd â sicrhau bod yr etholaethau arfaethedig yn dod o fewn yr amrediad etholiadol statudol. Ystyriodd y Comisiwn y trefniadau amgen a gynigiwyd gan yr ACLP. Fodd bynnag, nid oedd y Comisiwn yn credu bod y trefniadau amgen hyn yn arwain at etholaethau a oedd yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well, yn gyffredinol, na'r cynigion cychwynnol, wedi'u diwygio yn y ffordd a ddisgrifiwyd.

22.13 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:

22.13.a Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Ogmore a:

- i. Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sef Abercynffig (1,692), Betws (1,536), Melin Ifan Du (1,870), Blaengarw (1,260), Bryncethin (995), Bryncoch (1,652), Caerau (4,593), Felindre (2,046), Hendre (2,985), Llangeinor (846), Llangynwyd (2,330), Dwyrain Maesteg (3,536), Gorllewin Maesteg (4,185), Nant-y-Moel (1,657), Bro Ogwr (2,193), Penprysg (2,337), Pontycymer (1,648), Sarn (1,748) ac Ynysawdre (2,555); a'r
- ii. wardiau etholiadol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Brynna (3,264), Gilfach Goch (2,411), a Llanharan (2,610); a'r

22.13.b wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Aberavon a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sef Aberafan (3,887), Baglan (5,128), Margam (2,197), Port Talbot (4,052), Dwyrain Sandfields (4,850) Gorllewin Sandfields (4,745) a Thai-bach (3,557).

22.14 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 78,365 o etholwyr, sydd 4.8% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

22.15 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi penderfyniad y Comisiwn i ddiwygio'r cynigion cychwynnol i gynnwys wardiau etholiadol Aberafan a Phort Talbot yn yr un etholaeth arfaethedig, fel y trafodwyd ym mharagraff 22.11 adran 5 uchod. Cafwyd cynrychiolaethau hefyd gan yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Aberavon a oedd yn honni y dylai wardiau etholiadol Bryn a Chwmafan, y Cymer, Glyncorrwg, a Gwynfi gael eu cynnwys yn yr un etholaeth hefyd o ganlyniad i'r cysylltiadau sy'n bodoli yn yr ardal. Roedd y cynrychiolaethau hefyd yn honni y dylai wardiau etholiadol Corneli, Newton, Notais, Canol Dwyrain Porthcawl, Canol Gorllewin Porthcawl, y Pîl a Rest Bay gael eu cynnwys yn yr un etholaeth er mwyn aduno cymunedau a fu'n rhan o etholaeth Aberavon yn flaenorol.

Roedd yr Aelod Seneddol dros Aberafan wedi annog y Comisiwn i ystyried y cynigion a gyflwynwyd gan yr ACLP eto. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth hefyd a oedd yn datgan y dylai wardiau Abercynffig, Bryncethin, Bryncoch, Sarn, ac Ynysawdre gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg, ac nid yn yr etholaeth arfaethedig hon. Mae'r cynrychiolaethau'n dadlau bod gan yr ardal gysylltiadau cryf â Phen-y-bont.

22.16 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau, gan gynnwys cynrychiolaethau gan yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Aberavon, ac ystyriodd y cynigion a gyflwynwyd gan yr ACLP eto. Daeth y Comisiwn i'r casgliad na fyddai'r trefniadau a gynigiwyd yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r etholaeth arfaethedig a ddisgrifiwyd yng nghynigion diwygiedig y Comisiwn, ac y byddai'r trefniadau amgen yn cael effeithiau canlyniadol niweidiol ar nifer o etholaethau arfaethedig eraill. Er enghraifft, byddai symud wardiau Cwmafan, y Cymer, Glyncorrwg, a Gwynfi o etholaeth arfaethedig Castell-nedd yn golygu y byddai angen cynnwys wardiau etholiadol eraill er mwyn sicrhau bod etholaeth arfaethedig Castell-nedd yn dod o fewn yr amrediad etholiadol statudol. Mae'r cynrychiolaethau'n cydnabod hyn ac yn cynnig cynnwys wardiau etholiadol o ardal awdurdod lleol Powys. Byddai hynny'n golygu y byddai etholaeth arfaethedig Castell-nedd wedi'i ffurfio o wardiau etholiadol o ddwy ardal awdurdod lleol, tra bod etholaeth arfaethedig y Comisiwn ar gyfer Castell-nedd yn cynnwys wardiau o un ardal awdurdod lleol. Mae'r Comisiwn hefyd yn nodi y byddai'r cynnig yn golygu y byddai'r wardiau etholiadol yn etholaeth bresennol Brecon and Radnorshire, sydd wedi'i chynnwys yn gyfan gwbl o fewn un etholaeth arfaethedig (Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn) yn rhan o'i gynigion, yn cael ei rhannu rhwng dwy etholaeth arfaethedig o dan y cynigion amgen. At hynny, argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylai wardiau Bryn a Chwmafan, y Cymer, Glyncorrwg, a Gwynfi gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd oherwydd bod ganddynt gysylltiadau lleol â'r wardiau yn yr etholaeth arfaethedig honno.

22.17 Mae'r Comisiwn yn nodi bod wardiau etholiadol Corneli, Newton, Notais, Canol Dwyrain Porthcawl, Canol Gorllewin Porthcawl, y Pîl a Rest Bay o fewn etholaeth bresennol Bridgend, a chynigir cynnwys yr etholaeth gyfan honno yn etholaeth argymelledig Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg, sy'n adlewyrchu ffiniau etholaethau presennol yn well na'r dewis amgen a gynigiwyd, a fyddai'n golygu rhannu wardiau yn etholaeth bresennol Pen-y-bont rhwng dwy etholaeth. O ran wardiau Abercynffig, Bryncethin, Bryncoch, Sarn, ac Ynysawdre, mae mwyafrif y wardiau etholiadol sy'n ffurfio etholaeth bresennol Ogmored wedi'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig Ogwr ac Aberafan, ac mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol cynnwys y pum ward hyn, sydd hefyd o fewn etholaeth bresennol Ogmored, yn etholaeth arfaethedig Ogwr ac Aberafan. Mae'r Comisiwn yn fodlon bod etholaeth argymelledig Ogwr ac Aberafan, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal hon, yn bodloni'r meini prawf statudol orau yn gyffredinol.

Enw


22.18 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Ogmored and Aberavon. Yr enw arall a argymhellir yw Ogwr ac Aberafan.

22.19 Yn wreiddiol, cynigiodd y Comisiwn yr enw Ogmored and Port Talbot (Ogwr a Phort Talbot). Yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn yr enw Ogmored and Aberavon (Ogwr ac

Aberafan), fel yr awgrymwyd gan y Comisiynwyr Cynorthwyol. Roedd yr enw hwnnw'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig fel y'i diwygiwyd. Roedd yr enw hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod yr etholaeth arfaethedig yn cynnwys rhannau sylweddol o ddwy etholaeth bresennol, sef Etholaeth Sirol Ogmored, ac Etholaeth Sirol Aberavon. Cyfeiriodd cynrychiolaethau at y ffaith mai Aberafan yw'r enw cywir Cymraeg. Felly, cynigiodd y Comisiwn yr enw arall Cymraeg, Ogwr ac Aberafan.

- 22.20 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Ogmored and Aberavon (Ogwr ac Aberafan).

Ogmore and Aberavon (Ogwr ac Aberafan)



(H) Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

23 Neath (Castell-nedd)

Argymhelliad

23.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

23.1.a Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Aberavon a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sef Dwyrain Llansawel (2,119), Gorllewin Llansawel (1,977), Bryn a Chwmafan (5,018), Coed-ffranc Ganol (2,733), Gogledd Coed-ffranc (1,752), Gorllewin Coed-ffranc (2,629), Y Cymer (2,015), Glyncorwg (792) a Gwynfi (895); a'r

23.1.b wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Neath a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sef Aberdulais (1,662), Yr Allt-wen (1,903), Blaen-gwrach (1,458), Gogledd Bryn-côch (1,762), De Bryn-côch (4,409), Llangatwg (1,353), Cimla (3,043), Creunant (1,500), Cwmllynfell (894), Dyffryn (2,354), Glyn-nedd (2,578), Godre'r Y Graig (1,452), Gwauncaegurwen (2,171), Brynaman Isaf (1,014), Dwyrain Castell-nedd (4,298), Gogledd Castell-nedd (2,872), De Castell-nedd (3,513), Onllwyn (900), Pelenna (863), Pontardawe (3,936), Resolfen (2,323), Rhos (1,940), Blaendulais (1,527), Tonna (1,885), Trebannws (1,016) ac Ystalyfera (2,065).

23.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,621 o etholwyr, sydd 0.2% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

23.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Neath. Yr enw arall a argymhellir yw Castell-nedd.

23.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

23.4.a Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Neath gyfanswm o 54,691 o etholwyr, sydd 27% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 23% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

23.4.b Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Aberavon gyfanswm o 48,346 o etholwyr, sydd 35% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 32% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

23.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

23.5.a Y wardiau etholiadol yn Etholaeth Sirol bresennol Aberavon a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sef Aberafan (3,887), Baglan (5,128), Dwyrain Llansawel (2,119), Gorllewin Llansawel (1,977), Dwyrain Sandfields (4,850) a Gorllewin Sandfields (4,745); ac

23.5.b Etholaeth Sirol bresennol gyfan Neath.

- 23.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 77,397 o etholwyr, sydd 3.5% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Neath and Aberavon. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Castell-nedd ac Aberafon.
- 23.7 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau ysgrifenedig, yn ogystal â chynrychiolaethau yn y gwrandawiadau cyhoeddus, yn datgan y byddai'n fwy priodol i dair ward etholiadol Coed-ffranc (hynny yw, Canol Coed-ffranc, Gogledd Coed-ffranc, a Gorllewin Coed-ffranc), a oedd wedi'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe yn y cynigion cychwynnol, gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd. Er enghraifft, yn ôl un gynrychiolaeth *"... mae wardiau Coed-ffranc sy'n ffurfio tref Sgiwen yn bennaf yn edrych tuag at Gastell-nedd ar gyfer eu hanghenion siopa, cymdeithasol, ac economaidd yn hytrach nag Abertawe... [ac yn gyfan gwbl] o fewn ardal awdurdod lleol unedol Castell-nedd Port Talbot."* Roedd cynrychiolaeth arall gan gyn-gynghorydd lleol wedi mynegi'r farn bod *"...cynnwys [Coed-ffranc] yn etholaeth Aberavon yn hytrach na Neath wedi bod yn asgwrn cynnen ers tro, ac mae'n dal i godi gwrychyn pobl. Byddai symud i etholaeth y tu allan i'r fwrdeistref sirol yn gyfan gwbl yn gwneud pethau'n waeth o lawer."*
- 23.8 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth gan Blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a oedd yn cynnig trefniadau amgen, trwy awgrymu symud wardiau etholiadol Coed-ffranc o etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe a'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd ac Aberafan. Roedd y trefniadau amgen a gynigiwyd gan Blaid Lafur Etholaeth Aberafan (ACLP) yn cytuno ei bod yn fwy priodol i wardiau etholiadol Coed-ffranc gael eu lleoli yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd. Yn ogystal, cynigiodd yr ACLP y dylai wardiau etholiadol Bryn a Chwmafan, y Cymer, Glyncorrwg, a Gwynfi gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Aberafan ac y dylai pum ward etholiadol o ardal awdurdod lleol Powys, sef Aber-craf, Cwm-Twrch, Tawe Uchaf, Ynyscedwyn, ac Ystradgynlais, gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd er mwyn sicrhau bod nifer yr etholwyr yn yr etholaeth arfaethedig hon yn dod o fewn yr amrediad etholiadol statudol.
- 23.9 Ystyriodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y trefniadau amgen a gynigiwyd gan yr ACLP a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, a gwnaethant gynnig cynnwys wardiau etholiadol Coed-ffranc yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd. Nid oeddent yn cytuno bod cyfiawnhad dros gynnwys wardiau etholiadol o ardal awdurdod lleol Powys yn yr etholaeth arfaethedig hon. Yn lle hynny, argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol ei bod yn fwy priodol i bedair ward etholiadol sydd o fewn ardal awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot, ac yr oeddent yn credu bod ganddynt gysylltiadau â wardiau yn yr etholaeth arfaethedig hon, gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig.
- 23.10 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, cytunodd y Comisiwn ag argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylai wardiau etholiadol Canol Coed-ffranc, Gogledd Coed-ffranc, a Gorllewin Coed-ffranc, ynghyd â wardiau Bryn a Chwmafan, y Cymer, Glyncorrwg, a Gwynfi, gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon er mwyn osgoi torri cysylltiadau lleol rhwng yr ardaloedd hyn ac ardaloedd eraill sydd wedi'u cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig. Mae'r holl wardiau etholiadol sydd wedi'u cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon yn dod o fewn un ardal llywodraeth leol. Byddai'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys etholaeth bresennol gyfan Neath.

23.11 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:

23.11.a Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Aberavon a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sef Dwyrain Llansawel (2,119), Gorllewin Llansawel (1,977), Bryn a Chwmafan (5,018), Coed-ffranc Ganol (2,733), Gogledd Coed-ffranc (1,752), Gorllewin Coed-ffranc (2,629), Y Cymer (2,015), Glyncorrwg (792) a Gwynfi (895); ac

23.11.b Etholaeth Sirol bresennol gyfan Neath.

23.12 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,621 o etholwyr, sydd 0.2% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

23.13 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi cynnwys tair ward Coed-ffranc yn yr etholaeth arfaethedig hon. Yn ogystal, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn awgrymu y dylai wardiau o Gwm Afan (wardiau etholiadol Bryn a Chwmafan, y Cymer, Glyncorrwg, a Gwynfi) gael eu cynnwys yn yr un etholaeth arfaethedig ag Aberafan o ganlyniad i'r cysylltiadau sy'n bodoli yn yr ardal. Yn lle hynny, cynigiwyd y dylai pum ward etholiadol o ardal awdurdod lleol Powys, sy'n rhan o etholaeth bresennol Brecon and Radnorshire ar hyn o bryd, gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd er mwyn sicrhau bod nifer yr etholwyr yn yr etholaeth arfaethedig hon yn dod o fewn yr amrediad etholiadol statudol. Byddai hynny'n golygu y byddai etholaeth arfaethedig Castell-nedd wedi'i ffurfio o wardiau etholiadol o ddwy ardal awdurdod lleol, tra byddai etholaeth Castell-nedd a argymhellwyd gan y Comisiwn wedi'i ffurfio o wardiau o un ardal awdurdod lleol. At hynny, argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylai pedair ward Cwm Afan gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd oherwydd bod ganddynt gysylltiadau lleol â wardiau yn yr etholaeth arfaethedig honno. Yn fwy cyffredinol, mae'r Comisiwn hefyd yn nodi bod ei gynigion yn golygu y byddai etholaeth bresennol gyfan Brecon and Radnorshire yn cael ei chynnwys o fewn un etholaeth argymelledig (Aberhonddu, Maesfed a Threfaldwyn), tra byddai'r cynigion amgen yn golygu y byddai wardiau etholiadol etholaeth bresennol Brecon and Radnorshire yn cael eu cynnwys mewn dwy etholaeth. Ar ôl ystyried yr holl gynrychiolaethau, ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad ei bod yn briodol i wardiau Bryn a Chwmafan, y Cymer, Glyncorrwg, a Gwynfi gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd. Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod etholaeth argymelledig Castell-nedd, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal, yn bodloni'r meini prawf statudol orau yn gyffredinol.

Enw

23.14 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Neath. Yr enw arall a argymhellir yw Castell-nedd.


23.15 Yn wreiddiol, cynigiodd y Comisiwn yr enw Neath and Aberavon (Castell-nedd ac Aberafan). Oherwydd bod y wardiau etholiadol sy'n ffurfio Aberafan wedi'u cynnwys yn etholaeth ddiwygiedig Ogwr ac Aberafan, cynigiodd y Comisiwn yr enw Neath (Castell-nedd). Mae'r

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

enw hwnnw'n adlewyrchu'r ffaith bod etholaeth bresennol Castell-nedd wedi'i chynnwys yn gyfan gwbl yn yr etholaeth argymelledig hon.

- 23.16 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Neath (Castell-nedd).

Neath (Castell-nedd)



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

24 Swansea East (Dwyrain Abertawe)

Argymhelliad

24.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 24.1.a Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Swansea East a wardiau etholiadol Dinas a Sir Abertawe, sef Bôn-y-maen (4,697), Glandwr (4,472), Llansamlet (10,408), Treforys (11,532), Mynydd-bach (6,429), Penderi (7,146) a St. Thomas (5,020);
- 24.1.b y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Gower a Dinas a Sir Abertawe, sef Clydach (5,525), Llangyfelach (3,803), Mawr (1,305) a Phenlle'r-gaer (2,466); a'r
- 24.1.c ward etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Swansea West a Dinas a Sir Abertawe, sef Castell (8,834).

24.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,637 o etholwyr, sydd 4.2% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

24.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Swansea East. Yr enw arall a argymhellir yw Dwyrain Abertawe.

24.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

- 24.4.a Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Gower gyfanswm o 59,478 o etholwyr, sydd 20% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth ac 16% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 24.4.b Mae gan Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Swansea East gyfanswm o 55,392 o etholwyr, sydd 26% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 22% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 24.4.c Mae gan Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Swansea West gyfanswm o 51,952 o etholwyr, sydd 31% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 27% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

24.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 24.5.a Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol gyfan Swansea East;

- 24.5.b y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Aberavon a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sef Canol Coed-ffranc (2,733), Gogledd Coed-ffranc (1,752) a Gorllewin Coed-ffranc (2,629);
- 24.5.c y ward etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Gower a Dinas a Sir Abertawe, sef Clydach (5,525); a'r
- 24.5.d ward etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Swansea West a Dinas a Sir Abertawe, sef Castell (8,834).
- 24.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,514 o etholwyr, sydd 2.3% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Swansea East. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Dwyrain Abertawe.
- 24.7 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau ysgrifenedig, yn ogystal â chynrychiolaethau yn y gwrandawiadau cyhoeddus, a oedd yn datgan y byddai'n fwy priodol i dair ward etholiadol Coed-ffranc, a oedd wedi'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe yn y cynigion cychwynnol, gael eu lleoli o fewn etholaeth arfaethedig Castell-nedd, fel y trafodwyd ym mharagraff 23.7 adran 5.
- 24.8 Cafodd y Comisiwn gynigion ynglŷn â threfniadau amgen. Roedd un cynnig amgen yn awgrymu y dylai wardiau Llangyfelach, Mawr, a Phenlle'r-gaer gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe yn lle wardiau Coed-ffranc, a hefyd y dylai ward Cwmbwrla gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe, yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe. Cefnogwyd yr awgrym ynglŷn â Chwmbwrla gan y cyn Aelod Cynulliad ar gyfer yr ardal. Roedd cynrychiolaethau eraill yn mynegi'r farn y dylai ward etholiadol Castell gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe yn hytrach na'r etholaeth arfaethedig hon. Roedd cynrychiolaethau eraill yn cynnig y dylai wardiau etholiadol Llangyfelach, Mawr, a Phenlle'r-gaer gael eu cynnwys o fewn etholaeth Llanelli a Chwm Tawe.
- 24.9 Nododd y Comisiynwyr Cynorthwyol y cynrychiolaethau a gafwyd, gan ddatgan, *"mae gan wardiau etholiadol Llangyfelach, a Phenlle'r-gaer gysylltiadau â ward etholiadol Treforys a Mynyddbach sy'n ffurfio rhan o etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe ..."* ac *"...mae preswylwyr Llangyfelach a Phenlle'r-gaer yn edrych tuag at Dreforys a Dinas Abertawe ar gyfer cyflogaeth, ac mae cysylltiadau trafnidiaeth a gwasanaethau rhwng Llangyfelach ac ardaloedd o fewn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe."* Gwnaethant argymhell y dylai'r wardiau hyn gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe er mwyn osgoi torri'r cysylltiadau rhwng y wardiau hyn a wardiau o fewn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad bod, *"Mawr yn ward wledig helaeth yng nghornel ogledd-orllewinol ardal Cyngor Dinas a Sir Abertawe bryd hynny. Mae cysylltiadau trafnidiaeth yn dilyn yr afonydd i Glydach neu Dreforys, felly mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn edrych tuag at Abertawe ar gyfer gwasanaethau. Dyna ble mae'r cysylltiadau lleol."* Felly, gwnaethant argymhell y dylai ward Mawr gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe hefyd.

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

- 24.10 Yn ogystal, argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylai tair ward Coed-ffranc gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd, yn hytrach na'r etholaeth arfaethedig hon, o ystyried y cynrychiolaethau a gafwyd a oedd yn datgan bod gan y wardiau hyn gysylltiadau â Chastell-nedd a'u bod o fewn ardal awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylai ward etholiadol Cwmbwrla gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe, yn hytrach na'r etholaeth arfaethedig hon, oherwydd bod gan y ward honno gysylltiadau â wardiau yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe yn hytrach na'r etholaeth arfaethedig hon.
- 24.11 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, derbyniodd y Comisiwn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylai wardiau Llangyfelach, Mawr, a Phenlle'r-gaer gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon, ac y dylai tair ward Coed-ffranc gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd. Derbyniodd y Comisiwn hefyd argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol ei bod yn briodol i ward etholiadol Cwmbwrla gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe.
- 24.12 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 24.12.a Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Swansea East a wardiau etholiadol Dinas a Sir Abertawe, sef Bonymaen (4,697), Landore (4,472), Llansamlet (10,408), Treforys (11,532), Mynyddbach (6,429), Penderry (7,146) a St. Thomas (5,020);
- 24.12.b y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Gower a Dinas a Sir Abertawe, sef Clydach (5,525), Llangyfelach (3,803), Mawr (1,305), a Phenlle'r-gaer (2,466); a'r
- 24.12.c ward etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Swansea West a Dinas a Sir Abertawe, sef Castell (8,834).
- 24.13 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,637 o etholwyr, sydd 4.2% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.
- 24.14 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau ynglŷn â'r tair etholaeth arfaethedig yn ardal Abertawe a Llanelli. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn awgrymu y dylai wardiau etholiadol Clydach a Mawr gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe yn hytrach na'u cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon. Cyfeiriodd y gynrychiolaeth at y ffaith bod y wardiau yn etholaeth Gower ar hyn o bryd ac wedi ffurfio cysylltiadau o fewn yr etholaeth bresennol honno. Cafwyd cynrychiolaethau a oedd yn cefnogi'r trefniadau amgen a gynigiwyd gan y Blaid Geidwadol i gynnwys wardiau etholiadol Clydach, Llangyfelach, Mawr, a Phenlle'r-gaer o etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe a ward etholiadol Pontybrenin o etholaeth arfaethedig Llanelli yn etholaeth Gŵyr a Gorllewin Abertawe, i gyflawni'r amrediad etholiadol statudol. Mae'r cynnig yn cynnwys wardiau etholiadol Castell, Cwmbwrla, Townhill ac Uplands yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe er mwyn sicrhau bod nifer


yr etholwyr yn y ddwy etholaeth arfaethedig yn dod o fewn yr amrediad etholiadol statudol.

- 24.15 Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau a'r trefniadau amgen a gynigiwyd. Daeth y Comisiwn i'r casgliad ei bod yn briodol i ward etholiadol Pontybrein gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Llanelli ac na ddylai gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod ward Pontybrein yn rhan o etholaeth bresennol Gower. Mae ward etholiadol Pontybrein yn rhan o gymuned Casllwchwr (sydd hefyd yn cynnwys wardiau Casllwchwr Isaf a Chasllwchwr Uchaf). Byddai'r cynigion amgen yn rhannu'r wardiau yn y gymuned hon rhwng dwy etholaeth arfaethedig (etholaethau arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe a Llanelli). Mae ffiniau cymunedol yng Nghymru yn ffiniau llywodraeth leol. Mae cynnwys y tair ward o fewn un gymuned hefyd yn adlewyrchu'r cysylltiadau sy'n bodoli rhwng y wardiau. Byddai rhannu'r gymuned, felly, trwy gynnwys ward Pontybrein mewn un etholaeth arfaethedig a wardiau eraill mewn etholaeth arfaethedig arall, yn cydymffurfio llai â Rheolau 5 1.b a d Atodlen 2 y Ddeddf (gweler adran 2.2). Byddai'r cynigion amgen hefyd yn golygu torri'r cysylltiadau rhwng Pontybrein a wardiau Gorseinon, a Phenyrheol, fel y trafodir mewn perthynas ag etholaeth arfaethedig Llanelli ym mharagraff 26.8 adran 5. Roedd y Comisiwn o'r farn bod wardiau etholiadol Townhill, ac Uplands o fewn etholaeth bresennol Swansea West ac y byddai mwyafrif wardiau'r etholaeth honno'n cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe o dan gynigion y Comisiwn. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn fwy priodol i'r ddwy ward hyn gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe nag etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe. Daeth y Comisiwn i'r casgliad, er bod wardiau Clydach, Llangyfelach, Mawr, a Phenlle'r-gaer o fewn etholaeth bresennol Gower, ei bod yn briodol eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe, fel yr argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol, o ystyried bod ganddynt gysylltiadau â wardiau yn yr etholaeth honno. Yn yr holl amgylchiadau hyn, mae angen i ward gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe er mwyn sicrhau bod nifer yr etholwyr yn yr etholaeth honno'n dod o fewn yr amrediad etholiadol statudol. Mae'r Comisiwn yn parhau i gredu ei bod yn briodol i ward etholiadol Cwmbwrla gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe yn hytrach na'r etholaeth arfaethedig hon. Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod etholaeth argymelledig Dwyrain Abertawe, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal, yn bodloni'r meini prawf statudol orau yn gyffredinol.

Enw

- 24.16 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Swansea East. Yr enw arall a argymhellir yw Dwyrain Abertawe.
- 24.17 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Swansea East (Dwyrain Abertawe).

Swansea East (Dwyrain Abertawe)



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

25 Gower and Swansea West (Gŵyr a Gorllewin Abertawe)

Argymhelliad

25.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

25.1.a Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Gower a Dinas a Sir Abertawe, sef Llandeilo Ferwallt (2,610), Fairwood (2,218), Gŵyr (2,828), Tre-gŵyr (3,862), Newton (2,687), Ystumllwynarth (3,151), Penclawdd (2,852), Pennard (2,175) a West Cross (5,023);

25.1.b y ward etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Swansea East a Dinas a Sir Abertawe, sef Cwmbwrla (5,337); a'r

25.1.c wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Swansea West a Dinas a Sir Abertawe, sef Cocyd (10,125), Dynfant (3,353), Gogledd Cilâ (1,892), De Cilâ (1,846), Mayals (2,060), Sgeti (10,294), Townhill (5,617) ac Uplands (8,155).

25.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,085 o etholwyr, sydd 1.8% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

25.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Gower and Swansea West. Yr enw arall a argymhellir yw Gŵyr a Gorllewin Abertawe.

25.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

25.4.a Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Gower gyfanswm o 59,478 o etholwyr, sydd 20% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth ac 16% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

25.4.b Mae gan Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Swansea East gyfanswm o 55,392 o etholwyr, sydd 26% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 22% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

25.4.c Mae gan Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Swansea West gyfanswm o 51,952 o etholwyr, sydd 31% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 27% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

25.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

25.5.a Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Gower a Dinas a Sir Abertawe, sef Llandeilo Ferwallt (2,610), Fairwood (2,218), Gŵyr (2,828), Tre-

gŵyr (3,862), Pontybrenin (3,299), Casllwchwr Isaf (1,734), Newton (2,687), Ystumllwynarth (3,151), Penclawdd (2,852), Pennard (2,175), Llwchwr Uchaf (2,092) a West Cross (5,023); a'r

- 25.5.b wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Swansea West a Dinas a Sir Abertawe, sef y Cocyd (10,125), Dynfant (3,353), Gogledd Cilâ (1,892), De Cilâ (1,846), Mayals (2,060), Sgeti (10,294), Townhill (5,617) ac Uplands (8,155).
- 25.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 77,873 o etholwyr, sydd 4.2% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Gower and Swansea West. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Gŵyr a Gorllewin Abertawe.
- 25.7 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau ysgrifenedig, yn ogystal â chynrychiolaethau llafar yn y gwrandawladau cyhoeddus, a oedd yn datgan y dylai wardiau etholiadol Pontybrenin, Llwchwr Isaf, a Llwchwr Uchaf gael eu cynnwys yn yr un etholaeth â Gorseinon, a Phenyrheol, gan awgrymu mai etholaeth Llanelli, yn hytrach nag etholaeth Gŵyr a Gorllewin Abertawe, oedd yr etholaeth fwyaf priodol ar gyfer y wardiau hyn. Cefnogwyd yr awgrym hwn gan yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Llanelli, a ddywedodd fod gan y bobl o'r ardaloedd hyn draddodiad hir o weithio, siopa a threulio amser hamdden yn Llanelli o ganlyniad i'w lleoliad yr ochr draw i Bont Llwchwr. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd nad oeddent yn cytuno â'r ymagwedd hon, a chafwyd cynrychiolaethau a oedd yn cefnogi cynnwys y tair ward hyn yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe, fel y cynigiwyd gan y Comisiwn yn ei gynigion cychwynnol. Fodd bynnag, roedd y cynrychiolaethau hyn hefyd yn mynegi'r farn y dylai wardiau etholiadol Gorseinon, a Phenlle'r-gaer gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon. Mynegwyd rhywfaint o gefnogaeth ymysg y cynrychiolaethau hefyd y dylai'r wardiau hyn i gyd gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe.
- 25.8 Roedd cynrychiolaethau eraill yn awgrymu y dylai ward etholiadol Cwmbwrla gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe. Roedd y cynrychiolaethau o'r farn bod gan ward Cwmbwrla gysylltiad cryfach â wardiau yn yr etholaeth arfaethedig hon a'i bod, yn y bôn, wedi'i gwahanu'n ddaearyddol oddi wrth weddill etholaeth bresennol Swansea East y mae'n rhan ohoni ar hyn o bryd. Roedd cynrychiolaeth arall gan gyn Aelod Cynulliad yn ailadrodd y dadleuon hyn ac yn cefnogi cynnwys ward Cwmbwrla yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe.
- 25.9 Ystyriodd y Comisiwnwyr Cynorthwyol y cynrychiolaethau ysgrifenedig a'r rhai hynny a wnaed yn y gwrandawladau cyhoeddus, a daethant i'r casgliad bod gan wardiau etholiadol Pontybrenin, Llwchwr Isaf a Llwchwr Uchaf gysylltiadau â wardiau etholiadol Gorseinon, a Phenyrheol, ac y byddai gosod y wardiau mewn dwy etholaeth arfaethedig wahanol yn torri'r cysylltiadau hynny. Argymhellodd y Comisiwnwyr Cynorthwyol y dylai'r pum ward hyn gael eu cynnwys yn yr un etholaeth arfaethedig, a'i bod yn briodol iddynt gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw ac nid etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe. Gwnaethant argymhell y dylai ward etholiadol Cwmbwrla gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon, oherwydd bod ganddi gysylltiadau â wardiau yn yr etholaeth hon, yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe.

25.10 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, derbyniodd y Comisiwn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol a chynnig y dylai wardiau etholiadol Pontybrenin, Llchwyr Isaf a Llchwyr Uchaf gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Llanelli yn hytrach na'r etholaeth arfaethedig hon. Byddai hynny'n galluogi'r wardiau hynny i gael eu cynnwys mewn etholaeth a oedd yn cynnwys Gorseinon, a Phenyrheol, gan osgoi torri'r cysylltiadau sy'n bodoli rhwng y pum ward. Roedd y Comisiwn hefyd yn cytuno ag argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol ei bod yn briodol i ward Cwmbwrla gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon, o ystyried ei chysylltiadau â wardiau yn yr etholaeth arfaethedig hon. Byddai hynny hefyd yn sicrhau bod nifer yr etholwyr yn yr etholaeth arfaethedig yn dod o fewn yr amrediad etholiadol statudol.

25.11 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:

25.11.a Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Gower a Dinas a Sir Abertawe, sef Llandeilo Ferwallt (2,610), Fairwood (2,218), Gŵyr (2,828), Tre-gŵyr (3,862), Newton (2,687), Ystumllwynarth (3,151), Penclawdd (2,852), Pennard (2,175) a West Cross (5,023);

25.11.b y ward etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Swansea East a Dinas a Sir Abertawe, sef Cwmbwrla (5,337); a'r

25.11.c wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Fwrdeistrefol bresennol Swansea West a Dinas a Sir Abertawe, sef y Cocyd (10,125), Dynfant (3,353), Gogledd Cilâ (1,892), De Cilâ (1,846), Mayals (2,060), Sgeti (10,294), Townhill (5,617) ac Uplands (8,155).

25.12 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,085 o etholwyr, sydd 1.8% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

25.13 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau ynglŷn â'r tair etholaeth arfaethedig yn ardal Abertawe a Llanelli. Roedd llawer o'r cynrychiolaethau a gafwyd yn cefnogi'r trefniadau a oedd yn cynnwys wardiau etholiadol Clydach, Llangyfelach, Mawr, a Phenlle'r-gaer a ward etholiadol Pontybrenin yn yr etholaeth arfaethedig hon yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe. Amlygodd y cynrychiolaethau fod y wardiau hyn o fewn etholaeth bresennol Gower. Cyfeiriodd y cynrychiolaethau at y ffaith bod wardiau o fewn etholaeth Gower wedi ffurfio cysylltiadau â wardiau yn yr etholaeth bresennol. Roedd y cynrychiolaethau'n cynnig cynnwys wardiau etholiadol Cwmbwrla, Townhill, ac Uplands yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe, yn hytrach nag yn yr etholaeth hon, er mwyn cyflawni'r amrediad etholiadol statudol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hyn. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn dadlau y dylai'r wardiau etholiadol a oedd yn ffurfio cymuned Llchwyr (wardiau etholiadol Pontybrenin, Llchwyr Isaf, a Llchwyr Uchaf), a ward etholiadol Gorseinon, oll gael eu cynnwys mewn etholaeth Abertawe, ac yn gwrthwynebu eu cynnwys mewn etholaeth arfaethedig Llanelli. Roedd y cynrychiolaethau'n awgrymu bod Afon Llchwyr yn gwahanu Abertawe a Llanelli a bod y wardiau wedi bod yn rhan o Abertawe yn hanesyddol. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn cefnogi cynnwys y wardiau hynny yn etholaeth arfaethedig Llanelli. Mae cynrychiolaeth

COMISIWN FFINIAU I GYMRU


gan Gyngor Tref Llŵchwr yn datgan ei fod yn gwrthwynebu lleihau nifer yr etholaethau yng Nghymru ac y byddai'n well ganddo petai'r trefniadau presennol yn cael eu cadw; fodd bynnag, os nad oedd hynny'n bosibl, y dewis gorau fyddai i ardal y cyngor tref ac ardaloedd cyfagos gael eu cynnwys yn etholaeth Llanelli.

- 25.14 Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau a'r trefniadau amgen a gynigiwyd. Daeth y Comisiwn i'r casgliad ei bod yn briodol i ward etholiadol Pontybrenin gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Llanelli ac na ddylai gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod ward Pontybrenin yn rhan o etholaeth bresennol Gower. Mae ward etholiadol Pontybrenin yn rhan o gymuned Llŵchwr (sydd hefyd yn cynnwys wardiau Llŵchwr Isaf, a Llŵchwr Uchaf). Byddai'r cynigion amgen yn rhannu'r wardiau yn y gymuned hon rhwng dwy etholaeth arfaethedig (etholaethau arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe a Llanelli). Mae ffiniau cymunedol yng Nghymru yn ffiniau llywodraeth leol. Mae cynnwys y tair ward o fewn un gymuned yn adlewyrchu'r cysylltiadau sy'n bodoli rhwng y wardiau hyn. Byddai rhannu'r gymuned, felly, a chynnwys ward Pontybrenin mewn un etholaeth arfaethedig a wardiau eraill mewn etholaeth arfaethedig arall, yn cydymffurfio llai â Rheolau 5 1.b a d Atodlen 2 y Ddeddf (gweler adran 2.2). Mae'r cynigion hefyd yn golygu torri'r cysylltiadau rhwng Pontybrenin a wardiau Gorseinon, a Phenyrheol, fel y trafodir hefyd mewn perthynas ag etholaeth arfaethedig Llanelli ym mharagraff 26.8 adran 5.
- 25.15 Nododd y Comisiwn fod wardiau etholiadol Townhill, ac Uplands yn etholaeth bresennol Swansea West ac y byddai mwyafrif wardiau'r etholaeth bresennol honno'n cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe o dan gynigion y Comisiwn. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn fwy priodol i'r ddwy ward hyn gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe nag etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe. Daeth y Comisiwn i'r casgliad, er bod wardiau Clydach, Llangyfelach, Mawr, a Phenlle'r-gaer yn etholaeth bresennol Gower, ei bod yn briodol iddynt gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe, fel yr argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol, o ystyried eu cysylltiadau â wardiau yn yr etholaeth honno. Yn yr holl amgylchiadau hyn, mae angen i ward gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe er mwyn sicrhau bod nifer yr etholwyr yn yr etholaeth honno'n dod o fewn yr amrediad etholiadol statudol. Mae'r Comisiwn yn parhau i gredu ei bod yn briodol i ward etholiadol Cwmbwrla gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon. Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod etholaeth argymelledig Gŵyr a Gorllewin Abertawe, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal hon, yn bodloni'r meini prawf statudol orau yn gyffredinol.

Enw

- 25.16 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Gower and Swansea West. Yr enw arall a argymhellir yw Gŵyr a Gorllewin Abertawe.
- 25.17 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau wnaed ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Gower and Swansea West (Gŵyr a Gorllewin Abertawe).

Gower and Swansea West (Gŵyr a Gorllewin Abertawe)



26 Llanelli

Argymhelliad

26.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

26.1.a Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Llanelli a Sir Gaerfyrddin, sef Bigyn (4,439), Porth Tywyn (3,200), Y Bynie (2,985), Dafen (2,368), Elli (2,216), Felinfoel (1,343), Glanymor (3,833), Glyn (1,630), Hendy (2,381), Hengoed (2,798), Cydweli (2,705), Llangennech (3,699), Llannon (3,817), Lledi (3,625), Llwynhendy (2,974), Penbre (3,232), Pontyberem (2,074), Swiss Valley (2,041), Trimsaran (1,828), Tycroes (1,756) a Thyisha (2,258); a'r

26.1.b wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Gower a Dinas a Sir Abertawe, sef Gorseinon (3,228), Pontybrenin (3,299), Llchwyr Isaf (1,734), Penyrheol (4,131), Pontarddulais (4,616) a Llchwyr Uchaf (2,092).

26.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,302 o etholwyr, sydd 2.1% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

26.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Llanelli.

26.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

26.4.a Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Llanelli gyfanswm o 57,202 o etholwyr, sydd 23% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 19% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

26.4.b Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Gower gyfanswm o 59,478 o etholwyr, sydd 20% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth ac 16% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

26.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

26.5.a Etholaeth Sirol bresennol gyfan Llanelli; a'r

26.5.b wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Gower a Dinas a Sir Abertawe, sef Gorseinon (3,228), Llangyfelach (3,803), Mawr (1,305), Penlle'r-gaer (2,466), Penyrheol (4,131) a Phontarddulais (4,616).

26.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,751 o etholwyr, sydd 2.7% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Llanelli and Lliw. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Llanelli a Lliw.

26.7 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn awgrymu y dylai'r etholaeth arfaethedig gynnwys wardiau etholiadol Pontybrenin, Llchwyr Isaf a Llchwyr Uchaf, fel y

trafodwyd ym mharagraff 25.7 adran 5. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau gan Blaid Cymru Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr a oedd yn nodi bod dalgylchoedd ysgolion a phatrymau siopa lleol yn bodoli o amgylch Tycroes a Dyffryn Aman, ac y dylai ward etholiadol Tycroes gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Sir Gaerfyrddin. Roedd trefniant amgen yn awgrymu y dylai Cydweli gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin.

- 26.8 Ystyriodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y cynrychiolaethau a oedd yn trafod wardiau etholiadol Gorseinon, Pontybrenin, Llwchwr Isaf, Penyrheol a Llwchwr Uchaf, a daethant i'r casgliad, *"Mae'r dystiolaeth a gawsom yn dangos bod y pum ward etholiadol hyn yn ffurfio un gymuned o fewn un ardal drefol a bod cysylltiadau trafnidiaeth rhwng Llwchwr, a Phontybrenin a Gorseinon, a Phenyrheol. Trwy osod dwy o'r wardiau etholiadol hyn yn etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw a thair yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe, mae'r cynigion Cychwynnol yn torri cysylltiadau lleol sy'n bodoli rhwng y pum ward etholiadol hyn. Argymhellwn, felly, y dylai wardiau etholiadol Llwchwr Isaf, Llwchwr Uchaf, a Phontybrenin gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Llanelli ynghyd â wardiau etholiadol Gorseinon a Phenyrheol."*
- 26.9 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn ei bod yn briodol cynnwys wardiau etholiadol Cydweli a Thycroes yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Llanelli. Honnodd cynrychiolaethau fod Tycroes yn uniaethu ag etholaeth Caerfyrddin, ond ni honnwyd na dangoswyd bod cysylltiadau o'r fath yn bodoli mewn perthynas â Chydwelli.
- 26.10 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau'r Comisiynwyr Cynorthwyol, sef y dylai wardiau etholiadol Pontybrenin, Llwchwr Isaf a Llwchwr Uchaf (sy'n ffurfio cymuned Llwchwr), a Gorseinon a Phenyrheol, gael eu cynnwys yn yr un etholaeth, a'i bod yn briodol i'r pum ward hyn gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Llanelli, fel y trafodwyd ym mharagraff 25.14 adran 5. Nid oedd y Comisiwn yn cytuno y dylai wardiau Cydweli a Thycroes gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin yn hytrach na'r etholaeth arfaethedig hon. Cyfeiriodd y Comisiwn at y ffaith bod wardiau etholiadol Cydweli a Thycroes o fewn etholaeth bresennol Llanelli. Nododd nad oedd digon o dystiolaeth i awgrymu y byddai cynnwys y ddwy ward yn etholaeth arfaethedig Llanelli yn torri cysylltiadau i unrhyw raddau arwyddocaol. Roedd y Comisiwn o'r farn y byddai cynnwys pob un o'r pum ward yn etholaeth arfaethedig Llanelli yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well yn gyffredinol.
- 26.11 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 26.11.a Etholaeth Sirol bresennol gyfan Llanelli; a'r
- 26.11.b wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Gower a Dinas a Sir Abertawe, sef Gorseinon (3,228), Pontybrenin (3,299), Llwchwr Isaf (1,734), Penyrheol (4,131), Pontarddulais (4,616) a Llwchwr Uchaf (2,092).
- 26.12 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,302 o etholwyr, sydd 2.1% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

26.13 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau ynglŷn â'r tair etholaeth arfaethedig yn ardal Abertawe a Llanelli, fel y trafodwyd ym mharagraff 25.13 adran 5. Roedd y cynrychiolaethau'n cynnwys rhai a oedd yn datgan y dylai ward etholiadol Pontybrenin gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe yn hytrach na'r etholaeth arfaethedig hon. Roedd cynrychiolaethau eraill yn cynnig y dylai'r wardiau etholiadol sy'n ffurfio cymuned Llŵchwr (wardiau etholiadol Pontybrenin, Llŵchwr Isaf, a Llŵchwr Uchaf), a ward etholiadol Gorseinon, oll gael eu cynnwys mewn etholaeth Abertawe, ac yn gwrthwynebu eu cynnwys mewn etholaeth arfaethedig Llanelli. Roedd y cynrychiolaethau'n awgrymu bod Afon Llŵchwr yn gwahanu Abertawe a Llanelli a bod y wardiau wedi bod yn rhan o Abertawe yn hanesyddol. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn cefnogi cynnwys y wardiau hynny yn etholaeth arfaethedig Llanelli. Mae cynrychiolaeth gan Gyngor Tref Llŵchwr yn datgan ei fod yn gwrthwynebu lleihau nifer yr etholaethau yng Nghymru ac y byddai'n well ganddo petai'r trefniadau presennol yn cael eu cadw; fodd bynnag, os nad oedd hynny'n bosibl, y dewis gorau fyddai i ardal y cyngor tref ac ardaloedd cyfagos gael eu cynnwys yn etholaeth Llanelli.

26.14 Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau a'r trefniadau amgen a gynigiwyd. Mae'r Comisiwn yn parhau i gredu y dylai wardiau etholiadol Pontybrenin, Llŵchwr Isaf, a Llŵchwr Uchaf (sy'n ffurfio cymuned Llŵchwr), ynghyd â wardiau etholiadol Gorseinon, a Phenyrheol, gael eu cynnwys yn etholaeth argymelledig Llanelli, fel y trafodwyd ym mharagraff 25.14 adran 5. Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod etholaeth argymelledig Llanelli, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal, yn bodloni'r meini prawf statudol orau yn gyffredinol.


Enw

26.15 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Llanelli. Mae Llanelli yn adnabyddadwy yn y ddwy iaith, felly ni awgrymir enw arall.

26.16 Yn wreiddiol, cynigiodd y Comisiwn yr enw Llanelli and Lliw (Llanelli a Lliw). Roedd y Comisiwn o'r farn bod y newidiadau i'r cynigion cychwynnol yn golygu y byddai'r enw unigol Llanelli yn adlewyrchu'r ardal sydd wedi'i chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig yn well.

26.17 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Llanelli.

Llanelli



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

27 Caerfyrddin (Carmarthen)

Argymhelliad

27.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 27.1.a Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Carmarthen East and Dinefwr a Sir Gaerfyrddin, sef Abergwili (1,799), Rhydaman (1,861), Betws (1,730), Cilycwm (1,145), Cynwyl Gaeo (1,260), Garnant (1,486), Glanaman (1,720), Gorslas (3,384), Llanddarog (1,570), Llandeilo (2,234), Llanymdyfri (1,980), Llandybie (3,107), Llanegwad (1,887), Llanfihangel Aberbythych (1,417), Llanfihangel-ar-Arth (2,098), Llangadog (1,544), Llangynnrwr (2,049), Llangyndeyrn (2,550), Llanybydder (1,922), Manordeilo a Salem (1,709), Penygroes (2,143), Pontamman (2,047), Cwarter Bach (2,108), Llanismel (2,097) a Saron (3,028); a'r
- 27.1.b wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Carmarthen West and South Pembrokeshire a Sir Gaerfyrddin, sef Tref Caerfyrddin Gogledd (3,606), Tref Caerfyrddin De (2,537), Tref Caerfyrddin Gorllewin (3,196), Cynwyl Elfed (2,444), Trefgordd Talacharn (2,085), Llanboidy (1,582), Llansteffan (1,621), Sanclêr (2,300), Trelech (1,659) a Hendy-gwyn ar daf (1,664).

27.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,569 o etholwyr, sydd 3% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

27.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Caerfyrddin. Yr enw arall a argymhellir yw Carmarthen.

27.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

- 27.4.a Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Carmarthen East and Dinefwr gyfanswm o 53,991 o etholwyr, sydd 28% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 24% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 27.4.b Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Carmarthen West and South Pembrokeshire gyfanswm o 55,118 o etholwyr, sydd 26% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 electors per constituency and 22% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

27.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 27.5.a Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Carmarthen East and Dinefwr a Sir Gaerfyrddin, sef Abergwili (1,799), Rhydaman (1,861), Betws (1,730), Cilycwm (1,145), Cynwyl Gaeo (1,260), Garnant (1,486), Glanaman (1,720), Gorslas (3,384), Llanddarog (1,570), Llandeilo (2,234), Llanymdyfri (1,980), Llandybie (3,107), Llanegwad (1,887), Llanfihangel Aberbythych (1,417), Llanfihangel-ar-Arth (2,098),

Llangadog (1,544), Llangynnwr (2,049), Llangyndeyrn (2,550), Llanybydder (1,922), Manordeilo a Salem (1,709), Penygroes (2,143), Pontamman (2,047), Cwarter Bach (2,108), Llanismel (2,097) a Saron (3,028); a'r

- 27.5.b wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Carmarthen West and South Pembrokeshire a Sir Gaerfyrddin, sef Tref Caerfyrddin Gogledd (3,606), Tref Caerfyrddin De (2,537), Tref Caerfyrddin Gorllewin (3,196), Cynwyl Elfed (2,444), Trefgordd Talacharn (2,085), Llanboidy (1,582), Llansteffan (1,621), Sanclêr (2,300), Trelech (1,659) a Hendy-gwyn ar daf (1,664).
- 27.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,569 o etholwyr, sydd 3% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Caerfyrddin. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Carmarthenshire.
- 27.7 Ni chafodd y Comisiwn lawer o gynrychiolaethau ynglŷn â'r etholaeth hon. Fodd bynnag, fel y trafodwyd ym mharagraff 26.7 adran 5, cafodd y Comisiwn rai cynrychiolaethau a oedd yn cynnig trefniadau amgen. Byddai'r rhain wedi cynnwys wardiau etholiadol Cydweli a Thycroes yn yr etholaeth arfaethedig hon.
- 27.8 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylai ward etholiadol Cydweli gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon, gan ddatgan, *"....er mwyn osgoi torri'r cysylltiadau lleol hyn, argymhellwn y dylai Tycroes gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin yn hytrach nag etholaeth Llanelli a Lliw yn unol â'r Cynigion Cychwynnol."* Yn yr un modd, *"...mae gan ward Cydweli gysylltiadau lleol agos ag etholaeth arfaethedig Caerfyrddin yn hytrach na wardiau etholiadol o fewn etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw...."*
- 27.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, daeth y Comisiwn i'r casgliad nad oedd digon o dystiolaeth i gyfiawnhau gwneud y newidiadau a argymhellwyd gan y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r cynigion cychwynnol. Cyfeiriodd y Comisiwn at y ffaith bod wardiau etholiadol Cydweli a Thycroes o fewn etholaeth bresennol Llanelli. Nododd y Comisiwn nad oedd digon o dystiolaeth i awgrymu y byddai cynnwys y ddwy ward yn etholaeth arfaethedig Llanelli yn torri cysylltiadau ag ardaloedd yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin i unrhyw raddau arwyddocaol. Roedd y Comisiwn o'r farn bod cynnwys y ddwy ward hyn yn etholaeth arfaethedig Llanelli yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r trefniadau amgen a gynigiwyd.
- 27.10 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 27.10.a Y wardiau etholiadol yn Etholaeth Sirol bresennol Carmarthen East and Dinefwr a Sir Gaerfyrddin, sef Abergwili (1,799), Rhydaman (1,861), Betws (1,730), Cilycwm (1,145), Cynwyl Gaeo (1,260), Garnant (1,486), Glanamau (1,720), Gorslas (3,384), Llanddarog (1,570), Llandeilo (2,234), Llanyddydri (1,980), Landybie (3,107), Llanegwad (1,887), Llanfihangel Aberbythych (1,417), Llanfihangel-ar-Arth (2,098), Llangadog (1,544), Llangynnwr (2,049), Llangyndeyrn (2,550), Llanybydder (1,922), Manordeilo a Salem (1,709), Penygroes (2,143), Pontamman (2,047), Cwarter Bach (2,108) Llanismel (2,097), a Saron (3,028); a'r


COMISIWN FFINIAU I GYMRU

- 27.10.b wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Carmarthen West and South Pembrokeshire a Sir Gaerfyrddin, sef Tref Caerfyrddin Gogledd (3,606), Tref Caerfyrddin De (2,537), Tref Caerfyrddin Gorllewin (3,196), Cynwyl Elfed (2,444), Trefgordd Talacharn (2,085), Llanboidy (1,582), Llansteffan (1,621), Sanclêr (2,300), Trelech (1,659) a Hendy-gwyn ar daf (1,664).
- 27.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,569 o etholwyr, sydd 3% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.
- 27.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cynnig y dylai wardiau etholiadol Cenarth a Llangeler ffurfio rhan o etholaeth arfaethedig Caerfyrddin yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro. Roedd y trefniadau amgen yn cynnig cynnwys wardiau etholiadol Llanrhian, Tyddewi, a Solfach yn etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro, yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Canol a De Sir Benfro, i sicrhau bod nifer yr etholwyr yn etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro yn dod o fewn yr amrediad etholiadol statudol. Oherwydd bod y newidiadau hynny'n golygu y byddai nifer yr etholwyr yn etholaeth arfaethedig Canol a De Sir Benfro yn gostwng islaw'r amrediad etholiadol statudol, roedd y trefniadau amgen yn cynnig cynnwys ward etholiadol Hendy-gwyn ar daf yn etholaeth arfaethedig Canol a De Sir Benfro yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Caerfyrddin.
- 27.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a wnaed a'r trefniadau amgen a gynigiwyd. Nid oedd y Comisiwn o'r farn bod unrhyw werth i'r newidiadau arfaethedig a oedd yn effeithio ar wardiau etholiadol Llanrhian, Tyddewi, Solfach na Hendy-gwyn ar Daf. Roedd y Comisiwn yn fodlon, yn yr amgylchiadau, ei bod yn briodol i wardiau etholiadol Cenarth, a Llangeler gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro. Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod etholaeth argymelledig Caerfyrddin, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal hon, yn bodloni'r meini prawf statudol orau yn gyffredinol.

Enw

- 27.14 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Caerfyrddin. Yr enw arall a argymhellir yw Carmarthen.
- 27.15 Yn wreiddiol, cynigiodd y Comisiwn yr enw Caerfyrddin, a'r enw arall Carmarthenshire. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn datgan mai'r enw Saesneg priodol sy'n cyfateb i Gaerfyrddin yw Carmarthen ac nid Carmarthenshire. Cynigiodd y Comisiwn newid yr enw arall i adlewyrchu hynny.
- 27.16 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Caerfyrddin (Carmarthen).

Caerfyrddin (Carmarthen)



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

28 Mid and South Pembrokeshire (Canol a De Sir Benfro)

Argymhelliad

28.1 Mae'r Comisiwn yn argymhell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

28.1.a Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Carmarthen West and South Pembrokeshire a Sir Benfro, sef Amroth (909), Caerew (1,106), East Williamston (1,816), Hundleton (1,346), Cilgeti/Begelli (1,563), Llanbedr Felfre (1,211), Llandyfai (1,318), Maenorbyr (1,568), Martletwy (1,510), Arberth (1,483), Arberth Wledig (1,143), Doc Penfro: Canol (1,007), Doc Penfro: Llanion (1,853), Doc Penfro: Marchnad (1,216), Doc Penfro: Pennar (2,257), Penfro: Cil-maen (962), Penfro: Gogledd St. Mary (1,380), Penfro: De St. Mary (946), Penfro: St. Michael (1,998), Penalun (1,188), Saundersfoot (1,867), Dinbych-y-Pysgod: Gogledd (1,574) a Dinbych-y-Pysgod: De (1,661); a'r

28.1.b wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Preseli Pembrokeshire a Sir Benfro, sef Burton (1,401), Camros (1,992), Hwlfordd: Castell (1,466), Hwlfordd: Garth (1,539), Hwlfordd: Portfield (1,642), Hwlfordd: Prendergast (1,467), Hwlfordd: Priory (1,731), Johnston (1,867), Treletert (1,706), Llangwm (1,724), Llanrhian (1,155), Maenclochog (2,248), Pont Fadlen (1,478), Milford: Canol (1,389), Milford: Dwyrain (1,436), Milford: Hakin (1,672), Milford: Hubberston (1,738), Milford: Gogledd (1,854), Milford: Gorllewin (1,441), Neyland: Dwyrain (1,697), Neyland: Gorllewin (1,511), Rudbaxton (816), Tyddewi (1,413), Llanisan-yn-Rhos (1,049), Solfach (1,144), The Havens (1,118) a Chas-wis (1,494).

28.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,070 o etholwyr, sydd 0.9% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

28.3 Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Mid and South Pembrokeshire. Yr enw arall a argymhellir yw Canol a De Sir Benfro.

28.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

28.4.a Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Carmarthen West and South Pembrokeshire gyfanswm o 55,118 o etholwyr, sydd 26% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 22% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

28.4.b Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Preseli Pembrokeshire CC gyfanswm o 54,638 o etholwyr, sydd 27% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 23% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

28.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

28.5.a Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Carmarthen West and South Pembrokeshire a Sir Benfro, sef Amroth (909), Caerew (1,106), East Williamston (1,816), Hundleton (1,346), Cilgeti/Begelli (1,563), Llanbedr Felfre (1,211), Llandyfai (1,318), Maenorbyr (1,568), Martletwy (1,510), Arberth (1,483), Arberth Wledig (1,143), Doc Penfro: Canol (1,007), Doc Penfro: Llanion (1,853), Doc Penfro: Marchnad (1,216), Doc Penfro: Pennar (2,257), Penfro: Cil-maen (962), Penfro: Gogledd St. Mary (1,380), Penfro: De St. Mary (946), Penfro: St. Michael (1,998), Penalun (1,188), Saundersfoot (1,867), Dinbych-y-Pysgod: Gogledd (1,574) a Dinbych-y-Pysgod: De (1,661); a'r

28.5.b wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Preseli Pembrokeshire a Sir Benfro, sef Burton (1,401), Camros (1,992), Hwlfordd: Castell (1,466), Hwlfordd: Garth (1,539), Hwlfordd: Portfield (1,642), Hwlfordd: Prendergast (1,467), Hwlfordd: Priory (1,731), Johnston (1,867), Treletert (1,706), Llangwm (1,724), Llanrhian (1,155), Maenclochog (2,248), Pont Fadlen (1,478), Milford: Canol (1,389), Milford: Dwyrain (1,436), Milford: Hakin (1,672), Milford: Hubberston (1,738), Milford: Gogledd (1,854), Milford: Gorllewin (1,441), Neyland: Dwyrain (1,697), Neyland: Gorllewin (1,511), Rudbaxton (816), Tyddewi (1,413), Llanisan-yn-Rhos (1,049), Solfach (1,144), The Havens (1,118) a Chas-wis (1,494).

28.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,070 o etholwyr, sydd 0.9% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd South Pembrokeshire. Yr enw arall a awgrymwyd oedd De Sir Benfro.

28.7 Ni chafodd y Comisiwn lawer o gynrychiolaethau ynglŷn â'r etholaeth arfaethedig hon. Ni argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol unrhyw newidiadau i'r cynigion cychwynnol. Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, penderfynodd y Comisiwn gynnig etholaeth fel y'i disgrifiwyd yn y cynigion cychwynnol.

28.8 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:

28.8.a Y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Carmarthen West and South Pembrokeshire a Sir Benfro, sef Amroth (909), Caerew (1,106), East Williamston (1,816), Hundleton (1,346), Cilgeti/Begelli (1,563), Llanbedr Felfre (1,211), Llandyfai (1,318), Maenorbyr (1,568), Martletwy (1,510), Arberth (1,483), Arberth Wledig (1,143), Doc Penfro: Canol (1,007), Doc Penfro: Llanion (1,853), Doc Penfro: Marchnad (1,216), Doc Penfro: Pennar (2,257), Penfro: Cil-maen (962), Penfro: Gogledd St. Mary (1,380), Penfro: De St. Mary (946), Penfro: St. Michael (1,998), Penalun (1,188), Saundersfoot (1,867), Dinbych-y-Pysgod: Gogledd (1,574) a Dinbych-y-Pysgod: De (1,661); a'r

28.8.b wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Preseli Pembrokeshire a Sir Benfro, sef Burton (1,401), Camros (1,992), Hwlfordd: Castell (1,466), Hwlfordd: Garth (1,539), Hwlfordd: Portfield (1,642), Hwlfordd: Prendergast (1,467),

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Hwlfordd: Priory (1,731), Johnston (1,867), Treletert (1,706), Llangwm (1,724), Llanrhian (1,155), Maenclochog (2,248), Pont Fadlen (1,478), Milford: Canol (1,389), Milford: Dwyrain (1,436), Milford: Hakin (1,672), Milford: Hubberston (1,738), Milford: Gogledd (1,854), Milford: Gorllewin (1,441), Neyland: Dwyrain (1,697), Neyland: Gorllewin (1,511), Rudbaxton (816), Tyddewi (1,413), Llanisan-yn-Rhos (1,049), Solfach (1,144), The Havens (1,118) a Chas-wis (1,494).

28.9 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,070 o etholwyr, sydd 0.9% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

28.10 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau ynglŷn â chyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig hon. Roedd y cynrychiolaethau'n datgan y dylai'r etholaeth newydd gynnwys ardal gyfan awdurdod lleol Sir Benfro, ac yn awgrymu nad oedd gan dref Abergwaun gysylltiadau ag ardaloedd o Geredigion neu Gaerfyrddin ac y dylai gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn awgrymu trefniadau amgen ar gyfer nifer o etholaethau arfaethedig, gan gynnwys yr etholaeth arfaethedig hon. Roedd y trefniadau amgen yn cynnig y dylai wardiau etholiadol Cenarth a Llangeler gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro, fel y trafodwyd ym mharagraff 27.12 adran 5. Roedd y trefniadau amgen yn cynnig newidiadau a oedd yn effeithio ar yr etholaeth arfaethedig hon. Roedd y rhain yn cynnwys wardiau etholiadol Llanrhian, Tyddewi, a Solfach yn etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro, yn hytrach na'r etholaeth arfaethedig hon, i sicrhau bod nifer yr etholwyr yn etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro yn dod o fewn yr amrediad etholiadol statudol. Oherwydd bod y newidiadau hynny'n golygu y byddai nifer yr etholwyr yn yr etholaeth arfaethedig hon yn gostwng islaw'r amrediad etholiadol statudol, roedd y trefniadau amgen yn cynnig cynnwys ward etholiadol Hendy-gwyn ar Daf yn yr etholaeth arfaethedig hon yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Caerfyrddin. Yn ogystal, cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth a oedd yn mynegi pryder ynglŷn â maint daearyddol yr etholaeth arfaethedig. Nododd y Comisiwn er bod yr etholaeth arfaethedig yn fawr o gymharu ag eraill yng Nghymru, ei bod yn sylweddol lai na'r maint mwyaf a ganiateir o dan y Ddeddf.

28.11 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau. Ni fyddai'r Comisiwn yn gallu cynnwys awdurdod lleol cyfan Sir Benfro yn yr etholaeth arfaethedig hon oherwydd byddai nifer yr etholwyr yn fwy na'r amrediad etholiadol statudol. Nid oedd y Comisiwn o'r farn bod unrhyw werth i'r newidiadau arfaethedig a oedd yn effeithio ar wardiau etholiadol Gogledd-ddwyrain Abergwaun, Gogledd-orllewin Abergwaun, Llanrhian, Solfach, Tyddewi na Hendy-gwyn ar Daf. Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod etholaeth argymelledig Canol a De Sir Benfro, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal, yn bodloni'r meini prawf statudol orau yn gyffredinol.

Enw

28.12 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Mid and South Pembrokeshire. Yr enw arall a argymhellir yw Canol a De Sir Benfro.

- 28.13 Yn wreiddiol, cynigiodd y Comisiwn South Pembrokeshire (De Sir Benfro). Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn datgan nad oedd yr enw'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr ardal gyfan a oedd wedi'i chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig. Newidiodd y Comisiwn yr enw yn ei gynnig diwygiedig i adlewyrchu hyn.
- 28.14 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Mid and South Pembrokeshire (Canol a De Sir Benfro).

A. Hwlfordd

- Hwlfordd: Garth (1,539)
- Hwlfordd: Portfield (1,642)
- Hwlfordd: Tyddewi (1,413)

B. Aberdaugleddau

- Milford: Gogledd (1,854)
- Milford: Gogledd (1,854)
- Milford: Gogledd (1,854)
- Milford: Gogledd (1,854)
- Milford: Gogledd (1,854)

C. Penfro

- Doc Penfro: Pennar (2,257)
- Doc Penfro: Cil-maen (962)
- Doc Penfro: St. Michael (1,998)
- Doc Penfro: St. Mary (946)
- Doc Penfro: St. Mary (946)
- Doc Penfro: St. Mary (946)
- Doc Penfro: St. Mary (946)

Scale: 0 to 10 miles
Total Population: 1:147,700

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2018] OS [100047875]

29 Ceredigion a Gogledd Sir Benfro (Ceredigion and North Pembrokeshire)

Argymhelliad

29.1 Mae'r Comisiwn yn argymell creu etholaeth sirol o'r canlynol:

29.1.a Y wardiau etholiadol yn Etholaeth Sirol bresennol Ceredigion a Sir Ceredigion, sef Aberaeron (1,030), Aberporth (1,685), Aberteifi/Cardigan-Mwldan (1,463), Aberteifi/Cardigan-Rhyd-y-Fuwch (815), Aberteifi/Cardigan-Teifi (688), Aberystwyth Bronglais (894), Aberystwyth Canol/Central (1,106), Aberystwyth Gogledd/North (1,064), Aberystwyth Penparcau (2,067), Aberystwyth Rheidol (1,414), Beulah (1,268), Y Borth (1,513), Capel Dewi (1,003), Ceulan-a-Maesmawr (1,443), Ciliau Aeron (1,468), Faenor (1,332), Llanbedr Pont Steffan (1,555), Llanarth (1,076), Llanbadarn Fawr-Padarn (721), Llanbadarn Fawr-Sulien (790), Llandyfriog (1,319), LlandyY Silio-gogo (1,430), Tref Llandysul (942), Llanfarian (1,090), Llanfihangel Ystrad (1,504), Llangeitho (1,064), Llangybi (1,104), Llanrhystud (1,208), Llansanffraid (1,832), Llanwenog (1,336), Lledrod (1,659), Melindwr (1,478), Ceinewydd (782), Penbryn (1,612), Pen-parc (1,773), Tirymynach (1,276), Trefeurig (1,291), Tregaron (847), Troed-yr-aur (1,006) ac Ystwyth (1,484);

29.1.b y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Carmarthen East and Dinefwr a Sir Gaerfyrddin, sef Cenarth (1,570) a Llangeler (2,546);

29.1.c y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sir bresennol Montgomeryshire a Sir Powys, sef Glantwymyn (1,558), Llanbrynmair (742) a Machynlleth (1,627); a'r

29.1.d wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Preseli Pembrokeshire a Sir Benfro, sef Cilgerran (1,396), Clydau (1,105), Crymych (1,918), Dinas (1,210), Gogledd-ddwyrain Abergwaun (1,399), Gogledd-orllewin Abergwaun (1,094), Wdig (1,335), Trefdraeth (812), Sceddau (1,076) a Llandudoch (1,647).

29.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,467 o etholwyr, sef 4.4% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

29.3 Mae'r Comisiwn yn argymell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n Ceredigion a Gogledd Sir Benfro. Yr enw arall a argymhellir yw Ceredigion and North Pembrokeshire.

29.4 Dyma'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth argymelledig yn effeithio arnynt:

29.4.a Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Carmarthen East and Dinefwr gyfanswm o 53,991 o etholwyr, sydd 28% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 24% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

- 29.4.b Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Ceredigion gyfanswm o 50,432 o etholwyr, sydd 33% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 29% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 29.4.c Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Montgomeryshire gyfanswm o 46,989 o etholwyr, sydd 37% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 34% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.
- 29.4.d Mae gan Etholaeth Sirol bresennol Preseli Pembrokeshire gyfanswm o 54,638 o etholwyr, sydd 27% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth a 23% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr fesul etholaeth.

Cefndir

29.5 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

- 29.5.a Etholaeth Sirol bresennol gyfan Ceredigion;
 - 29.5.b y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Carmarthen East and Dinefwr a Sir Gaerfyrddin, sef Cenarth (1,570) a Llangeler (2,546);
 - 29.5.c y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Montgomeryshire a Sir Powys, sef Blaen Hafren (1,782) a Llanidloes (2,070); a'r
 - 29.5.d wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Preseli Pembrokeshire a Sir Benfro, sef Cilgerran (1,396), Clydau (1,105), Crymych (1,918), Dinas (1,210), Gogledd-ddwyrain Abergwaun (1,399), Gogledd-orllewin Abergwaun (1,094), Wdigr (1,335), Trefdraeth (812), Sceddau (1,076) a Llandudoch (1,647).
- 29.6 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,392 o etholwyr, sydd 4.5% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Ceredigion a Gogledd Sir Benfro. Yr enw arall a awgrymwyd oedd Ceredigion and North Pembrokeshire.
- 29.7 Cafodd y Comisiwn nifer fawr o gynrychiolaethau a oedd yn datgan bod gan wardiau etholiadol Llanidloes a Blaen Hafren gysylltiadau cymunedol lleol â'r Drenwydd, ac y dylai'r wardiau gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed, a Threfaldwyn yn hytrach na'r etholaeth arfaethedig hon. Roedd y cynrychiolaethau, a'r pleidiau gwleidyddol a wnaeth gynrychiolaethau, yn cytuno, yn gyffredinol, y dylai wardiau Glantwymyn, Llanbryn-mair a Machynlleth gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon yn hytrach nag etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Maldwyn. Trafodir hyn ym mharagraff 7.7 adran 5. Byddai hyn hefyd yn sicrhau bod yr etholaeth arfaethedig hon yn dod o fewn yr amrediad etholiadol statudol.
- 29.8 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad y dylai wardiau etholiadol Blaen Hafren a Llanidloes gael eu dileu o'r etholaeth arfaethedig hon o ganlyniad i'r cysylltiadau rhwng

Llanidloes a'r Drennewydd, fel yr amlygwyd yn fynych yn y cynrychiolaethau a gafwyd gan y Comisiwn, ac y dylent gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesfedydd, a Threfaldwyn. Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gynnwys wardiau Glantwymyn, Llanbryn-mair a Machynlleth yn yr etholaeth arfaethedig hon (yn hytrach na'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Maldwyn). Argymhellwyd y diwygiad hwn i'r cynigion cychwynnol gan lawer o gynrychiolaethau a gafwyd gan y Comisiwn hefyd.

29.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, derbyniodd y Comisiwn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol. Cafwyd nifer sylweddol o gynrychiolaethau o blaid cynnwys Glantwymyn, Llanbryn-mair a Machynlleth yn yr etholaeth arfaethedig hon a chynnwys Blaen Hafren a Llanidloes yn etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesfedydd, a Threfaldwyn er mwyn osgoi torri cysylltiadau lleol.

29.10 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r canlynol:

29.10.a Etholaeth Sirol bresennol gyfan Ceredigion;

29.10.b y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Carmarthen East and Dinefwr a Sir Gaerfyrddin, sef Cenarth (1,570) a Llangeler (2,546);

29.10.c y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Montgomeryshire a Sir Powys, sef Glantwymyn (1,558), Llanbryn-mair (742) a Machynlleth (1,627); a'r

29.10.d wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Sirol bresennol Preseli Pembrokeshire a Sir Benfro, sef Cilgerran (1,396), Clydau (1,105), Crymych (1,918), Dinas (1,210), Gogledd-ddwyrain Abergwaun (1,399), Gogledd-orllewin Abergwaun (1,094), Wdig (1,335), Trefdraeth (812), Sceddau (1,076) a Llandudoch (1,647).

29.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,467 o etholwyr, sydd 4.4% yn is na chwota etholiadol y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

29.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau ynglŷn â chyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig hon. Nododd y Comisiwn er bod yr etholaeth arfaethedig yn fawr o gymharu ag eraill yng Nghymru, ei bod yn sylweddol lai na'r maint mwyaf a ganiateir o dan y Ddeddf. Roedd y gynrychiolaeth gan Gyngor Sir Ceredigion yn cefnogi'r cynnig diwygiedig ac yn datgan er y byddai'n well ganddynt pe byddai'r etholaeth arfaethedig yn adlewyrchu ffiniau awdurdod lleol, eu bod yn cydnabod y byddai angen gwneud newidiadau i sicrhau bod etholaethau'n dod o fewn yr amrediad etholiadol statudol. Ar y sail honno, roedd y Cyngor yn cefnogi'r cynnig diwygiedig oherwydd bod yr etholaeth arfaethedig yn adlewyrchu cysylltiadau naturiol presennol. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn awgrymu y dylai wardiau Cenarth a Llangeler gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin yn hytrach na'r etholaeth arfaethedig hon, ac yn cynnig newidiadau ychwanegol a fwriadwyd i gyflawni hyn. Byddai'r newidiadau hyn, ymhlith eraill, yn cynnwys wardiau etholiadol Llanrhian, Tyddewi, a Solfach yn yr etholaeth hon yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Canol a De Sir Benfro, i sicrhau bod nifer yr etholwyr yn yr etholaeth arfaethedig hon yn dod o fewn yr amrediad etholiadol statudol, fel y trafodwyd

COMISIWN FFINIAU I GYMRU


ym mharagraff 28.10 adran 5. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn datgan y dylai ardal gyfan awdurdod lleol Sir Benfro gael ei chynnwys o fewn un etholaeth arfaethedig, ac yn awgrymu nad oedd gan dref Abergwaun gysylltiadau ag ardaloedd o Geredigion neu Gaerfyrddin.

- 29.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau. Ni fyddai'r Comisiwn yn gallu cynnwys ardal gyfan awdurdod lleol Sir Benfro o fewn un etholaeth arfaethedig oherwydd byddai nifer yr etholwyr yn etholaeth o'r fath yn fwy na'r amrediad etholiadol statudol. Nid oedd y Comisiwn o'r farn bod unrhyw werth i'r newidiadau arfaethedig a oedd yn effeithio ar wardiau etholiadol Gogledd-ddwyrain Abergwaun, Gogledd-orllewin Abergwaun, Llanrhian, Solfach, Tyddewi, Hendy-gwyn ar daf na Machynlleth. Ystyriodd y Comisiwn wardiau etholiadol Cenarth a Llangeler ac roedd yn fodlon ei bod yn briodol iddynt gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon. Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod etholaeth argymelledig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro, a'r etholaethau argymelledig eraill yn yr ardal, yn bodloni'r meini prawf statudol orau yn gyffredinol.

Enw

- 29.14 Yr enw y mae'r Comisiwn yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth hon yw Ceredigion a Gogledd Sir Benfro. Yr enw arall a argymhellir yw Ceredigion and North Pembrokeshire. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol yr enw Bae Ceredigion (Cardigan Bay).
- 29.15 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw mwyaf priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig orau ac sy'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol i etholwyr yw Ceredigion a Gogledd Sir Benfro (Ceredigion and North Pembrokeshire).

Ceredigion a Gogledd Sir Benfro (Ceredigion and North Pembrokeshire)



Atodiad 1 Etholaethau Argymelledig

Enw'r Etholaeth	Enw Amgen	Etholwyr	Amrywiant o gwota etholiadol y DU
Alyn and Deeside	Alun a Glannau Dyfrdwy	77,032	3%
Blaenau Gwent	Blaenau Gwent	75,664	1.2%
Brecon, Radnor and Montgomery	Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn	74,903	0.2%
Bridgend and Vale of Glamorgan West	Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg	74,092	-0.9%
Caerfyrddin	Carmarthen	72,569	-3%
Caerphilly	Caerffili	76,323	2.1%
Cardiff North	Gogledd Caerdydd	78,187	4.6%
Cardiff South and East	De a Dwyrain Caerdydd	74,128	-0.9%
Cardiff West	Gorllewin Caerdydd	78,321	4.8%
Ceredigion a Gogledd Sir Benfro	Ceredigion and North Pembrokeshire	71,467	-4.4%
Conwy and Colwyn	Conwy a Cholwyn	77,613	3.8%
Cynon Valley and Pontypridd	Cwm Cynon a Phontypridd	78,005	4.3%
De Clwyd a Gogledd Maldwyn	South Clwyd and North Montgomeryshire	71,570	-4.3%
Gower and Swansea West	Gŵyr a Gorllewin Abertawe	76,085	1.8%
Gwynedd	Gwynedd	76,260	2%
Llanelli	Llanelli	76,302	2.1%
Merthyr Tydfil and Rhymney	Merthyr Tudful a Rhymni	77,770	4%
Mid and South Pembrokeshire	Canol a De Sir Benfro	74,070	-0.9%
Monmouthshire	Sir Fynwy	74,532	-0.3%
Neath	Castell-nedd	74,621	-0.2%
Newport	Casnewydd	75,986	1.6%
Ogmore and Aberavon	Ogwr ac Aberafan	78,365	4.8%
Rhondda and Llantrisant	Rhondda a Llantrisant	77,905	4.2%
Rhuddlan and Flint	Rhuddlan ac Y Fflint	75,548	1%
Swansea East	Dwyrain Abertawe	71,637	-4.2%
Torfaen	Torfaen	72,367	-3.2%
Vale of Glamorgan East	Dwyrain Bro Morgannwg	76,984	3%
Wrexham	Wreccsam	72,137	-3.5%
Ynys Môn a Bangor	Anglesey and Bangor	71,398	-4.5%

Atodiad 2 Mynegai Etholaethau Presennol

Etholaeth Bresennol	Etholwyr	Rhif y Dudalen
Aberavon	48,346	118,124
Aberconwy	44,153	18,23,29
Alyn and Deeside	60,550	38
Arfon	37,739	18,23
Blaenau Gwent	49,661	71
Brecon and Radnorshire	52,273	54
Bridgend	58,932	113
Caerphilly	61,158	75, 79
Cardiff Central	49,403	99, 104
Cardiff North	63,574	99, 104
Cardiff South and Penarth	72,392	94, 104, 109
Cardiff West	63,892	94
Carmarthen East and Dinefwr	53,991	143, 152
Carmarthen West and South Pembrokeshire	55,118	143, 147
Ceredigion	50,432	152
Clwyd South	53,094	42,47
Clwyd West	56,862	23, 29, 47
Cynon Valley	49,405	84
Delyn	52,388	34, 38
Dwyfor Meirionnydd	42,353	24, 47
Gower	59,478	129, 134, 139
Islwyn	53,306	71, 75, 79
Llanelli	57,202	139
Merthyr Tydfil and Rhymney	53,166	75
Monmouth	62,729	59, 67
Montgomeryshire	46,989	47, 54, 152
Neath	54,691	124
Newport East	53,959	59, 63, 67
Newport West	60,101	63, 79
Ogmore	54,614	39, 113,118
Pontypridd	56,525	84, 89, 94
Preseli Pembrokeshire	54,638	147, 153
Rhondda	49,161	89
Swansea East	55,392	129, 134
Swansea West	51,952	129, 134
Torfaen	58,562	67
Vale of Clwyd	55,839	23, 29, 34, 47
Vale of Glamorgan	69,673	109, 113
Wrexham	48,861	42
Ynys Môn	49,287	18

